

ECO'R WYDDFA

Rhif 173

Tachwedd 1991

Pris 25c

MAE'R ECO EICH ANGEN

Tra'n tynnu tua'r terfyn y gwaith o baratoi'r rhifyn hwn o *Eco'r Wyddfa* cofiodd y Golygyddion nad oedd trefniant wedi'i wneud i blygu'r papur ar nos Iau, Hydref 31. Y noson honno deuai 2,300 o gopïau o'r papur o'r wasg yn bentyrrau o ddalennau ar wahan, a'r cyfan eisiau eu casglu at ei gilydd i greu papur cyflawn.

Penderfynwyd ffonio Gohebydd Pentref Cwm-y-Glo. Allai hi helpu'r *Eco* o'i dipyn o bicil? 'Wrth gwrs,' oedd yr ateb parod a dyma chi rŵan, gobeithio, yn cael fod pob dalen yn ei lle, wedi ei phlygu'n ddestlus er eich mwyniant. Un creisis bach arall wedi'i ddatrys, diolch i'r Golygyddion a chynorthwywyd Cwm-y-Glo.

Nid gwaith y Golygyddion ydy trefnu plygu'r papur ond gwaith y Trefnydd Plygu. Y drafferth ydy fod y swydd honno'n wag ers pum mlynedd, er gwaethaf sawl apêl i'w llenwi. Gallai Trefnydd Plygu

drefnu rhaglen blwyddyn ymlaen llaw — ffonio hwn, galw heibio nacw, cael rota o un ar ddeg person i fod yn gyfrifol am un ar ddeg criw mewn un ar ddeg lle.

Y nod gan *Eco'r Wyddfa* ers y dechrau fu creu swydd i bob dim — trefnydd hyn a threfnydd y llall — rhannu'r baich rhag iddo fynd yn ormod. Gwelwch restr o'r swyddogion presennol ar dudalen 2. Ond nid dyna'r stori gyfan.

Fe fu cynlluniau i gael gweithgareddau cymdeithasol yn enw *Eco'r Wyddfa*. Trefnwyd tair Eisteddfod Ffug, dechreuwyd noddi cystadlaethau chwaraeon a bwriadwyd trefnu Gŵyl Ddrama. Roedd hyn oll yn rhan o gynllun bwriadol i feithrin hyder a balchder yn y fro. Mae'r *Eco*'n rhywbeth mwy na phapur newydd. Ond methiant fu'r ymgais i sefydlu Pwyllgor Cefnogwyr yr *Eco*, i lywio'r gweithgareddau hyn. Y

Parhad ar Dudalen 19.

LLWYDDO YN Y LLYNGES



LLENORION EISTEDDFODAU GWAUN GYNFI A LLANRUG




Dyma luniau enillwyr y prif wobrau llenyddol mewn dwy eisteddfod leol a gynhaliwyd yn ystod mis Hydref.

Yn Llanrug ail-adroddwyd hanes eisteddfod 1990 gyda Robert Williams yn ennill y gadair a Nia Griffiths yn cipio medal yr ifanc. Anrhydeddwyd y ddau mewn seremoni oedd dan ofal disgyblion hynaf Ysgol Brynrefil. Yn y llun gwelir y ddau lenor yng nghwmni genethod ieuengaf Ysgol Gynradd Llanrug a berfformiodd y ddawns flodau — yn ôl traddodiad, un o uchafbwyntiau'r eisteddfod. Canlyniadau'r eisteddfod a'r gwaith llenyddol buddugol tu fewn.

Gŵr lleol ond sydd ers tro yn un o drigolion Trefor a enillodd gadair Eisteddfod Gwaungynfi. Ysgrifennodd y Parch Idris Thomas ddyddiadur taith i Israel

yn dwyn y teitla 'Pinaclau'. Lowri Angharad Roberts o Lanrug oedd enillydd medal yr ifanc. Roedd defod yr anrhydeddu dan ofal aelodau o seindorf ieuencid y pentref.



Lowri Angharad Roberts



Peth mor braf yw cael y cyfle i longyfarch pobl ifanc y fro ar eu llwyddiannau. Un o'r rhai hynny sy'n haeddu pob clod yw Bryn Cerwyn Thomas, mab Jennifer a Gareth Thomas, Y Grib Goch, Llanrug.

Ymunodd Bryn â HMS Raleigh, Coleg y Llynged Frenhinol, ym mis Mai eleni. Ar ôl mis roedd wedi pasio ei arholiadau cyntaf fel paramedic yn Ysbyty Haslar, Portsmouth. Aeth ymhellach na hynny a derbyniodd wobwr arbennig Safon Uwch y Groes Goch. Dyma lun ohono yn derbyn y fedal honno gan Surgeon Commander Macmillan o HMS Haslar.

Bellach mae Bryn wedi ymuno ag Ysbyty'r Llynges yn Plymouth lle bydd yn astudio gweddill y cwrs. Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau ato gan ddymuno pob llwyddiant eto yn y dyfodol.

**Cyfarfod Cyffredinol
DYFODOL YR ECO
NOS WENER,
TACHWEDD 8
NEUADD YSGOL
BRYNREFAIL am 7.00**

ECO'R WYDDFA

RHIF 172
HYDREF 1991

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION

PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhythallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEBWYR PENTREFI:

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich

ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri, 870491.

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 28

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN

TACHWEDD 18

os gwelwch yn dda

Llythyrau

Cyfle i Artisitiaid Anabl

Os ydych yn berson anabl gyda diddordeb brwdfrydig yn y celfyddydau gweledol, yn cynnwys crefft a dylunio, yna gellwch gystadlu am un o wobrau Datblygu Artistiaid 1991.

Dyma gystadleuaeth sy'n cael ei rhedeg gan Wasanaeth Cwmni'r Co-op yng Ngogledd Cymru mewn cydweithrediad â Chymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru. Os ydych yn fyfyrwr mewn Coleg Celf neu'n mynychu unrhyw gwrs celf, neu ddim ond yn mwynhau celf fel diddordeb, yna mae siawns i chi ennill gwobr gyntaf o £100 neu unrhyw un o'r pedair ail wobr o £50.

Yr hyn oll sydd eisiau ei wneud yw cwblhau ffurflen gais a'i dychwelyd gyda chwe llun o'ch gwaith ddim hwyrach na 30 Tachwedd 1991. Am fwy o fanylion a ffurflen gais cysylltwch â:

Yvonne Lyn Griffiths
Swyddog Celf a Phobl Anabl
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru
10 Wellfield House
Bangor, Gwynedd LL57 1ER
neu

ffoniwch Bangor 353248.

Gwybodaeth am Robert Parry, Ceunant

'Rwy'n gwneud gwaith ymchwil i hanes bywyd a gwaith fy hen daid Robert Parry, Ceunant, un o sylfaenwyr Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru a Llywydd yr Undeb pan fu farw yn 1883. Tybed a oes gan unrhyw un o ddarlennwyr yr Eco ddarlun ohono — neu unrhyw wybodaeth am ddarlun — ac a fyddai yn fodlon rhoi ei fenthyg imi. Cymerwn ofal mawr ohonno.

Edgar W. Parry

Awelfryn,
16 Stryd Thomas,
Caernarfon.

Apêl Ymchwil y Galon

Cynhaliwyd Noson Goffi gan Gangen Caernarfon a'r Cylch o Apêl Ymchwil y Galon ar nos Iau, Hydref 17, yn yr Institiwt, Caernarfon. Cyflwynwyd siec o £5,000 i Mr Gwyn Hughes, trefnydd Gogledd Cymru. Da oedd deall ganddo bod yr arian yn mynd i gael ei ddefnyddio yma yng Ngwynedd.

Mae cardiau Nadolig Cymraeg tuag at Apêl Ymchwil y Galon ar werth gan Mrs Mai Parry, 2 Bryn Heli, Ffordd Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 4385.

Colofn

Nawdd Cymdeithasol

Y mis hwn gwelwn gychwyn colofn newydd yn ein papur, y gyntaf mewn cyfres fydd yn delio â gwahanol faterion yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol. Byddwn, yn y misoedd i ddod, yn rhoi rhyw fraslun o rai o'r gwahanol fudd-daliadau sydd ar gael, ynghyd â'r amodau i'w bodloni.

Dechreuwn felly drwy sôn y mis hwn am **LWFANS GWEINI** (Attendance Allowance).

Budd-dâl wythnosol ydyw i bobl neu blant sydd, oherwydd salwch neu anabledd, ag angen llawer o ofal, sylw, neu gymorth, er enghraifft i ymolchi, i fwyta neu yfed, i symud o gwmpas neu godi o'r gwely.

Mae dau gyfradd, yr un is yn £27.80 yr wythnos i rai sydd ag angen gofal yn ystod y dydd neu yn ystod y nos, a'r gyfres uwch o £41.65 yr wythnos i rai sydd ag angen gofal yn ystod y dydd a'r nos.

Mae rheolau arbennig i bobl sy'n defnyddio peiriant dialysis arenol, ac i rai sy'n dioddeg o salwch terfynol.

Nid yw Lwfans Gweini yn cael ei gymeryd i ystyriaeth at bwrpas treth incwm, ac nid yw fel rheol yn effeithio ar yr un pensiwn na budd-dâl arall. Nid oes prawf moddion i'w fodloni, felly ni fydd unrhyw incwm arall na chynilion yn effeithio ar y cais.

Cewch fwy o fanylion a ffurflen gais drwy ffonio Llinell Gymorth Ddi-dâl Gymraeg Nawdd Gymdeithasol ar 0800 289 011. Ni fydd yr alwad yn costio dim i chi, ac fe gewch gyngor, os mynnwch, ar unrhyw fater arall yn ymwneud â Nawdd Cymdeithasol.

RHODDION

10: Mr a Mrs Inigo Jones, Eilionwy, Llanrug. Teulu Tros y Gors, Waunfawr.

5: Mrs Gracie Thomas, Gwenallt, Llanrug. Mrs N. Prichard, 23 Dolafon, Cwm-y-Glo. Teulu Cae Adda, Waunfawr. John Elwyn Jones, Waunfawr.

£3: Mrs Ceinwen Evans, 12 Hafod Oleu. Michael Vincent Owen, 10 Maes Derlwyn, Llanberis. Mrs Jan Davies, 9 Stryd y Dŵr, Llanberis.

£2: Mrs Olive Jones, 1 Hafod Oleu, Deiniolen. Mrs Williams, 1 Vaenol Terrace, Deiniolen. Mr a Mrs K. Williams, 12 Ffordd Glasgoed, Caernarfon. Mari, 6 Ffordd Deiniol, Deiniolen. Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion, Penisarwaun.

£1: Mrs K. Williams, 8 Llys y Gwynt.

ADLONIAN

Theatr Gwynedd, Bangor

Cwmni Theatr Gwynedd yn cyflwyno 'Dim Ond Heno', gan Gwion Lynch. Nos Fawrth — nos Sadwrn, Hydref 29 — Tachwedd 9, am 7.30 p.m.

Cwmni Theatr Dyfed, Arad Goch, yn cyflwyno 'Saer Dolliau', gan Gwenlyn Parry. Tachwedd 28, 29, 30, am 7.30 p.m. Swyddfa docynnau: Bangor 351707.

Cwmni Whare Teg yn cyflwyno'r pantomeim blynyddol, 'Y Brenin Arthur a'r Blewyn Hir', o Ragfyr 10 ymlaen. Rhagor o fanylion eto.

DRAENOG



Gyda'r rhifyn hwn o'r Eco mae atodiad y WDA (Awdurdod Datblygu Cymru) — 'Ffyniant Cefn Gwlad'. Sylwch ar effeithiolrwydd y map — 'Cydwethio â'r Cymunedau'. Mae bro'r Eco (17) wedi symud i gyffiniau Beddgelert, a Bethesda (2) yn ymestyn ar draws Llanddeiniolen, Bethel ac i'r Felinheli. Fe fyddai'n haws cydweithio â chymunedau pe bai'r WDA yn gwybod ble mae nhw. Ond ar y llaw arall, efallai mai eu syniad nhw o oresgyn problemau cefn gwlad Cymru yw symud y cefn gwlad i rywle arall!

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Beth am ddod i gystadlu i

EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN

Manylion:

J. Medwyn Williams
Bethesda 600284

Neu beth am ddod i
fwynhau'r wled yn
Ysgol Dyffryn Ogwen
Sadwrn, Tachwedd 16
12.30 a 6.00

Lluniaeth ysgafn ac
arddangosfa Gelf a Chrefft
yn yr ysgol bnawn Sadwrn

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

ANTUR PADARN Gobaith am Swyddog Datblygu

Mae'n bosibl y gwelwn Swyddog Datblygu yn cael ei benodi o fewn y flwyddyn ar gyfer gwasanaeth pentrefi Dyffryn Padarn.

Dywedir hyn gan fod Cyngor Dosbarth Arfon wedi cytuno i gyflwyno cais Antur Padarn i'r Swyddfa Gymreig ar gyfer noddi swydd o'r fath o dan gynllun cymorth trefol. Wrth gwrs, gan y Swyddfa Gymreig y bydd y gair olaf a'r gobaith yw y byddant yn gweld eu ffordd yn glir i gefnogi cais o'r fath.

Bellach mae'n dda gallu adrodd bod y gwaith o ddadansoddi canlyniadau yr Holiadur yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Mae tipyn o'r gwaith wedi ei wneud yn barod ac mae'r diolch pennaf am hynny yn ddyledus i Mr Goronwy Hughes o Lanrug, sydd wedi bod wrthi am fisoedd yn bwydo yr holl wybodaeth i mewn i'r cyfrifiadur.

Y bwriad, o fewn yr wythnosau nesaf, yw cyflwyno peth o'r casgliadau i sylw y Cyngorau Cymuned lleol er mwyn ceisio eu cefnogaeth ar gyfer cyflwyno ceisiadau i Awdurdod Datblygu Cymru am gymorth ariannol i gyllido cynlluniau y mae'r gymuned leol yn awyddus i'w gweithredu. Y bwriad yw trafod y posibilrwydd yma gyda Awdurdod Datblygu Cymru yn gynnar ym mis Tachwedd.

Hefyd yn ystod yr wythnosau diwethaf mae cais wedi dod i law oddi wrth cwmni Euro DPC, Glynrhonwy, Llanberis, am i grwpiau gwirfoddol lleol yn

arbennig efallai ysgolion cynradd ac uwchradd i gynnig syniadau ar gyfer gwella'r amgylchfyd o gwmpas y ffatri newydd. Ni all y cwmni rhoi sicrwydd y bydd y syniadau a gynigir iddynt yn cael eu derbyn ond maent yn awyddus i'w trafod. Felly, chwi grwpiau lleol, cysylltwch â'r cwmni, neu gyda ni fel Antur Padarn am fwy o fanylion.

Yn y cyfamser cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur ar **nos Fercher, Tachwedd 6ed, am 7 o'r gloch yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug**. Croeso cynnes i bawb.

WYDDOCH CHI . . . ?

Pan gyhoeddir yn llawn ganlyniadau'r Holiadur a drefnwyd gan Antur Padarn, byddwch yn barod i gael eich synnu a'ch diddori gan ymateb pobl y fro i rai o'r gofynion.

Dyma i chwi ychydig o dameidiau i aros pryd:

- Deallwn mai 5% yn unig o'r holl bobl (tua 2,000 i gyd) a holwyd oedd yn gefnogol i gynlluniau i ddatblygu Glyn Rhonwy ar gyfer twristiaeth, o unrhyw fath.
- Dim ond 2.5% oedd yn gefnogol i gynlluniau twristiaeth ar raddfa eang ar gyfer yr ardal.
- Byddai 92% o fyfyrwyr lleol yn aros i weithio yn yr ardal hon pe byddai gwaith ar gal yma; byddai 71% o blant rhwng 14 a 18 oed yn gwneud yr un fath.

Her i drigolion Llanrug

Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas Hanes Bro 'Eco'r Wyddfa' yn y Sefydliad Coffa, Llanrug, nos Fercher, 23 Hydref. Y gŵr gwadd oedd Edgar Parry, Caernarfon, a chafwyd darlith hynod o ddiddorol ganddo ar y Parchg Peter Bailey Williams, Rheithor Plwyfi Llanrug a Llanberis o 1792 i 1836. Daeth cynulliad da ynghyd, gan gynnwys nifer o aelodau newydd.

Ar ddiwedd y noson, mynegodd y gŵr gwadd siom nad oedd unrhyw arwydd o goffad o fewn i eglwys Llanrug am y gŵr nodedig hwn. O fewn ychydig fisoedd, bydd daucanmlwyddiant dyfodiad Peter Bailey Williams i Lanrug, ac fe

ddylid gweithredu mewn rhyw fodd ymarferol i gofnodi'r ffaith honno. Felly, drigolion Llanrug, beth amdani?

DRAENOG

'Sgwn i fu Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn trafod cais cynllunio am godi dwy tipi neu ddwy wigwam o fewn eu bro? 'Sgwn i a wnaeth Cyngor Arfon ganiatau'r cais? Ond rhag beio neb, efallai na wnaethpwyd cais o gwbl, oherwydd mae bron yn amhosibl gweld y ddwy babell heb gerdded at eu hymylon. Polyn totem yn wobri i'r sawl all leoli'r tipis.

CASGLU AT ACHOS DA



Swyddogion 'Lleisiau'r Gweunydd' yn cyflwyno siec am £500 i Mr Cledwyn Jones, Cadeirydd Headway Gwynedd. Cododd y parti'r arian drwy drefnu raffl a chynnal cyngerdd. Ddiwedd mis Hydref bu'r parti yn yr Almaen am wyth niwrnod. Buont yn teithio ac yn cynnal cyngherddau yn ardal yr afon Mosel o'r wlad.

Hwb ymlaen i ddysgu Cymraeg i Oedolion

Datganiad gan Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

Yn ystod y flwyddyn academiaidd 1990-91, gwnethpwyd gwaith ymchwil ar anghenion maes Cymraeg i Oedolion. Am y tro cyntaf holwyd pobl oedd wedi rhoi'r gorau i ddysgu yn ogystal â'r rhai oedd mewn dosbarthiadau ar y pryd. Mae'r canlyniadau yn brawf o lwyddiant ysgubol y maes pwysig hwn. Dyma rai o'r ffeithiau a ddaeth i'r amlwg yn sgîl yr ymchwil:

1. Dros y blynyddoedd mae'r pwyslais wedi newid o ddysgu gramadeg ffurfiol i ddysgu pobl i siarad yr iaith a chroesewir hyn gan y dysgwyr.

2. Mae'r dysgu a'r deunyddiau dysgu yn effeithiol. Dim ond 1% o'r dysgwyr nododd fod ganddynt diwtor aneffeithiol a 1% nododd fod y deunydd dysgu'n aneffeithiol. O safbwynt y tiwtoriaid, nododd nifer rhywbeth tebyg i, 'Roedd y tiwtor yn ardderchog'.

3. Mae'n amlwg bod llwyddiant yn yr ysgolion yn dechrau cael effaith ar y rhieni. O blith yr oedolion sy wedi rhoi'r gorau i fynd i ddosbarthiadau mae 34% ohonynt yn dal i ddefnyddio eu Cymraeg i ddarllen llyfrau i'r plant a 31% ohonynt yn dal i ddefnyddio eu Cymraeg i helpu'r plant gyda gwaith ysgol.

4. O'r bobl sydd wedi rhoi'r gorau i ddysgu, dywed 96% ohonynt eu bod yn barod i fynd yn ôl i ddosbarth unwaith eto. Mae'r ffigurau hyn yn galonogol iawn i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion. Y rhesymau mwyaf poblogaidd a roddwyd dros roi'r gorau i ddysgu yn y lle cyntaf oedd rhai personol, e.e., 'Rydw i wedi gorfod colli gormod o wersi' ac 'amgylchiadau teuluol'.

5. Mae ymroddiad y dysgwyr yn fawr gyda 69% wedi gwneud yr ymdrech i greu cyfle i siarad y tu allan i'r dosbarth. Byddai rhwydwaith o Ganolfannau Iaith yn rhoi cyfle teg i'r dysgwyr hyn fedru ymarfer yr iaith. (Nododd 60% nad oes Canolfan Iaith yn eu hardal nhw).

6. Nododd 60% nad oedd ganddynt syniad faint o oriau oedd yn angenrheidiol i fod yn rhugl. Mae prawf bellach mai'r bobl sydd yn llwyddo orau ar y cyfan yw'r rhai sy'n dilyn cyrsiau dwys a bod angen o leiaf 300 o oriau dysgu. Mae yna nifer fawr o Ganolfannau sy'n dysgu'r cyrsiau dwys hyn bellach — Politechnig Cymru a Choleg y Drindod i enwi ond dwy — a'r gobaith yw y bydd y Swyddfa Gymreig yn ariannu cyrsiau 300 awr

yn hael iawn yn y dyfodol.

Mae holiadur yn profi bod maes Cymraeg i Oedolion ar hyd y trywydd iawn. mae pobl yn llwyddo i ddysgu Cymraeg ac mae pobl yn mwynhau dysgu ond y nod yw llwyddo ar raddfa ddigon eang i ddarbwyllo pobl mai cymdeithasau Cymraeg neu ddwyieithog yw'r norm yng Nghymru a bod modd ymuno â'r cymdeithasau hynny. I sicrhau hyn, mae angen adnoddau helaeth iawn. Ym 1988 gofynnodd CBAC i'r Swyddfa Gymreig, ar ran maes Cymraeg i Oedolion, am £8 miliwn dros bedair blynedd. Yr hyn sydd yn amlwg bellach yw os ydym i sicrhau bod mewnfydwyr yn cael eu cymhathu a bod trigolion ardaloedd di-Gymraeg Cymru i fod i adennill y Gymraeg ein bod ni angen adnoddau helaethach hyd yn oed na £8 miliwn. Gyda adnoddau cyfyng mae maes Cymraeg i Oedolion wedi cwrdd â'r her o gyflwyno'r Gymraeg mewn ffordd effeithiol mae'r dysgwyr yn ei mwynhau. Gobeithir y bydd y Swyddfa Gymreig yn wynebu'r her nawr — yr her ariannol i sicrhau bod digon o adnoddau i'r maes ddatblygu i'w lawn botensial.

Mae copi o Grynoded o Ganlyniadau'r Holiaduron a manylion pellach ar gael trwy ffonio Helen Prosser, Swyddog Dysgu'r Gymraeg i Oedolion, Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, 245 Rhodfa'r Gorllewin, Caerdydd ar (0222) 555446.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

CYNGERDD MAWREDDOG

yn adeilad newydd EURO DPC yng Nglyn Rhonwy at elusen 'Hospis yn y Cartref'

Elinor Bennet

Dafydd Iwan

Hogia'r Wyddfa

Côr Meibion Caernarfon

nos lau, Tachwedd 7fed am 7.30 p.m.

Mynediad £3 yn cynnwys lluniaeth ysgafn
Tocynnau ar gael o ADC (0286) 670826. Gellir talu ar y drws.
Defnydd o'r adeilad trwy garedigrwydd

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Cronfa Canolfan Waunfawr: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Awst — 1, £40: Wyre Thomas, Weirglodd Fawr; 2, £25: Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant; 3, £10: Haydn Jones, Rhandirmwyn. Mis Medi — 1, £40: Dr Huw Roberts, Hafodty, Rhosbodrual; 2, £25: Mrs Ann Jones, Haulfryn; 3, £10: Mr T. A. Thomas, Gilfach.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd tymor y gaeaf o'r Gymdeithas Lenyddol yn cychwyn nos Lun, Hydref 28, gyda darlith hwyliog y Parch W. R. Williams, Y Felinheli, o dan y pennawd 'Esgidiau'. Fe dorrir tir newydd yn ystod cyfarfod mis Tachwedd trwy gynnal 'Noson Lawen' i aelodau'r Gymdeithas yn unig, sef nos Lun, Tachwedd 11, pan y croesawir parti talentog o ben Llŷn, sef parti 'Hogia'r Mynydd'. Bydd y trefnyddion yn hynod falch o wasanaeth rhai o'r merched i gynorthwyo gyda'r danteithion i'r parti wedi'r cyfarfod — ac efallai y ceir help llaw gan rai o'r dynion hefyd! Beth amdani? Gyda llaw, annogir yr aelodau i ddod yn brydlon i'r Noson Lawen er mwyn sicrhau sedd, gan fod canmoliaeth mawr i'r parti hwn. Estynnir croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â'r Gymdeithas ac mae rhaglen ddifyr iawn wedi ei threfnu y gaeaf hwn eto. Mae'r tâl aelodaeth am y tymor yn £2.

Merched y Wawr: Agorwyd y tymor newydd gan y llywydd, Mary Vaughan Jones, a chroesawodd pawb a'u hatgoffa fod y gangen yn dathlu ei phenblwydd yn ddeunaw oed. Cafodd y gŵr gwadd, Wil Sam, y swyddogaeth bwysig o dorri teisen y dathlu, a braf oedd i bawb dderbyn tamaid i'w fwyta hefo'u paned. Diolchodd Mrs Jones i Nan Huws Roberts am ddarparu'r deisen.

Mwynhaodd pawb sgwrs ddifyr Wil Sam yn adrodd ei straeon yn ei ffordd ddi-hafal ei hun. Diolchwyd iddo gan Margaret Owen, a pharatowyd y te a raffl gan Cadi Jones. Enillydd y raffl oedd Joy Glyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos lau, Hydref 31, am 7.30 p.m., pan fydd Madam Sera yn ein difyrru ar Noson Galan Gaeaf.

Plaid Cymru — Cangen Waunfawr a Chaeathro: Cynhelir Twmpath Dawns i'r teulu ar nos Sadwrn, Tachwedd 2, yng Nglan Gwna am 7 p.m., yng nghwmni Gwerinos.

Croeso i bawb.

Ar y teledu: Gwelwyd wynebaw cyfarwydd ar y teledu yn ystod y ddrama 'Heb ei Fai' pan oedd yr 'achos' yn cael ei ffilmio yn festri capel Bethel.

Cyfeillion Ysgol Waunfawr: Cafwyd Twmpath Dawns llwyddiannus iawn yn y Ganolfan ar nos Wener, Medi 13, yng nghwmni Aderyn Prin a Len Jones, Penisarwaun (gynt), yn galw. Enillwyr y raffl oedd — Basged o ffrwythau: Ann Wyn Jones; Basged o flodau sych: Bethan Cadwaladr; Bocs o siocled: Edryd Williams; Bocs bylbiau daffodil: Delyth Jones; papur ysgrifennu: Sioned Glyn.

Ar Medi 28 cafwyd stondin yn ystod Ras Antur Waunfawr, a dechreuwyd gerthu sgwariau 'Ble Bawa Blodwen?'. Mae 1,000 o sgwariau angen ei gwerthu cyn 2/11/91, felly, cefnogwch yr Ysgol a hwyrach mai chi fydd yn elwa o £100. Dymuna'r pwyllgor ddiolch am y gefnogaeth a gafwyd yn barod i'r gweithgareddau hyd yn hyn.

Llongyfarchiadau:

— i Mr a Mrs David Jones, Llynfod, ar ddathlu eu priodas aur.

— i Mr a Mrs Treflyn Thomas, Treforfan, ar ddathlu eu priodas arian.

— i Mrs M. Roberts, Bod Afon, ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab bach, Dafydd Rhun, i Marilyn a Dafydd, brawd bach i Lois.

— i Nesta Griffith, Eirianallt, ar ei phriodas â Michael Roberts o Gwm-y-glo. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

— i Heather Jones, Bryn Menai, ar ei phriodas â Alan Jones o Gaernarfon. Maent wedi ymgartrefu yng Nghwm-y-glo.

— i Haf Parry, Bryn Golau, ar ei dyweddiad ac Endaf Jones o Langefni.

— i Rhys Sion, Pant Teg, ar gael ei benodi yn ddirprwy brif ddisgybl y bechgyn yn Ysgol Syr Huw Owen.

— i Gwenan Jones, Glyn Ceris a Susan Grundy, Fair Field. Mae'r ddwy wedi dathlu eu penblwydd yn 18 oed yn ystod mis Hydref.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Hughes, Llys Meredydd, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, ar ôl iddi ddisgyn a thorri ei chlyn.

Croeso adref o'r ysbyty: i Mrs Karen Thomas, Swyddfa'r Heddlu; Mrs Idris Jones, Goleufryn; Mrs Helen Jones, Dôl Erddi; Joanna Williams, Angorfa;

Mr Elfed Roberts, Dwyros; Mr Glyn Williams, Stad Tref Eilian; Mandy Griffith, Stad Bro Waun a Mrs Lorna Parry, Afallon.

Dymunwn yn dda i Miss J. Jones sydd wedi mynd i gartref preswyl tros y gaeaf.

Cydymdeimlad:

— â Miss K. Humphreys, Bro Waun, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer yn ddiweddar.

— â theulu y ddiweddar Mrs Roberts, Elwy House.

— â theulu a chyfeillion y diweddar Mr Horace Cox.

— â Mr Bob Owen, Glennydd, yn ei brofedigaeth o golli ffrind.

— â Mrs Glenys Pierce, Bryn Gwyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

— â Mrs Laura Williams, Tros-y-Gors, yn ei phrofedigaeth o golli ei mam.

Diolchiadau:

Dymuna Raymond, Laura, Gwyndaf a Gerallt, ddiolch o galon am y caredigrwydd a phob cydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth.

Dymuna Mrs M. Jones, Cae Adda a'r teulu ddiolch o galon am y cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ac am y rhoddion ariannol a gyflwynwyd i'r Feddygfa.

Llongyfarchiadau:

— i ddisgyblion Ysgol Syr Huw Owen uchaf, fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr ysgol.

— i blant y ddwy Ysgol Sul fu'n cymryd rhan yng ngwasanaethau diolchgarwch.

— i'r bobl ifanc sydd wedi llwyddo yn y prawf gyrru yn ystod y misoedd diwethaf yma.

Damwain: Gobeithio fod braich Rhodri Sion yn gwella ar ôl iddo ei brifo mewn damwain.

Yr Urdd: Cafwyd dechrau llwyddiannus i'r tymor Medi 11, pan ddaeth criw i'r Ganolfan i ymaelodi, gyda Anti Carys ac Anti Olwen yn cadw trefn. Daeth Anti Jina i roi sgwrs i'r plant ar yr Almaen. Dawnsio gwerin fu'r criw ar Fedi 18, gyda Anti Jina, Anti Heulwen a Sioned Glyn yn eu harwain. Nos Fercher, Medi 25, cafwyd cwis o dan ofal Anti Gill ac Anti Joy, gyda'r plant yn rhannu'n dimau. Timau unwaith eto ar Hydref 2, pan ddaeth Anti Carys, Anti Christine, Anti Carys J., ac Anti Pat i gynorthwyo gyda rownderi a gemau bwrdd. (Yn anffodus, oherwydd y tywydd anffarfiol, methodd y bechgyn a chael gêm bêl-droed ar y cae.)

Yn dilyn prysurdeb wythnos yr Eisteddfod, daeth pawb ynghyd ar Hydref 16 i fynd i nofio yng

Nghanolfan Hamdden Caernarfon. Diolch i bawb a fu'n cludo'r plant.

Nos Fercher, Hydref 30 fe fu Anti Anti Llinos ac Anti Heulwen yn trefnu noson o gemau i'r plant.

Noson Guto Ffowc: Nos Fawrth, Tachwedd 5, ar gae y Ganolfan, Tân Gwylt i'w tanio am 6 o'r gloch. Cawl a chwn poet yn y Ganolfan i ddilyn. Hwn fydd cyfle ola'r plant i ymaelodi am eleni.

Fe fydd cyfarfod nesa' o'r Urdd ar nos Fercher, Tachwedd 13 am 6 o'r gloch yn y Ganolfan.

Llongyfarchiadau i Anti Carys ac Anti Christine am lwyddo i ennill tystysgrif mewn cwrs hyfforddi pêl-rwyd a gynhaliwyd ar y cyd rhwng yr Urdd a Chyngor Chwaraeon Cymru ym Mangor yn ddiweddar.

NOSON I'R TEULU

Nos Fawrth, Tachwedd 5
ar gae'r Ganolfan, Waunfawr
am 6 o'r gloch

TÂN GWYLLT

Cawl a chwn poeth am
bris rhesymol.

Dewch yn llw

EISTEDDFOD WAUNFAWR

Cynhaliwyd Eisteddfod y pentref ddydd Sadwrn, Hydref 12, yn y Ganolfan, lle bu cystadlu brwd. Y beirniaid oedd — Cerdd: Mr Edward Morus Jones, Llandegfan; Adrodd a Llên: Mr William Lloyd Davies, Bangor; Arlunio a Ffotograffiaeth: Mr Islwyn Jones, Llanrug; Gwaith Llaw a Ceginio: Mrs Gillian Jones, Rhiwlas; Gwaith Coed: Mr Tom Thomas, Waunfawr.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch o galon i bawb am wneud yr eisteddfod yn gymaint o lwyddiant. Dyma'r canlyniadau:

Cyfarfod y prynhawn

Canu — Dosbarth yr Hafod: 1, Cathryn; 2, Elgan; 3, Elin a Rhion. **Ysgol Feithrin:** 1, Beth; 2, Alun, Wenna, Nia, Mair; 3, Nicola. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Anna ag Ieuan. **Unawd Recorder Safon 1 a 2:** 1, Sioned; 2, Steffan. **Unawd Piano hyd at Safon 2:** 1, Sioned. **Cân Actol hyd at Safon 1:** 1, Hwiangerddi; 2, Yr Ysgol Feithrin. **Unawd Recorder Safon 3 a 4:** 1, Sioned a Steffan; 2, Ifan Glyn. **Parti Recorder Ysgol Gynradd:** 1, Parti Christina; 2, Parti Hogia Post; 3, Parti Heledd. **Unawd Piano Safon 3 a 4:** 1, Lowri Glyn a Heledd; 2, Derfel; 3, Gareth. **Deuawd oed Cynradd:** 1, Heledd ag Osian; 2, Rhian a Sioned. **Unawd Llinynnol oed Cynradd:** 1, Derfel; 2, Lowri Glyn.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

**YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L

PRITCHARD

**43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



**Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff**

**CARTREF
HENOED**

Joelas

**Caernarfon
(0286) 4652**

Unawd Safon 3 a 4: 1, Rhian; 2, Lowri; 3, Heledd. **Cân Actol Safon 2, 3 a 4:** 1, Tîm Gorau'r Byd. **Parti Dawnsio Gwerin:** 1, Parti Post; 2, Parti Croeswaun. **Unawd Offeryn Chwyth:** 1, Emma; 2, Heledd ag Ian; 3, Gareth. **Parti Canu:** 1, Parti'r Genod; 2, Parti'r Hogiau. **Dawnsio Disgo:** 1, Afal; 2, Sobin.

Arlunio — Ysgol Feithrin: 1, Daniel; 2, Richard; 3, Bethan. **Dosbarth yr Hafod:** 1, Ceri; 2, Liam; 3, Rhion ag Elgan. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Sara Roberts; 2, Erica Jones; 3, Sarah Weir a Simon Roberts. **Safon 1:** 1, Wayne Roberts; 2, Aimee Addison; 3, Joanne Williams ag Ifan Morgan. **Safon 2:** 1, Steven Evans; 2, Anthony Boston; 3, Steffan Elidir. **Safon 3:** 1, Osian Elfryn; 2, Aled Rhys; 3, Danny Pitman. **Safon 4:** 1, Gareth Cadwaladr; 2, Richard Sanderson ag Ian Roberts; 3, Rhian Griffiths ag Hazel Griffiths.

Gwaith Llaw — Dosbarth yr Hafod: 1, Jason; 2, Ceri a Cathryn; 3, Iwan a Liam. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Sarah Weir; 2, Sara Roberts; 3, Thomas Hughes a Henry Morgan Jones. **Safon 1:** 1, Joanne Williams; 2, Emma Davies a Ceri Rowlands; 3, Alister Addison. **Safon 2:** 1, Carol Ann O'Reilly; 2, Fiona Davies; 3, Lisa Pitman. **Safon 3:** 1, Marek; 2, David Murry ag Elin Evans; 3, Osian Elfryn. **Safon 4:** 1, Sioned Jones; 2, Sian Jones; 3, Meirion Williams.

Llên — Safon 1: 1, Sioned Williams; 2, Emma Davies; 3, Alister Addison. **Safon 2:** 1, Ffion Williams; 2, Emma Owen; 3, Llion Dafydd. **Safon 3:** 1, Lowri Glyn; 2, Rhys Huws; 3, Eleri Haf Williams. **Safon 4:** 1, Gareth Cadwaladr; 2, Heledd Elfryn; 3, Sian Jones.

Adrodd — Dosbarth yr Hafod: 1, Cathryn; 2, Elgan a Rhion; 3, Eifion ag Elin. **Ysgol Feithrin:** 1, Nia; 2, Wenna; 3, Louise. **Dosbarth Mrs Ellis:** 1, Gareth; 2, Anna; 3, Ieuan. **Safon 1 a 2:** 1, Sioned; 2, Ifan Glyn; 3, Sion. **Safon 3 a 4:** 1, Lowri Glyn. **Parti Adrodd:** 1, Parti Rhian; 2, Parti Edryd a Pharti Lowri; 3, Parti Sioned.

Cyfarfod yr Hwyr

Cerdd — Grŵp Offerynnol: 1, Grŵp Elain; 2, Tango; 3, Parti Heledd. **Unawd Blwyddyn 1, 2 a 3:** 1, Kristy; 2, Manon. **Unawd Offeryn Chwyth Bl. 1, 2, a 3:** 1, Heddus; 2, Kristy a Llio. **Unawd Piano Bl. 1, 2 a 3:** 1, Llio; 2, Bethan; 3, Kristy. **Unawd Bl. 4, 5 a dan 19 oed:** 1, Hefina; 2, Catrin. **Unawd Offeryn Chwyth Bl. 4, 5 a dan 19 oed:** 1, Meilir a Kailey; 2, Elin a Delyth; 3, Anwen. **Unawd Cân Werin dan 19 oed:** 1, Hefina. **Unawd Piano dan 19 oed:** 1, Osian a Catrin.

Unawd Cerdd Dant dan 19 oed: 1, Catrin. **Unawd Offeryn Llinynnol dan 19 oed:** 1, Catrin. **Deuawd dan 19 oed:** 1, Anwen a Delyth; 2, Nerys a Sioned. **Deuawd Offerynnol dan 19 oed:** 1, Kristy a Kailey; 2, Catrin a Delyth. **Grŵp Pop:** 1, Hen Segars; 2, Jaz Roc; 3, Agwedd Newydd. **Emyn dros 40:** 1, John Jones. **Deuawd dros 19 oed:** 1, Jina a Catrin. **Parti Dawnsio Disgo:** 1, Anwen, Delyth a Kailey. **Cân Actol:** Hen Stegars.

Adrodd — Blwyddyn 1, 2 a 3: 1, Llio; 2, Bethan a Kristy. **Darlên darn heb ei atalnodi:** 1, Bethan; 2, Anwen; 3, Delyth. **Bl. 4, 5 a dan 19 oed:** 1, Elin. **Parti Adrodd:** 1, Genod Ni. **Deialog:** 1, Anwen a Delyth. **Darlên Darn ar y Pryd:** 1, Bethan; 2, Llinos; 3, Robert. **Gwaith Coed Bl. 1, 2 a 3:** 1, Llio Mair; 2, Elain; 3, Sharon a Gerallt; 4, Ceryl. **Coginio Bl. 1, 2 a 3:** 1, Gwenno a Bethan; 2, Deian; 3, Ffion a Heddus. **Coginio Bl. 4 a 5:** 1, Iona; 2, Delyth. **Gwaith Llaw Bl. 4 a 5:** 1, Delyth. **Model o wastraff:** 1, Deian; 2, Ffion; 3, Bethan a Llŷr. **Arlunio Bl. 1, 2 a 3:** 1, Gerallt. **Coginio Agored — Battenburg:** 1, Llinos Cadwaladr; 2, Irene Roberts; 3, Carys Owen a Heulwen Jones. **Rum Truffles neu Fudge:** 1, Joy Glyn; 2, Llinos Cadwaladr; 3, Llinos Cadwaladr, Heulwen Jones, Irene Roberts, Jina Keller. **Lemon Curd:** 1, Llinos Cadwaladr; 2, Irene Roberts; 3, Jina Keller a Heulwen Jones. **Jam neu Jeli Mwyr Duon:** 1, Jean Jones; 2, Llinos Cadwaladr. **Gwau Agored — Siwmpwr i ffitio'r ymgeisydd hefo pedwar pwyth:** 1 a 2: Elena Jones; 3, Elena Jones a Llinos Cadwaladr. **Siwmpwr Motif i Blentyn:** 1, Llinos Cadwaladr. **Gwnio Sampler:** 1, Jean Jones; 2, Llio Mair. **Arlunio Agored:** 1, Ellis Lloyd a Robert Williams. **Caligraphy:** 1, Sioned Glyn; 2, Jean Jones; 3, Jina Keller. **Ffotograffiaeth:** 1, John Roberts; 2, Alfie Jones; 3, Rhodri Sion. **Sleidiau:** 1, John Roberts.

Llên — Blwyddyn 1, 2 a 3: 1, Bethan Cadwaladr. **Llinell Goll:** 1, Elwyn Griffiths; 2, Rhian Ellis; 3, Alfie Jones. **Parodi:** 1, Rhian Ellis; 2, Elwyn Griffiths. **Brawddeg o 'Croeswaun':** 1, Rhian Ellis; 2, Irene Roberts; 3, Carys Owen. **Ymson Hen Lanc/Hen Ferch:** 1, Joy Glyn; 2, Bethan Williams. **Cyfarwyddiadau i ddenu cariad:** 1, Bethan; 2, Joy.

Enillydd y wobr o £100 oedd Mrs Alma Jones, Tan Fron.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Llun o Ysgol Salem, trwy law Mrs G. Jones, Bod Arthu, Waunfawr. Eiddo Mrs Williams o Langoed, Ynys Môn yw'r llun a chredir ei bod hi a'i chwaer yn y llun — Lil ac Olwen, Tyn y Weirglodd, Betws Garmon gynt, a Dyffryn, Waunfawr ar ôl hynny. Nid oes blwyddyn ar y llun nac enw neb arall, ond efallai y gŵyr rhywun?

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.

Penblwydd: Dymuniadau da i Alan Pritchard, Llys Awel ar ei benblwydd yn 18 oed, ar Hydref 1af. Hefyd ei chwaer Sian ar ei phenblwydd yn 21 oed ar Tachwedd 2.

Dymuniadau da i Sandra Fleming, Dolwen, ar ei phenblwydd yn 21 oed ar Tachwedd 11.

Priodas Arian: Llongyfarchiadau i Margaret a Tony Ellis, 5 Nant-y-Ffynnon ar ddathlu eu priodas arian ar Hydref 15.

Dymunwn yn dda i John Ellis, 5 Nant-y-Ffynnon ar ei yrfa yn y coleg yn Milton Keynes.

Gwellhâd buan i Alan Pritchard sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Harefield. Hefyd Mrs Thompson, Tŷ'r Ysgol, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Diolch: Dymuna Alan Pritchard ddiolch o galon i bawb am anrhegion ac arian a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 18 oed.

DRAENOG



TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Croeso adref i Mrs Alwena Jones o'r ysbyty a da gennym glywed fod Rachel yn dod ymlaen yn iawn.

Llongyfarchiadau i Mrs Nancy Morris, Awelfryn, ar ddathlu ei phenblwydd yn 80ain ar Hydref 16.

Diolchgarwch: Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Tan-y-Coed ar Hydref 20, gan Rheon, Kelly, Natalie, Lindsey, Sophie, Dafydd a Ceri. Cafwyd anerchiad gan y Parch John Morris. yn cyfeilio roedd Mrs Nia Roberts, Kelly Roberts a Mrs Sharon Blanchard ar y gitâr, a chyfeiliodd Beverley Roberts i'w chwaer Kelly. Hefyd cymerodd Miss M. A. Humphreys ran yn y gwasanaeth.

Llongyfarchiadau i Beverley, Kelly, Siwan, Gwenan, Guto a Natalie ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Pentref Llanrug.

Hysbyseb Gymraeg?

Does dim byd o'i le ar hysbysebu yn Saesneg. Ond beth mewn difrif calon a gymhellodd yr 'Herald Cymraeg' i gynnwys atodiad hysbysebu uniaith Saesneg am Antur Waunfawr? Chwarae teg i'r ychydig gwmnïau a gefnogodd yr atodiad drwy roi hysbysebion Cymraeg ar y dudalen.

Tŷ DA

wedi ei foderneiddio yn ardal yr Eco. Ar werth am bris rhesymol iawn i brynwr addas Cysyllter â
028 655 538
neu
028 685 558

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GERDDI GLASCOED (Ger Capel Glascoed PENISARWAUN


Rwan yw'r amser i blannu coed, bylbiau a llwyni
Galwch heibio neu ffoniwch
870453



WYTHNOS O BROFIAD GWAITH

Yn ystod wythnos olaf mis Medi bu dros gant o'r 5ed dosbarth ar brofiad gwaith. Mwynhaodd y mwyafrif eu hunain yn fawr a derbyn profiadau gwerthfawr dros ben. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r holl gyflogwyr lleol a fu'n cynorthwyo drwy ganiatau i'r disgyblion fynd atynt yn ystod yr wythnos.

Dyma air o brofiad rhai o'r pumed dosbarth:



Robin Owen yn cael ei hyfforddi gan ei oruchwyliwr yn D.M.M., Llanberis

Julie Jones:

Es i MANWEB ar fy mhrofiad gwaith a mynheais fy hun yn fawr iawn. Dewisais MANWEB oherwydd roeddwn i eisiau cael profiad yn gweithio mewn swyddfa. Dangosodd pawb i mi sut roedd y swyddfa yn gweithio; beth oedd pawb yn ei wneud. Mi wnes i ychydig o ffeilio a rhoi gwybodaeth i mewn i'r cyfrifiaduron. Mwynheais fy hun ac roedd pawb yn garedig tuag ataf.

Amanda Moloney:

Fe fues i yn Ysgol Pendalar. Fe ddysgais yno sut i drin plant anabl a sut i weld bywyd trwy eu llygaid nhw. Mwynheais fy hun yn ofnadwy. Dwi'n argymhell unrhyw un i fynd yno, mae'n brofiad gwych.

Hedd Druce:

Nwy Cymru. Mi wnes i fwynhau fy hun yn fawr a hoffwn weithio yno yn y dyfodol. Dysgais lawer o sgiliau newydd fel defnyddio'r cyfrifiadur a chymryd stoc.

Marian Jones:

Yn ystod yr wythnos profiad gwaith mi es i i'r Adran Ffisiotherapi yn Ysbyty Eryri. Doeddwn i ddim yn yr un lle bob diwrnod, roedd digon o amrywiaeth. Roedd y gwaith yn ddiddorol ac wedi gwneud i mi benderfynu fy mod eisiau bod yn Ffisiotherapydd ar ôl gadael yr ysgol. Rwyf yn argymhell Ysbyty Eryri i bobl eraill, roedd pawb yn glên ofnadwy, ac mi wnes i fwynhau fy hun.

Eilir Wyn Williams:

Fe fue i hefo Mr Dennis William ar brofiad gwaith fel athro teithiol. Yr oeddwn yn gurando i ddechrau, ond wedyn yn dysgu y plant ieuanc. Fe gefais hwyl yn gwneud hyn ac mae wedi rhoi syniadau i mi ar gyfer y dyfodol.

Gerallt Williams:

Mi es i Garej y Grid Cenedlaethol ym Mhentir. Mi fwynheais fy hun yn arw gyda Mr Maldwyn Jones. Mi eglurodd popeth yn fanwl a dealladwy. Mi roeddwn yn helpu i roi MOT gwreiddiol i faniau y cwmni. Mwynheais y profiad yn fawr iawn.

Ymweliad dwy o'r chweched dosbarth â Nant Gwrtheyrn.

Mis Gorffennaf diwethaf, enillasom ysgoloriaeth i fynd i Nant Gwrtheyrn am wyth niwrnod. Ynghyd â ni, roedd gwmpiau o bobl o bob rhan o Gymru. Ar ôl cyrraedd cawsom hyd i lawer o ffrindiau newydd, a rhanasom dŷ gyda dwy ferch arall.

Y diwrnod ar ôl cyrraedd (dydd Sadwrn) cawsom wersi trwy'r dydd, tan 8 o'r gloch y nos. Wedyn roedd y nos yn rhydd. Digwyddai hyn pob diwrnod, heblaw am y noson ddiwethaf, pan gawsom Eisteddfod. Gwnaethom ffyliaid ohonom ein hunain wrth i ni ddawnsio disgo a gwerin, chwarae'r piano a chanu.

Yn y gwersi dysgom am feirdd yr ardal, darllen a deall 'treigliadau'. Yn y nos dysgom am Gelf y Celtiaid, dawnio gwerin, a chael cystadlaethau (enillom feiro gyda Nant Gwrtheyrn arno). Ar ôl yr eisteddfod, cawsom barti ar y traeth ac aeth rhai ohonom i nofio.

Roedd bywyd yn Nant Gwrtheyrn yn debyg i'r bywyd y disgwyliem mewn coleg, oherwydd roedd yn rhaid i ni goginio ein hunain, a dod i adnabod pobl newydd, ac yn brofiad a fydd yn ein helpu yn y dyfodol.

Hoffem ddiolch i CEBG am roi'r ysgoloriaeth yma i ni a'r cyfle i dreulio wythnos yn Nant Gwrtheyrn.

Louise Murphy, Ffion Jones.

Paratoi at Eisteddfod yr Ysgol

Ers amser bellach mae nifer o ddisgyblion ac athrawon wedi bod yn paratoi yn frwd ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol. Mae'r paratoi wrth gwrs ar gyfer y cystadlaethau llwyfan megis y Côr, Parti Bechgyn, Parti Cydadrodd, Cân Bop, a'r Sgets. Ond nid gweithgaredd llwyfan yn unig sy'n gysylltiedig â'r Eisteddfod. Eleni ceir cystadlaethau gwaith cartref ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol yn yr Adran Gymraeg, Saesneg, Ffrangeg, Technoleg, Gwyddoniaeth ac Ymarfer Corff.

Cynhelir yr Eisteddfod ar ddydd Iau, Tachwedd y 7fed. Bydd y drysau ar agor i'r cyhoedd i gyfarfod yr hwyr.

Croesawu'r Flwyddyn Gyntaf

Wedi dros chwe wythnos yn ddisgyblion ieuengaf yr ysgol, mae'r flwyddyn gyntaf wedi ymgynffwrdd â phatrwm a bywyd eu hysgol newydd. Daeth 96 o ddisgyblion blwyddyn 1 i'r ysgol eleni a chroesawn hwy yn frwd i'n plith.

Trip i Theatr Gwynedd

'O.M.' ynteu 'Un Nos Ola Leuad'? *Un Nos Ola Leuad* yw ail gynhyrchiad Ffilm Cymru, yn dilyn llwyddiant *O.M.* y llynedd. Dyfan Roberts, Tudur Roberts a Betsan Llwyd sy'n chwarae'r prif gymeriadau yn y ffilm. Ar y 15fed o Hydref aeth tua 30 o ddisgyblion y 6ed dosbarth i weld y ffilm, sydd yn addasiad o nofel Caradog Prichard, i Theatr Gwynedd ym Mangor. Daeth disgyblion o ysgolion y cylch ynghyd i weld y ffilm yn y prynhawn, gan ei bod yn nofel osod Lefel A.

Nofel hunangofiannol Caradog Prichard yw sail y ffilm ac mae'r thema o wallgofrwydd yn chwarae rhan amlwg ynddi. Mae'n arwyddocaol hefyd fod atgofion Caradog Prichard i gyd yn digwydd ar 'Noson Ola Leuad', a chawn yr argraff fod y lleuad llawn yn symbol o wallgofrwydd.



Llion Roberts yn cael hyfforddiant yn garej Knockin, Deiniolen.

Egyr y ffilm gyda'r 'dyn' (a bortreadir gan Dyfan Roberts) yn paratoi ei hun i ymweld â'i ardal enedigol am y tro olaf cyn ei farwolaeth. Darlunir y gymdeithas wallgof oedd yn arfer bodoli yn y pentref pan oedd yn blentyn ac mae'n amlwg fod y gymdeithas yma wedi effeithio'n drwm arno.

Tuedda'r ffilm i neidio o'r presennol i'r gorfennol a chawn hanes bywyd 'y dyn' pan yn fachgen a'r digwyddiadau sydd wedi effeithio cymaint ar ei fywyd. Mae'r 'dyn' fel petai yn difary digwyddiadau'r gorfennol ac y mae'n tristau

oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yn y gymdeithas ac yn enwedig yr hyn ddigwyddodd i'w fam.

Ffilmwyd o amgylch ardal enedigol Caradog Prichard, sef ym Methesda ac ardal Eryri. Bydd y ffilm yn ymddangos ar y teledu yn ystod y Nadolig ac fel pob addasiad nofel arall mae'r ffilm yn haws i'w deall os ydych wedi darllen y llyfr, ond er hynny mae'n werth ei gwyllo os ydych wedi darllen y nofel ai peidio.

Llinos, Anna, Emyll
Dosbarth 6

CEIR ELIDIR LLANBERIS 870449

Cerbydau preifat i'w llogi
Gwaith Contract
Pell ac Agos
Maes Awyr a Phorthladd

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047

DINORWIG

Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

Yn dilyn tymor y gwyliau fe fu peth cloffi ynglŷn â chael rhifynnau tymor yr Hydref allan i'r cyhoedd. Serch hynny, fe sylwais bod y golygyddion wedi llwyddo i gyfuno dau 'adroddiad' o'm heiddod ac i bob pwrpas ni chollwyd fawr ddim o'r nodiadau a baratoais. Mae'n wyrthiol pa mor ddestlus y llwyddwyd i drechu'r anawsterau. Fe ddichon y bu colled ariannol.

'Rwy'n gobeithio nad oes gormod o 'liw' newad y Bedyddwyr yn y nodiadau hyn gan mai capel Sardis yn aml sydd yn gefndir i'm sylwadau. Ar grwydr y buom o Sardis yr wythnosau diwethaf. Yn achlysurol fe ymunwyd a chynulleidfaoedd capeli eraill ein cylch. Un o'r capeli yr aethom i ymweld â hwy oedd Bethel, Caellwyngrydd, gyda'r Parchg John Treharne, Caernarfon, yn gwasanaethu yno. Fe gafwyd eglwys i'r cylch, o bob enwad, yn uno yng nghyrdau blynyddol y Feibl Gymdeithas ym Mhenisrwaun. Plant y cylch oedd yn cyflwyno eitemau yn Eglwys y Santes Helen. Bob blwyddyn fe ddigwydd bod plant y gwahanol gapeli yn cyflwyno'r un eitemau. Gresyn na fyddai un yn gyfrifol am raglen i gyfarfod y plant ac yn nodi eitem ar gyfer pob capel ac eglwys. Gyda trefniant fel hyn fe fyddai gan bob capel ac eglwys eitem wahanol i'w chyflwyno a hynny'n creu mwy o ddiddordeb. Y Llywydd yn Eglwys Santes Helen oedd Mrs Nant Roberts, Pontrhythallt. Cymanfa Ganu yng Nghapel Bosra oedd yr ail gyfarfod. Y Parchg John Morris, Llanrug, oedd yn llywyddu ac 'roedd y canu dan arweiniad Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas, ac 'roedd 'Lleisiau'r Gweunydd' yn cyflwyno nifer o eitemau diddorol.

Mae gweithgareddau ardal Dinorwig yn cael eu cynnal yn y Ganolfan. Yno y cafwyd Ysgol Nos yr Oedolion. Cyfaill o Lanrug sy'n ein cynorthwyo eleni ac yn chwilio i mewn i hanes lleol. 'Roedd ganddo ei ddull arbennig ei hun o wneud y cyfan yn ddiddorol ac mae nifer o rai heb fod mor hyddysg yn y Gymraeg yn bwrw i mewn i waith yr ysgol nos. Saeson yw rhai ohonynt yn cydnabod gwerth yr iaith Gymraeg.

Teg yw nodi hefyd bod tymor y Gymdeithas Ddiwylliadol wedi dechrau. Er mai ar noweithiau lau y

cynhelir y Gymdeithas fe fu rhaid cael y noson gyntaf ar nos Fercher. Fe gafwyd cyngerdd safonol iawn gan 'Lleisiau'r Rhyd' gyda Miss Betty Owen, Pwllheli. I amryw yn y Gymdeithas fe adnabyddig y llywydd fel Betty Groeslon Uchaf, ac yn cario argofion melys iawn o'r cyfnod hwnnw. 'Roedd fy nhad yn gyfeillgar iawn a theulu Groeslon Isaf a'r Groeslon Uchaf, ac 'rwyf innau'n cofio yr amser pan oeddem yn cario gwair hyd yn oed ar y llechweddau hyn. Bellach mae'r cyfan wedi troi'n dir digon gwyllt, a defaid yn pori lle bu gwaretheg ar un adeg. Dyma'r adeg pryd yr oedd hi'n bleser cael pwys o fenyn ffres a'r corddwr mewn bri. Do'n sicr fe fu tro ar fyd.

Marwolaeth

Mrs Katie Griffith, Arwelfa: Bu farw yn annisgwyl iawn, gan adael bwlch mawr ar ei hôl yn y capel a'r ardal. Roedd yn aelod ffyddlon iawn yng Nghapel M.C. Dinorwig a chymerai ran amlwg ym mhob agwedd ar fywyd yr eglwys. Cefnogai y Gymdeithas Lenyddol a'r Gymdeithas Ddiwylliannol, ac unrhyw weithgaredd arall a gymerai le yn yr ardal.

Roedd Mrs Griffith o gymeriad cadarn, yn caru'r pethau gorau ac yn gymeradwy iawn gan bawb o'i chydabod. Gellir barnu ei chymeriad trwy ei hymwneud a'i theulu fu mor ffyddlon ac a ddangosodd gymaint o barch iddi. Heddych i'w llwch.

Eglwys St. Mair

Gŵyl Ddiolchgarwch: Ein braint bob amser yw cael diolch ac fe gafwyd cyfle i wneud hynny mewn gwasanaeth Gŵyl Diolchgarwch a gynhaliwyd yn Eglwys St. Mair ar brynhawn Sul, Hydref 20. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchg Tegid Roberts, a phregethwyd gan y Parchg Canon William Jones, Llanystrumdy. Ein diolch i'r ddau, ac i bawb a gyfranodd flodau, llysiau a ffrwythau o bob math, ac i'r merched am addurno'r Eglwys mor hardd. Diolch hefyd i Mrs Gwen Griffith, Fron, Deiniolen, am ei gwaith wrth yr organ.

Gwellhâd buan: Fel eglwys dymunir gwellhâd buan i Mrs M. Fleming, 1 Maes Eilian, a fu mor anffodus a chael codwm yn ddiweddar. Hefyd yr un yw ein dymuniad am adferiad buan i Mr R. L. Williams, 3 Maes Eilian, sydd heb fod yn dda ei iechyd

yn ddiweddar.

Cymdeithas y Beiblau: Diolch i bawb am eu cefnogaeth i'r achos teilwng hwn. Nid yw yr holl arian wedi dod i law eto ond mae'n debyg y bydd y cyfraniadau yr un mor anrhydeddus eto eleni.

Eisteddfod Bantref: Ydy, mae'r Testunau wedi eu cyhoeddi ac os nad ydych wedi cael eich copi yna cysylltwch â'r trefnydd, Glyn Tomos. Fel arfer mae'r pwyslais wedi bod ar geisio sicrhau Testunau sydd at ddant pawb ac fe ddylai'r gwahanol gystadlaethau apelio at nifer ohonoch. Felly, cofiwch fwrw ati i gystadlu a phwy a wŷr efallai mai eich ymgais chwi aiff a hi eleni. Hwyl iach ydi'r cyfan. Felly rhewch gynnig arni. Wrth sôn am y Testunau hoffai'r trefnydd ddiolch i Olwen/Hannah Roberts ac Emyr Gruffydd am bob cymorth wrth feddwl a phenderfynu ar y gwahanol gystadlaethau ac i Rhianydd Gruffydd am ofalu am y gwaith teipio.

Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos **Fercher, Rhagfyr 4**, o 6.30 ymlaen, a chan mai hwn fydd y bumed flwyddyn ers sefydlu'r Eisteddfod yn 1987, y gobaith yw denu yn ôl yr union feirniaid a ddaeth i'r Eisteddfod gyntaf honno. Carreg filltir bwysig felly yn hanes yr Eisteddfod. Gwelwn chi yno.

Cyngor Cymuned: Mae'n dda gallu adrodd bod cyfyngiad cyflymdra o 30 m.y.a. trwy bentref Dinorwig a Fachwen bellach wedi dod i rym.

Mae'r cyfyngiad ar hyd y prif stryd yn Neiniolen, heibio Eglwys Crist, Llandinorwig, i fyny Gallt y Foel ac i'r Allt Ddu, a hefyd i lawr Fachwen.

Newydd da arall y bod mainc newydd wedi ei lleoli dau gan llath o safle y Swyddfa Bost gynt. Bu alwers tro byd am le i eistedd ar y ffordd i'r Allt Ddu. Hefyd yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r Cynghorydd Glyn Tomos wedi bod yn gohebu ag Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ynglŷn â gwella gyflwr waliau ar hyd y ffordd trwy'r pentref. Maent mewn cyflwr truenus ar hyn o bryd a gobeithir gweld gweithredu buan ar y mater hwn.

EISTEDDFOD BANTREF DINORWIG

Nos Fercher,
Rhagfyr 4
o 6.30 ymlaen yn
y Ganolfan Leol
*Dewch i ymuno
yn yr hwyl*

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. Ffôn: 870580



Priodas: Dydd Sadwrn, Medi 28, yn Swyddfa Gofrestru, Caernarfon, priodwyd Delyth Nia Roberts ag Iwan Jones, 5 Minffordd Brynrefail.

Y gwas oedd Mr Gethin Jones a'r gwas bach oedd Llion Bryn; y morynion oedd Mrs Joanne Jones a Marian Lloyd Jones.

Cafwyd y neithior a'r disgo nos yng Ngwesty Gwynedd, Llanberis. Dymuna Delyth ac Iwan ddiolch am y llu anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd.

Eglwys M.C. Brynrefail: Cyfarfu Cymdeithas Chwiriwyd yr Eglwys nos lau, Hydref 3. Llywyddwyd y cyfarfod a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Jennie A. Roberts, Glandwr. Hwn oedd cyfarfod olaf y tymor am eleni. Talwyd diolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a threfnwyd yr oll o'r rhaglen ar gyfer y tymor yn 1992 a

fydd yn cychwyn ar Ebrill 2il. Etholwyd y swyddogion canlynol i weithredu yn y tymor newydd. Llywydd: Mrs J. A. Roberts; Ysgrifennydd: Mrs Jennie Hughes; Trysorydd: Mrs Verna Jones. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Ifanwy Jones, Min-y-Nant. Trefnwyd y lluniaeth gan Mrs Pat Jones a Mrs Eirlys Williams.

Roedd Hydref y 6ed yn Sul cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau yn Nosbarth Deiniolen a'r cyfarfodydd eleni yn cael eu cynnal ym Mhenisrwaun. Cymerodd y canlynol o blant Ysgol Sul Brynrefail ran yng nghyfarfod y prynhawn yn Eglwys y Santes Helen: Rhian, Bethan a Ruth Owen, Amy Lambert, Iestyn ac Ellen Williams, Rhian a Dylan Davies a Danna Jones. Gwnaed casgliad yn y pentref dan ofal Mrs J. A. Roberts a Miss A. M. Williams tuag at y Gymdeithas. Trosglwyddwyd £45 i drysorydd Cymdeithas y Beiblau Cangen Deiniolen.

Nos Sul, Hydref 20fed cafwyd oedfa arbennig o ddiolch dan arweiniad Mrs J. A. Roberts, Mr R. Wyn Evans a'r Gweinidog, y Parch John Morris. Llywyddwyd y cyfarfod gan Miss L. P. Roberts.

Gwaeledd: Anfonwn ein cofion at Miss B. E. Owen, 2 Tai Orwig sydd heb fod yn dda ei hiechyd yn ddiweddar ac wedi treulio cyfnod yn Ysbyty Gwynedd a dymunwn yn dda iddi yn y llawdriniaeth sy'n ei hwynebu yn y dyfodol agos.

Croeso: Estynnwn groeso cynnes i'n plith i ddau deulu sydd wedi symud i fyw i ddau o annedd-dai newydd yn y pentref — Mr a Mrs Geraint George a'u merch fach Rhian i Sŵn yr Engan; a Mr a Mrs Wil Williams, i Carreg Siân, Ystâd Erw Nant.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

DAN FLEW EIN LLYGAID

 hefo'r LLYGAD FACH GRAFF

Yr Hunan Bwysigyn

'Dydy hwn, coeliwch neu beidio, yn poeni 'run gronyn bychan amdanoch chi a minnau gan gymaint yw ei flys a'i chwant i fod yn rhywun gwell na phawb arall. Y mae o i'w gael yn ein plith — y pwysigyn ych-a-fi sy' wedi cael dyrchafiad mewn swydd, er waethaf yr holl lwch llif yn ei ben, a hynny oherwydd ei fod yn gwybod sut i grafu tin mochyn tew. Efo sy' â gwên deg bob amser ar ei wyneb. Dydy'r ffaith mai Llyn Brain yw'r enw iawn ar Seiont Manor; nac mai dim ond un copi drwy Wynedd benbaladr sy' 'na o *Daran* (llyfr un o'r fro) yn llyfrgelloedd y Sir yn ei boeni o gwgl. Mae o'n mynychu pob cyfarfod er mwyn cael ei weld. Hwn sy'n moli cynghorwyr er mwyn cael y fraint o gyflwyno cyn lleied o wybodaeth ag y medr ar draul tynnu gwybodaeth o eraill. Sionyn? Ie'n bendifaddau. Hwn yw'r pwysigyn a fodola ym mro *Eco'r Wyddfa* druan.

I brofi ei fod ar dir y byw âf â chwi gam ymhellach. Mae'n bawn gwlyb odiaeth ac yntau'r pwysigyn wedi dod i ymweld â'i hen le gweithio yn y ffatri gneud botymau. Efo oedd y cyn-berchennog ydych chi'n dallt; un a fynnodd gadw dan draed y gweithwyr a fynnai gyfiawnder ac a fynnai fod yn weriol a chynnal y Gymraeg. Doedd ryfedd yn y byd mai dim ond ei wraig ffroen uchel, a'i gynffonwyr, gan gynnwys byji clepgar y ffatri, a aeth i'w barti ymddeol ddechrau'r mis hwn. Wyneb mawr pinc sy' ganddo — dyna ganlyniad llyfu a gweneithio, a mathru ei gyd-weithwyr gyda'r blynyddoedd. Fe gafodd swyddi anrhydeddus gyda hyn ac arall, ond yno 'r oedd o'n rhinwedd ei swydd fel crafwr o bwysigyn, yn gwneud dim arall ond gwenu, a chynnig pethau twp mewn cyfarfodydd. Rhoddwyd iddo swydd blaenor — swydd anrhydeddus yn ôl rhai — ond da y gwyddai ei gyd-weithwyr yn y ffatri gneud botymau am ei ddulliau dan-din, ond mi gafodd swydd, da chi'n dallt.

Mae o'n râl pen mawr, a gweddill ei gorff fel petae wedi dioddef o orfod byw'n ffalsiffig hefo pobl; pob deryn o sidan gorau y siop ddillad enfawr honno yn Llundan, Lloegr, i lawr i'w dei streip Maisonaidd, fel petaent heb fod yn perthyn iddo, a rhyw olwg wedi'i minsminchio arnynt bob gafael. Ac mae o'n gwybod sut i ysgwyd llaw, gan droi ei fys mewn dull cyfriniol slei bach, na wyl ond y frawdoliaeth arwyddocâd plygedig y law. Y pwddin pric iddo fo hefyd, y swancod, fo a'i jadan o wraig, sef Nel ael-dena' Gwynne sy' hefo fo ymhobman er mwyn cynnal ei hen ffrâm Brydeinig â'i chwerthiniaid heintus o dywyllodrus. Dolurwaith? Stwmp ar stumog? Wedi 'u creu er mwyn codi cyfog ar y tyneraf o blant dynion?

Un breintiedig ydy'r hunan-bwysigyn welch chi. A'r pnawn gwlyb hwnnw dangosodd yn ôl ei arfer ei fod yn caru Prydeindod, yn caru pobl fawr gyfoethog-dlawd, a'i fod yn dal ati i feddwl cryn tipyn ohono'i hunan, a'r ffaith ei fod yn byw mewn tŷ crandiac na phawb arall. Ac yng Nghymru mae o'n byw. Anwybyddodd gri ei staff gweithgar am bob cymorth. A phan eid ati i'w brocio am wybodaeth ac ateb teg, ceid ef yn traethu ymlaen — yn malu ciachu'n wir — am hyn ac arall gan

anwybyddu yr hyn a ofynnwyd. Doedd o ddim gwell na politishian Seisnig. Ond y pnawn gwlyb hwnnw, daeth y tas wair o wyneb, i'r ffatri i fusnes fel arall, a rhai yn ddigon gwirion bôst i ddeud eu boliau wrtho. A phan welodd ferch landeg, a'i mesuriadau'n 32, 22, 32, eto fy mhobl i, a oedd newydd ddechrau gweithio yno, llygadodd hi, a dyma hi'n deud wrtho mai merch Idris Stocar oedd hi, un o hogia'r werin. Gwnaeth anferth o geg gam a rhuthro at y drws, a chyfarfod yno ymwelydd, sef un o'r Brits — gwraig dwmfatog, â'i phais yn llusgo o'r bron ar hyd y llawr carpedog. A dyma fo'n gafael yn ei llaw ac yn cyhoeddi fel hyn: 'Congratilashions, my diar'. A oedd yr acen Gymreig heb fod yn yr amlwg ganddo. Y Brit bach jocalluog. Y ffalsiffig o foi. Y Shoi pricamoni dau wynebog. Ond mi roedd un o'r hogia wedi gadael tun paent tu ôl iddo. Yn hollol ddiafwrbydd iddo'i hunan, dyma fo'n camu yn ei ôl. Damwain ydy damwain. Fe dorrodd asgwrn isaf ei gefn, a chleisio ei din yn o arw a'i dolcio. Rhuthrwyd ef i Ysbyty Gwynedd, neu rhywle, ac er ei fod am flynyddoedd wedi cael cyflog Arglwydd, ac wedi byw'n fras, yr un oedd ei boen â phoen un o'r werinos. Bu'n rhaid iddo orwadd mewn gwely, wedi'i blastro'n ddeheuig dros ben. Yr unig wahaniaeth, mynodd y gwalch drwg gael 'stafell breifat iddo'i hunan — rhag gorfod dioddef arogl chwys ac anadleuon cleifion Cymreig o'i gwmpas. Snob? Brit? Ie. Doedd y sêd fawr yn y capel heb ganfod ei golly chwaith. Yn waeth na dim byd arall yn ei feddwl ef, bu'n rhaid iddo ddioddef — er protestio'n affwysol (ond doedd neb yn ei ddallt) — y Gymraeg brwdfrydig, hen iaith ein cyn-dadau yn llifo'n gyhyrog a rhywiog oddi ar dafod gweinyddes, sef pwtan ddel o'r enw Siân o gylch Dinorwig, a oedd yn gofalu amdano yn yr ysbyty.

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym Mwyty'r Pysgotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM ar lan Llyn Cwellyn. Ceginio Prydeinig, yn gynnil o wahanol. Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd. Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Gwellhâd: Dymunwn wellhâd llwyr a buan i Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym, ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. **Llongyfarchiadau** i Alison, Fron Gader, ac Andrew, 148 Woodshore Road, De Carolina, America, ar eu dyweddiad.

Diolch: Dymuna Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym, ddiolch i'w pherthnasau, cymdogion a'i chyfeillion am bob caredigrwydd a'r llu cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch i bawb.

Clwb Pobl y Cwm: Gyda Mr R. H. Parry yn y gadair, yn absenoldeb Mr L. Hughes, y llywydd, treuliwyd pnawn difyr iawn yn gwrando ar gasetiau prin o ddewis ein haelod ffyddlon Mrs Jane Parry. Diolchodd amryw o'r aelodau i Mrs Parry am ei chyfraniad difyr iawn. Rhoddwyd y baned a'r raffl gan Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick. Enillydd y raffl oedd Miss E. Hughes.

Ein gŵr gwadd ar 10 Hydref oedd Mr J. H. Hughes, Llanberis, un sydd bob amser mor barod i roi ei wasanaeth, ac y byddwn ninnau yn edrych ymlaen yn eiddgar at ei gwmni. Cafwyd darlith arbennig o dda ganddo ar y diweddar Barchedig J. Puleston Jones, a chyfle i ryfeddu o'r newydd at holl fywyd a gwaith y gŵr nodedig hwnnw a gyflawnodd gymaint yn ystod ei oes, er yn hollol ddall o'r fabandod.

Diolchodd Mrs G. Chick i Mr Hughes am ei ddarlith nodedig. Y gwestwagedd oedd Mrs M. Rowlands a Miss M. Davies. Enillydd y raffl oedd Mrs Mair Williams.

Diolchgarwch Eglwys Sant Gabriel: Cynhaliwyd diolchgarwch ar y 13 a 14 o Hydref. Nos Sul y pregethwr gwadd oedd y Parch J. Ashley Roberts, Rheithor Caergybi. Bore Llun am 10 o'r gloch gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan ein Rheithor, y Parch Peter Prichard. Nos Lun yn Eglwys y Plwyf, Llanrug, bu Gosber a'r pregethwr gwadd oedd y Parch R. L. Newall, Rheithor Niwbwrch. Yr organydd yn y gwasanaethau oedd Mr John Morris, Llanrug, a diolch yn fawr iawn iddo.

Dymuna y Rheithor, y Parch Peter Prichard, ddiolch i bawb am

addurno'r Eglwys ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a'r blodau a dderbyniwyd.

Ffair y Cynhaeaf: Cynhaliwyd Ffair Cynhaeaf yr Eglwys yn yr Ysgol Gymuned, nos Fawrth, 15 Hydref, a'r elw yn mynd tuag at yr Eglwys. Diolch yn arbennig i Miss Meira Williams, Goleufryn, am drefnu y ffair eleni.

Enillwyr y raffl fawr oedd — Basgedi nwyddau: 1, Gwyn Antur Jones, Gelynen House; 2, Mr Hywel Morris, Tan y Graig; 3, Mr Ieuan Rowlands, Tal Afon. Cant o lo: J. Denny, Glasfryn. Hambwrdd a Gwydrau: Shirley Williams, Y Felinheli; Wisgi: Mr Ted Roberts, Bod Gwilym. Dysgl wydr: Mrs Nell Hughes, 4 New Street, Cwm-y-glo. Gwydrau: Mrs Vera Price, Tŷ Capel, Cwm-y-glo. Gwin: Leigh, Bwlch, Cwm-y-glo. Bocs o Dlysau: David Shaw, Bwlch, Cwm-y-glo. Blwch o chwe fforc: Miss Wright, Manchester House. Bisgedi: Val, Pant-y-mynydd.

Enillwyr raffl y stondinau oedd — Cacen wedi ei haddurno: Mrs Myfanwy Evans, Talysarn. Bocs Siocled: Mrs Betty Thompson. Dolia Gwau: Sara Roberts, Tan-y-coed. 1, Bocs o ffrwythau a llysiau: Mr Dafydd H. Rowlands, Bethesda; 2, Bocs o ffrwythau a llysiau: Mr Ted Roberts, Bod Gwilym.

Dymuna'r Parch Peter Prichard ddiolch o galon i bawb am y rhoddion at y raffl ac am bob cefnogaeth i wneud y noson yn un mor llwyddiannus.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri, Morwel (Waunfawr 321)

Y Capel: Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel Ceunant brynhawn Sul, Hydref 12, am 2 o'r gloch dan arweiniad y Parch John Morris. Cymerwyd rhan gan Dylan Thomas, Ffion Williams a Nicola Jones. Trefnwyd y gwasanaeth gan Mrs Eirlys Ellis.

Llongyfarchiadau i Gwenno a Keith Doyle ar enedigaeth mab, Gareth, ar Hydref 17. Llongyfarchiadau hefyd i Ifan a Helen Parri ar ddod yn daid ac yn nain am y tro cyntaf.

CYMDEITHAS WYDDONOL GWYNEDD



Nos Fawrth, Tachwedd 5, cynhelir darlith gan Mr A. Williams, Dŵr Cymru, 'Heb Ddŵr, Heb Ddim' — yn narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol, Ffordd Deiniol, Bangor, am 7.30 p.m.

Cynhelir pob cyfarfod o'r Gymdeithas ar nos Fawrth cyntaf y mis. Ceir cyfle i ymaelodi yn unrhyw un o'r cyfarfodydd.

DRAENOG

Da deall fod y 'Saint Michael's Church-in-the-Heather' branch of the Daughters of the Dawn yn fodlon derbyn deunydd Saesneg yn eu cyfarfodydd misol. Ond dyna fo, does dim posibil' cael deunydd Cymraeg ar bwnc fel 'Atal Troseddu' yn nac oes?

MEDAL YR IFANC — LLANRUG

Nia Griffith oedd enillydd Medal Lenyddol yr Ifanc yn Eisteddfod Llanrug. Ysgfrifennodd stori ar y testun 'Cysgod', ac fe'i canmolwyd gan y beirniad, Mr Alwyn Fleming, cyn-bennaeth Adran Gymraeg Ysgol Brynrefail.

CYSGOD

'Gafael yn heddiw, paid meddwl am 'fory, falla wnaiff fory ddim dod, felly mae pethau i fod,' byrlymiai'r gân o'r radio yng nghar Eurgain. Cân hen iawn wedi gweld ei dyddiau gwell. Erbyn hyn rhyw gân 'blanced' oedd hi'n cael ei galw. Fashiwn wedi newid a cherddoriaeth i'w ganlyn. Cerddoriaeth dawns oedd y peth mawr ffasiynol i wrando arno a dim byd arall. Daeth y gân fel peltan galed ar draws wyneb Eurgain. Hon oedd y gân blethodd hi a Hywel yn un. Eu cân hwy oedd hon, am flynyddoedd y gân oedd yr unig beth oedd yn cadw'r ddau mewn cysylltiad. Nid cysylltiad yn uniongyrchol ond wrth wrando ar hon roedd atgofion yn llifo'n ôl, ond nid yw atgofion yn cynnal rhywun am byth, mewn amser maent yn gwanhau ac yn gwanhau hyd anghof, a dyna oedd wedi digwydd i Eurgain. Pasiodd blynyddoedd heb iddi feddwl dim am y gân na Hywel.

Y diwrnod hwn atgyfododd yr atgofion melys. Rhedodd gwenyw dros gorff Eurgain. Sut oedd hi'n medru meddwl fel hyn, y gorffennol ydoedd, ac roedd hi wedi gwneud adduned na fyddai hi byth yn meddwl amdano eto. Am eiliad roedd hi'n casáu pob cell yn ei chorff.

Wrth i guriadau cân arall ddechrau tasgu o'r radio, symudodd ei meddwl yn ôl at y frwydr oedd o'i blaen. Y frwydr hon oedd yr un fwyaf ynei bywyd, sef perfformio o flaen pwyllgor dawns Cymru — roeddynt angen pedair merch a phedwar bachgen i ddawnsio dros Gymru yn Llundain. Byddai'r rhai llwyddiannus yn gweithio yng Nghaerdydd am ddwy flynedd yna'n mynd i berfformio yn Llundain am flynyddyn. Hon oedd yr her fwyaf i Eurgain. Blwyddyn ar ôl blwyddyn ers y diwrnod y dathlodd ei phedwerydd penblwydd bu'n dawnsio. Ymarfer dair gwaith yr wythnos am o leiaf ddwy awr.

Mwy nag unwaith teimlodd fel rhoi'r ffidil yn y tô. Troi ei throed wrth ddawnsio ar floclau, torri ei braich wrth lithro dros llyn i'w ganllyn wastad deuai poen annioddefol.

'Dwi byth yn mynd i ddawnsio eto,' oedd y geiriau a fflachiai o flaen ei llygaid, ond ddywedodd hi erioed y geiriau hefo'i cheg.

Cafodd Eurgain addysg mewn ysgol gyffredin wladaidd, dim byd arbennig. Pan fo rhywun yn gwneud portread oh'r ni mai posib dweud ei

bod wedi dod o deulu cyffredin, cael addysg gyffredin, a'r profiadau mae pawb yn ei gael yn eu harddegau. Yr unig beth gwahanol o'i chwmpas oedd ei bod hi'n dawnsio bron bob awr o'r dydd. Ond cafodd brofiad anarferol iawn pan yn ddeunaw. Syrthiodd gyda ffrwydriad ar y diwedd, mewn cariad. Cariad oedd hwn a greodd mwy o boen meddwl iddi na dim arall erioed.

Pasiodd Eurgain diroedd o ddefaid a gwartheg ar ei ffordd i lawr i Gaerdydd, dim byd diddorol iawn i'w weld felly gwibiai ei meddwl o un peth i'r llall. Rhedodd drwy ei dawns yn ei meddwl gant a mil o weithiau hyd at berffeithrwydd ond bob hyn a hyn, deuai ambell wrthrych ar y ffordd ag atgofion yn ôl. Y noson hudol oedd hi wedi ei gael gyda Ioan y noson cynt. Ioan oedd y person arbennig yn ei bywyd y dyddiau hyn.

Am flynyddoedd bu Eurgain yn ddi-gariad a'r rheswm am hyn oedd ei bod hid wedi llwyddo i gael pawb o Fynwy i Fôn yn sôn amdani. Dyna oedd hi'n ei gredu ond i bawb arall nid oedd hanes ei bywyd hi'n bwysig.

Cwrs dau fis yn Aberystwyth yn rhoi cyfle i ddawnsiwr ifanc brwdfrydig gael hyfforddiant gan Hywel Wyn y dawnsiwr o Gymru oedd wedi creu enw mawr yn Llundain pan ddawnsiodd mewn perfformiad bythgofiadwy gyda'r cwmni Bale Cenedlaethol. Elizabeth Mary oedd ei wraig — hithau hefyd yn adnabyddus fel dawnsiwr o fri.

Nid oedd Eurgain yn mynd i adael

cyfle fel mynd ar y cwrs arbennig hwnnw ei phasio felly aeth yno. Oherwydd ei dawn arbennig disgleiriai ymysg ei chyd ddawnsiwr ac, wrth gwrs, ymhen dim daeth Hywel i sylwi anri. Dilynodd un peth ar ôl y llall. Eurgain yn disgleirio, Hywel yn cymryd mwy o sylw ohoni. Oria'u yn trafod dawns gydag o ac erbyn diwedd y ddau fis, roeddynt wedi dod yn agos iawn. Yn trafod pethau y tu hwnt i ddawns ond trodd chwarae yn chwerau. Y noson olaf cafwyd parti y dawnsiwr oedd ar y cwrs a Hywel. Fel pob parti mae pobl yn mynd dros ben llestri. Pawb yn mwynhau eu hunain a neb yn sylwi fod Eurgain a Hywel wedi sleifio allan yn llechwraidd i fyny i ystafell wely Hywel. Ystafell uwchben neuadd y parti felly a hedfanai'r gerddoriaeth i fyny drwy'r llawr i ystafell Hywel, 'Gafael yn heddiw, paid meddwl am 'fory, falla wnaiff foy ddim dod, felly mae pethau i fod,' dyna oedd y gân oedd yn ei chael y funud hon, dywedodd Hywel mewn llais melfed wrth Eurgain.

'Dyna sydd raid i ni ei wneud,' cusanodd hi'n dyner ac ymhen dim roedd eu gwefusau wedi plethu'n un a'u cyrff yn cyd symud, fel petae wedi eu creu o un cnawd, i'r gerddoriaeth. Ond, daeth ton o ddŵr oer dros y noson a'u bywyd pan gerddodd Elisabeth Mary, fel llong hwyliau, i mewn heb fwriadu gwneud dim drwg, dim ond dod i weld Hywel fel unrhyw wraig gyffredin. Wrth gwrs bu llawer o weiddi a rhegi a dywedodd eiriau cas iawn ond un frawddeg a arhosodd yn nghefn meddwl Eurain oedd:

'Mi dwi'n mynd i wneud yn siŵr fy mod i'n cael dial arnoch.'

Mwy na thebyg ni fyddai Eurgain

wedi meddwl am y frawddeg hon oni bai i'r gân ysgwyd y gwe pry cop yn ei meddwl.

'Pam dwi'n meddwl am hyn heddiw a finna hefo perfformiad pwysig o'm blaen.' Ceisiodd symud ei meddwl, o'r ffaith ei bod hi wedi cael ei henw yn y cylchgrawn Hel Straeon a bod llawer o bobl ddylanwadol wedi ei ddarllen.

Y penawd oedd: 'Merch ddeunaw oed yn rhwygo priodas Hywel Wyn ac Elisabeth Mary'. Bellach roedd Hywel wedi ail briodi ond yn ôl pob sôn dal yn ddi-briod oedd Elisabeth Mary o hyd. Casineb at ddynion wedi ei blannu ynddi.

Un, dau, tri cic, troi i'r chwith . . . rhedai Eurgain drwy ei stepiau am y tro olaf cyn mynd i mewn. Ar ôl taith hir roedd hi wedi cyrraedd Caerdydd ac o'r diwedd yn barod i wynebu sialens mwyaf ei bywyd . . .

'Eurgain Angharad nesaf. Mi gewch chi fynd i mewn.'

'Diolch.'

Leotard, esgidiau, gwallt — popeth yn barod ganddi. Agorodd Eurgain ddrws y stiwdio ddawns yn barod i wynebu'r pwyllgor dawns. Rhoddodd y drws rhyw wich annifyr, yn cyhoeddi i bawb fod Eurgain wedi cyrraedd, ond, fel 'roedd hi'n agor y drws gwibiodd y frawddeg, 'Mi dwi'n mynd i wneud yn siŵr fy mod i'n cael dial arnoch,' a syrthiodd llygaid Eurgain ar yr arwydd oedd o flaen Cadeirydd y pwyllgor: ELISABETH MARY.

Cyfarfu llygaid y ddwy ac roedd y tân yn llygaid Elisabeth Mary yn dweud y cwbl.

Pwy fyddai'n meddwl y byddai cysgod ddod yn medru chwalu heddiw . . .

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

- ★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi
- ★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delwrydol i barau priod)
- ★Gwres canolog llawn
- ★Sustem ddiogelu rhag tân
- ★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw
- ★Sustem alw nyrs
- ★Yn Cwrdd â phob angen personol
- ★Lle bwyta mawr
- ★Aros cyfnod hir/byr
- ★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol
- ★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.
- ★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg
- ★Coginio cartefol
- ★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg
- ★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

OSMOND SHAW DEINIOLEN


GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Emyr Jones

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI
Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb 100 Plaid Cymru: Mis Medi — £10: Mr Philip Jones, 1 Tŷ'r Faenol; £8.50: Miss Olwen Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig. Mis Hydref — £10: Miss Margaret Jane Jones, Foel Dinorwig; £8.50: Mr Charles Jones, 14 Pentre Helen.

Ysgol Feithrin: Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol yr ysgol feithrin ar 25 medi, gyda Mr Gwyn Parri yn cadeirio. Amlinellwyd beth oedd y gweithgareddau a gynhaliwyd yn ystod 1990-91.

Ail-etholwyd aelodau'r pwyllgor am flwyddyn arall, ynghyd â'r un swyddogion. Croesawyd tair aelod newydd i'r pwyllgor — Linda Lewis, Siân Hughes a Sharon James.

Mae'r gwaith o adnewyddu'r ysgol yn parhau. Bydd rhaid gosod dau wresogydd newydd yn y dyfodol agos.

Croesewir aelodau'r cyhoedd i noson o Ddân Gwylt yn yr ysgol, nos Fawrth, 5 Tachwedd am 6.30 o'r gloch. Cynhelir parti Nadolig y plant ar 18 Rhagfyr.

Eglwys Crist, Llandinorwig

Diolchgarwch: Cynhaliwyd yr ŵyl flynyddol o ddiolchgarwch am y cynhaeaf eleni ar ddydd Sul, 20 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parch Tegid Roberts yn y bore ac yn y prynhawn cafwyd gwasanaeth y Gosber gyda phregeth gan y Parch Ganol William Jones, Deon Gwlad Eifionydd. Cafwyd eitemau gan blant yr Ysgol Sul a chynulleidfia deilwng iawn. Diolch i bawb am y rhoddion a dderbyniwyd ac i'r rhai a fu'n addurno'r Eglwys ar gyfer yr ŵyl.

Merched y Wawr: Medi — Croesawyd aelodau newydd i'r gangen yng nghyfarfod cyntaf y tymor. Y wraig wadd oedd yr actores Beryl Hall o Fangor. Cafwyd noson ddiddorol iawn ganddi yn sôn am ei phrofiadau dros y blynyddoedd yn Rwsia a gwrandawyd ar ei ffrind, y bariton Eduard Treskin, yn canu ar dâp yn Rwseg a Chymraeg. Diolchwyd i Ms Hall gan Iona Richards. Enillwyd y raffl gan Miss Moeller.

Hydref — Daeth Mr Bleddyn Williams, Caernarfon, i'r gangen i ddangos sleidiau o'i wyliau yn Seland Newydd a mannau eraill yr ymwelodd â hwy ar y daith. Diolchwyd i Mr Williams gan Mrs Margaret Griffith. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Williams.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r aelodau yn y Ganolfan ar 8 Hydref. Cafwyd noson ddiffr gyda Mr Dafydd Orwig Jones, Bethesda, yn sôn am 'leithoedd Bychan Ewrop'. Diolchwyd iddo gan Mrs Eirlys Williams. Roedd hefyd yn noson Moes a Phryn, yng ngofal Mrs E. Lloyd Jones. Yn gwneud y te roed Mrs Betty W. Davies a Mrs Glenys

Williams. Enillwyd raffl y noson gan Mrs E. Lloyd Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar 4 Tachwedd pryd y disgwylir Mr Ll. Griffiths, Pen-y-groes atom.

Undeb y Mamau: Bydd cangen Deinolen o Undeb y Mamau yn cynnal Noson Goffi yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi, nos Wener, 8 Tachwedd. Bydd y drysau yn agor am 6.30 p.m. Taer erfynnir am nwyddau at y stondinau ac am gefnogaeth i'r achlysur.

Ar y 5ed o Dachwedd bydd Mr Glyn Tomos, Dinorwig, yn dod i gyfarfod y Gangen i roi sgwrs am ei waith fel Gweithiwr Cymdeithasol. **Clwb Elidir:** Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd ar 3 Medi pryd y treuliwyd prynhawn difyr yng nghwmni Mrs Jennie E. Williams yn sôn am hen feddyginiaethau. Rhoddwyd y te gan Mrs Megan P. Morris, Mrs Alwen Jones a Mrs Eirlys Ll. Jones. Enillwyd y raffl, rhoddedig gan Mrs Alwen Jones, gan Miss Jean Moeller. Diolch, y flwyddyn yma eto, i Mrs Emyr Pritchard am ei haelioni i ni fel Clwb. Bu cyfarfod ar 17 Medi, dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Cafwyd prynhawn difyr dan ofal Mrs Megan P. Morris. Cydymdeimlwyd â Mrs Annie M. Morris ar golli ei chwaer-yng-nghyfraith, a dymunwyd gwellhâd buan i Mrs Mair Lewis. Braf oedd cael cwmni Mrs Grace Williams a Mrs Jennie Williams ar ôl eu damweiniau yn ddiweddar. Cafwyd rhodd anrhydeddus gan Mrs Ellen Williams, Bwthyn, tuag at y Clwb. Rhoddwyd y te gan Mrs Jane C. Hughes, Mrs Ellen Williams a Mrs Glenys Williams ac enillwyd y raffl gan Mrs Grace Williams.

Cafwyd cyfarfod o Glwb Elidir ar 15 Hydref dan lywyddiaeth Mrs Eirlys Ll. Jones. Treuliwyd y prynhawn yn chwarae gemau. Gwesteion y te oedd Mrs Laura Williams, Mrs Jane Jones a Mrs H. Jane Thomas. Rhoddwyd y raffl gan Mrs H. J. Thomas ac fe'i enillwyd gan Mrs J. Eirlys Williams. Estynnwyd croeso yn ôl i Mrs Annie M. Morris a Mrs Laura Williams ar ôl bod yn wael am gyfnod.

Diolchiadau:

Dymuna Mari, 6 Ffordd Deiniol, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y llu anrhegionn, arian a'r cardiau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn un-ar-hugain oed ar 10 Hydref. Diolch o galon.

Dymuna Mr Elwyn Robinson, Ysgol Gwaun Gynfi gynt, ddiolch i bawb yno am eu rhodd anrhydeddus iddo ar achlysur ei ymddeoliad cynnar. Diolch hefyd am gyfnod cofiadwy o gydweithrediad hapus iawn.

Dymuna lolo a Sian, Fron, ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau a chyfeillion am y cardiau, rhoddion a galwadau ffôn a dderbyniasant —

Trip y Band a'r cefnogwyr i Lundain

Tawedog iawn yw pawb o hanes y daith Ac eithrio bod y trefniadau yn agos i berffaith Y coetsus yn gyfforddus a phawb yn hwyliog A gwesty Hilton National a'r arlwy yn odidog.

Ymgais y band mawr a'r band bach Braidd yn siomedig wedi'r holl strach Cystadlu ar lwyfan tebyg i Butlins Pwllheli Yn ddim i'w gymharu a llwyfan enwog Wembley.

Ond roedd yn brofiad cofiadwy i'r genod a'r hogia' Cystadlu yn erbyn pencampwyr byd y bandia' Gobeithio i chwi elwa o'ch ymgais tros Glawdd Offa A phenderfynu llwyddo yn well y flwyddyn nesa'.

Wrth bod yr amser yn fyr, ac isio gweld y mannau enwog Rhaid oedd rhuthro tan ddaear, neu mewn taci gwiblog I weld Madam Tausade, Harrods a Buckingham Palace Y delwau mud a byw, siop ddryta'r byd a thŷ crand y Frenhines.

Rhai 'di mwynhau gweld Stadiwm Wembley, Rhif deg, Ben Fawr, y Senedd-dŷ, a Westminster Abbey Eraill 'di mentro i gehena Soho i weld y Bo-bo Fel'na mae hi ynte — pawb at y peth y bo.

Profiad dfflas ddaeth i Sian, Gwen ac Eileen Wrth gychwyn o'r gwesty i weld tŷ y Cwŵn Dwad i lawr yn y liff t a'r drws yn cau agor Gwaeddi am chwarter awr — yn dair carcharor.

Ond diolch am ymateb profiad o blygu glin Daeth rhyw wyrthiol nerth i fysedd Eileen Yn ddiolchgar llwyddodd i agor digon o le iddi'i hun Toedd dim trafferth wedyn i Sian a Gwen ei dilyn.

Prysuero wedyn i gadw'r oed a theulu Berthen Gron A gwibio trwy'r traffig gan ddilyn yr arwyddion Gorfod aros i'r golau newid, a gweld gyferbyn Er mawr ddiffrwch i'r merched, ddyn heb arno gerpyn.

Dyna gofnod byr o hanes y daith Cofiadwy a phleserus, mae hynny yn ffaith A'u heffaith ar ddwy yn freuddwydiol Digon i anghofio nos y pwyllgor ffwtbôl.

H.J.

lolo ar ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed a Sian ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Carai Sian ddiolch yn arbennig i Mr Dafydd Wyn Jones, Rhydfadog, am ei hyfforddi.

Dymuna Liz a Ken Williams, 17 Ffordd Glasgoed, Caernarfon, hefyd Jennie a Fred Owens, Bae Cemaes, ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli Michael, mab ac ŵyr annwyl iawn a oedd ond pymtheg mlwydd oed.

Dymuna Ceinwen Evans, 12 Hafod Olau, ddiolch i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am yr holl roddion a chardiau a dderbyniodd tra roedd yn Ysbyty Gwynedd, Broadgreen, Lerpwl a Bryn Seiont, Caernarfon, yn ddiweddar. Diolch i bawb.



Eilir Wyn Williams, enillydd unawd offerynnol agored yn Eisteddfod Gwaun Gynfi. Cafodd ganmoliaeth uchel dros ben gan y beirniad cerdd, Walter Glyn Davies.

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES
17 BRYN TIRION
PENISARWAUN
Ffôn: LLANBERIS 872421



**ERYRI
ORGANIG**

LLANFAGLAN
Ffôn: C'fon 76905
Rhng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaith ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

CYSTADLEUAETH MIS TACHWEDD

Daeth nifer o luniau lliwgar iawn i'r 'Gornel' y mis yma, a gwaith annodd iawn oedd dewis enillwyr! Dyma nhw i chi:

ROBIN GLYN, Afon Goch, Deiniolen (6)

CARYS ANN JONES, Glan y Don, Cwm-y-Glo (6)

RHIAN WILLIAMS, Arfon House, Stryd Ganol, Bethel (8)

LYNNE KIMBERLY JONES, 21 Bryntirion, Penisarwaun (9)

Enw.....

Cyfeiriad.....


.....

.....

..... Oed.....

LLIWICH Y LLUN GAN DDEFNYDDIO'R LLIWIAU PRIODOL

0. Glas; 1. Coch; 2. Gwyrdd Tywyll; 3. Gwyn; 4. Pinc;
5. Du; 6. Melyn; 7. Brown; 8. Porffor; 9. Gwyrdd Golau.



ECO'R IFANC

Cynhaliwyd Eisteddfod Bentref Llanrug yn ddiweddar. Daeth y plant ynghyd un noson i gystadlu yn y gystadleuaeth lenyddol. Ar y noson honno cafwyd y testunnau. Dyma ychydig o'r cynnyrch buddugol:

Rhyddiaith Safon 1 a 2 — 1, Meri Jên (Sian Green); 2, Hulk Hogan (Elin Dafydd); 3, Sali Sws (Meleri Griffith), Michaelangelo (Hefin Roberts).

GWRACHOD OFNADWY

Roedd hi'n Halawin a roedd y cloc yn taro hanner nos.

Roedd y gwrachod yn dod allan o'r castell i ddwyn plant. Ar ôl dod yn ôl aeth y gwrachod i fyny grisiau mawr, mawr, ac i fewn i 'stafell anferthol. Roedd y stafell yn llawn o blant 'di marw.

Roedd rhai o'r plant wedi cael torri eu pennau i ffwr. Roedd y plant wedi cael eu lladd mewn gwahanol ffyrdd.

Roedd llygod a phryfaid dros y plant. Roedd rhaid i'r gwrachod i fod adre cyn un o'r gloch neu byddai nhw yn troi yn llyffantod a llygod.

Aethant i ddwyn plant am dair noson, ond y bedwerydd noson daethant yn ôl adre am hanner awr wedi dau felly pan oedden nhw adre roedden nhw yn lygod a llyffantod.

Ond bu farw'r gwrachod heb fwyd.

MERI JÊN

Y NOSON DDRYGIIONUS

Roedd hi'n hanner nos, a'r cloc yn taro deuddeg. Roedd pob man yn dawel a thywyll. Yna clywais daran. Crynais i gyd a'r peth nesaf a welais oedd ysgub yn dod drwy ffenestr fy lloft.

Gwelais dafod neidr — mi roeddwn wedi dychryn gymaint methais a symud trwch blewyn. Daeth y neidr a'r wrach drwy fy ffenestr. Sylwais na neidr rhydd oedd hi yn dod i ymosod arna i. Yn sydyn iawn agorais fy llygaid, edrychais ar y cloc — wyth o'r gloch y bore!

Edrychais ar y ffenestr. Roedd twll mawr ynddi.

Ai breuddwyd oedd y cyfan? Dwn i ddim wir!

HULK HOGAN

LLADRON

Roedd hi'n hanner nos, a'r cloc yn taro deuddeg.

Roedd hi wedi tywyllu erbyn hyn.

Roedd Siop Dan Cloc wedi cau. Roedd lladron o gwmpas. Roedd y lladron yn ddrwg iawn.

Aeth y lladron i dorri ffenest y siop a dwyn y prês a rhedeg i ffwrdd. 'Doedd dim pres ar ôl yn y till o gwbl, roedd y lladron wedi dwyn y prês i gyd. Roedd hi'n un o'r gloch yn y bora.

Roedd y police yn chwilio am y lladron. Roedd y lladron wedi mynd yn y bora ond roedd plismyn yn dal i chwilio am y lladron.

MICHAELANGELO

NOS YN Y DREF

Roedd hi'n hanner nos, a'r cloc yn taro deuddeg. Roedd hi wedi tywyllu ac 'roedd lladron o gwmpas yn crwydro rownd y strydoedd. Roedd Siop Dan Cloc wedi cau.

Mae lladron yn bobol ddrwg iawn

yn dwyn pethau pobol eraill ac yn eu cadw nhw iddyn nhw ei hunain, ac yn cipio plant bach oddi wrth eu mamau.

Cyn pen dim 'roedd y lladron wedi torri i mewn i Siop Dan Cloc a dwyn y prês i gyd o'r siop a doedd 'na ddim prês ar ôl yn y siop.

Y noson nesaf — deuddeg o'r gloch roedd y lladron allan eto a mynd i'r Siop Dan Cloc a'r tro yma dwynodd y lladron y diodydd a'r papurau newydd i gyd, a chyn pen dim roedd yr heddlu wedi dod a'u cymryd nhw i'r carchar, a doedd 'na ddim trwbwl o gwbl wedyn tua deuddeg o'r gloch.

SALI SWS

Barddoniaeth Safon 1 a 2 — 1, Tomos y Tanc (Elin Dafydd); 2, John Williams (Christopher Day).

Y DEWIN

Mi es i draw i'r goedwig
A gwelais ddewin dwl
Yn eistedd ar ben coeden
Yn canu andros o ddrwm.
Yna fe wnaeth fferis
A'i bwyta — lond ei fol
Wel dyna ddewin gwirion
Dywedais wrth fy hun
Mae'r dewin yna yn dipyn o ddyn.

TOMOS Y TANC

Y DEWIN

Yn y castell tywyll roedd dewin yn byw,

Ac roedd o'n gwisgo clogyn du, du,
a het pigog gyda sêr bob lliw,
ac roedd ei hud yn gry'

Fe wnaeth swyn troi pobol yn frogau
ond pan ddefnyddiodd ei hud
fe wnaeth gamgymeriadau
a diflanodd y dewin o wyneb y byd.

JOHN WILLIAMS

CORNEL JÔCS

Ha ha Hi hi



'Yda' chi'n well, Mr Jôcs?
gofynnodd Huw i'r Gweinidog
bnawn Sul.

'Pam wyt ti'n gofyn 'ngwas i?'
'Dad oedd yn deud eich bod chi'n
sâl iawn y bora 'ma.'

Gwen: Rydw i wedi newid fy meddwl.

Wil: Da iawn wir. Ydy'r un newydd yn gweithio'n well?

Twm: Dad, dad, mae 'na ddyn wrth y drws hefo mwstas.

Dad: Deud wrtho fo fod gen i un.

Wyt ti wedi byw yn y dref yma ar hyd dy oes?

Naddo, ddim eto!!!

Rhyddiaith Safon 3 a 4 — 1, Pegi (Kelly Roberts); 2, Brain of Britain (Meilir Jones); Siabod (Emma Davies); 3, Popeye (Iona Roberts).

CROESO I BARC PADARN

Mae hwn yn barc sydd yn cael ei redeg gan Gyngor Sir Gwynedd.

Yn gyntaf gellwch fynd i weld chwarel lechi Llanberis a gweld fideo sydd yn sôn sut oedd bywyd ers talwm yn y chwarel, wedyn wrth i chi fynd allan gellwch weld y wageni bach sydd yn llawn o lechi. Os ewch ymlaen gellwch weld y cabanau a mynd i mewn iddo. Ynddo mae cypyrddau nhw eu hunain ac arnynt yn pwyso mae strejar. Mae esgidiau hoelion mawr a chotiau y chwarelwyr hefyd mae byrddau ac arnynt mae ychydig o gwpanau. Gellwch fynd i'r gweithdy a gweld yr olwynion yn troi. Hefyd mae ychydig o arwyddion. Sylwch arnynt. Gellwch fynd ymlaen i ystafell arall (yr un adeilad) gellwch weld un neu ddau o ddynion wrthi'n ddiwyd yn hollti a naddu'r llechi a gellwch wedi ar y wal wedi cael ei osod yn ofalus tamaid o bren ac arno maint y llechi ers talwm a'u lliwiau. Yna gellwch fynd i fyny grisiau llydan ac i fyny grisiau cul iawn iawn. Ar ôl mynd i fyny'r grisiau fe gewch sioc! Fe welwch olwyn ddwr enfawr — ac yn mynd o gwmpas yn araf bach yr olwyn enfawr yma sydd yn cynhyrchu'r olwynion bach a welsoch yn gynharach. Gellwch fynd o gwmpas yr olwyn achos mae bariau wedi eu rhoi o amgylch yr olwyn ddwr. Yna ar ôl cymryd gofal wrth fynd lawr y grisiau cul gellwch fynd allan o'r adeilad a mynd i weld y trê. Y tu ôl i'r trê mae cwch hen hen a ffeindiwyd tua 17 mlynedd yn ôl yn llyn Llanberis ac roedd hi wedi bod yno ers tua 200 o flynyddoedd yn ôl ac arni roedd 700 o lechi. Gellwch fynd i fyny i ysbyty'r chwarel i gael cinio, sef picnic bach, ac wrth edrych i lawr gellwch weld awyrgylch Llanberis.

Gellwch fynd i mewn i ysbyty'r chwarel. Os ewch i'r ystafell gyntaf ar y chwith fe fuasech yn dod at ystafell y nyrs. Yn ystafell y nyrs mae desg ac ar y ddesg mae llyfr llofnodi a phensel fach. Hefyd mae gwisg nyrs wedi cael ei rhoi yn dwt a

thaclus ar damaid o bren. Mae cwpwrdd yno hefyd ac mae hwnnw'n llawn o hen foddion ac mae yna ddoriau oedd yn arfer bod yn llawn o ffisig (mae'n wag rwan). Wedyn gellwch fynd ymlaen i'r ystafell lawdriniaeth. Yn yr ystafell llawdriniaeth mae dau wely — un gwely pren lle roeddent yn cael pigiad i fynd i gysgu. Wedyn mae 'na wely arall lle roeddynt yn torri eu coesau i ffwrdd a phethau fel yna. Ar y wal mae hen faglau a sblint. Sblint ydy y peth sydd yn mynd am goes rhywun pan roeddent wedi frifo yn y chwarel. Rwan, pan ewch ar hyd y coridor fe welwch strejar siâp dyn ar y wal a mân bethau eraill. Fe welwch y ward ac ynddi mae tri o welyau, ac y mae comôd ynddo hefyd. Yn ymyl ysbyty'r chwarel mae Marwdy — mae dau wely concrid wedi cael eu hadeiladu. Yna gellwch gerdded i lawr y llwybr heibio'r cwt powdwr a glanio ar yr Inclein. Fe ellwch ddringo'r Inclein ond cymerwch ofal bendith tad i chi, mae'n beryglus. Wedyn gellwch ymlacio am ryw 40 munud wrth fynd ar y trê bach i Penllyn, ac wrth weld y llyn fe fyddwch yn teimlo fel neidio iddo. Yna ar ôl cyrraedd y lle dechreuasom cewch fynd i'r siop i brynu anrheg bychan i gofio eich bod chi wedi bod ym Mharc Padarn.

Os ydy hi'n ddiwrnod poeth ac unlle i fynd — rydych yn gwybod lle i fynd — PARC PADARN.

PEGI

Barddoniaeth Safon 3 a 4 — 1, Rwdlan (Michelle Roberts); 2, Pegi (Kelly Roberts); 3, Popeye (Iona Williams).

Y CHWAREL

Mewn sgidiau hoelion mawr
Yr aethant ar eu taith,
I weithio'n y chwarel
Bob dydd am hanner 'di saith.

Mewn perygl byddent
Yn gweithio'r ochor serth,
Yng nghanol llwch y llechen
Am gyflog bach di-werth.

Ar ôl diwrnod prysur
Mor braf fydd ymadael,
A chael edrych ymlaen
Am eu Swper Chwarel.

RWDLAN

Y CHWAREL

Hollti a naddu'r llechi
Dyna beth oedd gwaith rhai
Yna rhoi gwastraff y llechi
Gyda'i gilydd i wneud to i dai.

Rhai yn mynd ar y wageni
Fel pwllis bach,
Un i fyny, un i lawr,
A'r gwastraff i gyd i'r sach.

Stopio gweithio am hanner awr wedi pump

Rhai yn mynd adref
Neu rai at eu ffrind.

PEGI

Y CHWAREL

Gweithio, gweithio, gweithio
Gweithio drwy y dydd,
Hollti a naddu,
Hollti a naddu,
Gweithio'n galed drwy'r dydd

Chwarelwyr yn y Gilfach Ddu
Yn gweithio drwy y dydd,
Gyda llechi gyda erfyniau
Yn gwneud y llechi'n syth.

POPEYE

Ha ha Hi hi



Trosedd Harri

Y mae ci ym mhob oes
Yn reddfod yn gorfod codi 'I goes
Ac yn gwbl ddiangyffred
Yn baeddu ym mhob man yn ddarbed
Sylwer mor gymen yw pentref Deiniolen.

Gwelsom ar y teledu
Rhai cwn yn trio canu
Un arall yn cynnig cyfri
Cwn y sloeau yn gwneud campau
A'r cwn gwarchod yn creu lasau.

Dengys y 'Dyn a'i Gi' gampwaith y ci defaid
Yn cyrchu, didol, a chorlannu'r mamoglaidd
Ci ydi ci, boed o'n gi-gwn neu'n ddear-gi
Yn fwngal, Corgi, neu filgi.

Rhaid iddo gael bwyd neu mi farwith
Byddai hynny i fileodd yn fendith
Gwelsom hysbysebu bwyd parod amheuthun
Cyfalli Pedigri, didrafferth mewn tun.

Ond mi fwyth ci bethau rhyfedd iawn weithia'
Crisps, da-da, clustog neu fanana
Ond daw'r stori orau am gi blysiog
Heb amheuaeth o Rhydfadog.

Daeth blys ar Harri, nid am asgwrn, cwningen na llygod
Coeliwch neu beidio, mi gnoiodd hen set o ddannedd gosod.

Bwystfil ynte Tydfil.

Cynhelir

FFAIR NADOLIG PLAID CYMRU

yng nhwmni Sion Corn
nos Wener, Tachwedd 29 am 7 p.m.
yn Ysgol Gwaun Gynfi
Oedolion 30c Plant 10c

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

Pol Parots ac Adar Eraill

Pan ddois i wynab yr hen fachgan
hwnnw sydd wedi cael braint y
Deryn Mawr, yn y dre y diwrnod o'r
blaen, dyma fo'n gweiddi tros y
stryd.

'Sut wyt ti. Dydw i ddim wedi dy
weld ti ers pobiad neu ddau?'

'Dal i fynd,' medda finna. 'Ar fy
rims.'

'Mae gwedd eitha arnat ti,' medda
fo wedyn.

'O bell,' medda fi. 'Ond mae'r
arwyddion yna i gyd rwan.'

'Be' ti'n feddwl?'

'Dechra colli bwyd am ben fy
ffrynt, ac anghofio cau fy malog.'

'Mi fydd yn ddigon buan i ti fynd
i ddechra poeni pan ei di 'run fath
â fi,' medda fo. 'Anghofio ei agor o.'

Wedyn dyma fo yn mynd i
ddechra disgrifio sut fyd oedd hi

wedi mynd ar hen bobol.

'Wyddost ti be'. Roedd 'na rhyw
hen wraig o'r pentra acw yn disgwyl
moto i fynd i'r dre. Dechra'r

flwyddyn oedd hi, yn y gwynt oer
hwnnw, a beth ddaeth heibio ond

rhyw hen foi mewn moto bach, a
dyma fo'n stopio a gweiddi arni hi.

'Ydach chi'n mynd i'r dre?'

'Ydw,' medda hitha.

'Down i mewn,' medda fo.

Ac o ddau ddrwg dyma hi'n dewis
y lleia lasa hi, achos erbyn hynny

roedd hi wedi cael boliad ar sgrythu
yn y gwynt oer hwnnw. A ffwrdd â
nhw.

Ond mewn rhyw le dinab man ar
y lôn 'na, dyma fo'n stopio — yr hen

foi 'ma, a dyma fo'n gofyn iddi hi
mwy sydyn.

'Ydach chi'n licio bywyd gwyllt?'

medda fo fel'na.

'Be' ydach chi'n feddwl?' medda
hitha, wedi rhyw styrbio erbyn hyn

fel y basa rhywun ei hun hefo dyn
felly.

'Welwch chi'r pol parot 'na ar ben
y poly teligram 'na?' medda fo.

Yn lle?' medda hitha gan edrach
i'r awyr.

'A thra roedd hi'n gwneud hynny,
wyddost ti be' 'naeth y cythral?'

Roedd yn rhaid i mi gyfadda fy
anwybodaeth.

'Trio intyrfirio hefo'i staes hi. A
chafodd hi ddim o'r afael rydd ond

trwy neidio trosodd i'r cae — roedd
hi'n dal yn reit springar yr hen

garpan — a gadael darn o'i staes ar
y weiran bigog. Mi fuo yno am

ddyrnodia hefyd a chara dda ynddi
hi. Mi fethais i â madda i honno

hefyd. Roeddwn i'n ei weld o'n biti
iddi fynd yn wastraff. Mi cymeris i

hi i roi yn fy sanshws i fynd i lan môr.

'Beth bynna, deud oeddwn i.
Roedd hi isio cael at deliffôn erbyn

hyn wyt ti'n gweld, i'w riortio fo, ac
wrth iddi drio dwad trosodd yn ei hôl

i'r lôn bost, mi fachodd wedyn. A
dyna lle roedd hi 'run fath â rhyw

hen ddafad wedi mynd yn sownd
mewn meran. Ac yno basa hi hyd

heddiw am wn i, oni bai i rhyw hen
Sais sydd wedi dwad i fyw i rhyw

dyddyn yn y fan'cw ddwad heibio â'i
gweld hi. Ac mae'n rhaid ei fod o

wedi meddwl ei fod o'n gyfla rhy dda
i'w golli. Dyma fo'n gorffan ei staes

hi a mynd a hi adra o dan ei gesail.'

'Y ddynas felly?'

'Y staes, medda fi wrtha ti. Tria roi
dy sylw i mi nei di, rhag i mi rofod

dwued petha ddwywaith wrthat ti.'

'Sut y buo hi arni hi yn y diwadd?'

'Wel mi ddaeth yn rhydd rhywsut.
Wedyn roedd ganddi hi ddau isio ei

riortio ar y teliffôn, a phan ddaeth
y plisman i dŷ'r Sais 'ma, wyddost

ti be' oedd o wedi neud hefo'r staes?'

'Na wn i.'

'Burglar alarm 'achan. Rhaid i mi
ddeud ei fod o'n glyfar hefo'i ddwylo

fel yna. Ac roedd y plisman yn deud
wrtha i wedyn, dyna i ti beth rhyfedd,

roedd o'n agoriad llygad i mi — dyna
i ti beth mae burglars ei ofn fwya

ddylwn i — ydy lastic staes.'

'Tewch da chi. Ddaliwyd y llall?'

'Do'n tad. Wyddost ti lle roedd o?'

Ar lan y môr yn y Felinheli yn trio

gwerthu ei gardysa hi i ryw ddynas
yn y fan honno. Ac yr oedd honno

wedi talu iddo fo am y gardysa, a
dyma hi'n gofyn y cwestiwn mwy

naturioll.

'Lle mae'r gardysa?' medda hi
fel'na.

'Mae nhw yn Sir Fôn gen i,'
medda fynta. 'Fasa fawr i chi ddwad

ar draws i'w nhôl nhw hefo fi, i arbad
siwrna.'

'Ac yr oedd o wedi ei hudo hi i
rhyw foto bôt oedd ganddo fo yn y

fan honno ar y dŵr. Ond lwcus, mi
fethodd â'i cychwyn hi ddigon buan

cyn i'r plismyn gyrraedd. Roedd 'na
blwg drwg arni hi neu rhywbath —

y moto bôt wyt ti'n gweld — nid y
ddynas, rhag ofn i ti gam ddeall eto.

Neu roeddwn nhw'n deud na does
wybod be' fasa wedi digwydd. Mi

fasa wedi mynd â hi allan ar yr afon
wyt ti'n gweld, i drio dangos

chwanag o bol parots i honno wedyn,
yn clwydo ar gadwynni'r Bont Grog

neu rhywla felly. Tydi hi wedi mynd
yn rhyw fyd dwad? Dwyti ti ddim hyd

yn oed yn saff mewn staes.'

Roedd yn rhaid i mi gyfadda nad
oeddwn i ddim.

Y Gwalch

Beth am ddysgu
dreifio gydag

**YSGOL YRRU
BETHEL**

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
PORTDINORWIG
671009

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi



**I DDYSGU
DREIFIO EFO**

STAN

(Ysgol Yrru Rhiwen)

Ffoniwch

Bangor

364143

Geni • Bedyddio • Iffod • Priodas

✿ Pichlyear arbennig? ✿
✿ Pinnhag unigryw? ✿
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

✿ Cynllunir pob sampler
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✿ Hefyd gwniadwanti o bob math
gwneddi dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✿ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

CADAIR EISTEDDFOD LLANRUG

Dyma'r erthygl a enillodd Gadair Eisteddfod Llanrug am yr ail flwyddyn yn olynol i Mr R. Williams, Llain Gwta. Gofynnwyd am erthygl ffeithiol, ac yma mae'r awdur yn disgrifio ymweliad â:

Llwyfan y Diadelloedd

A fuoch chi erioed yn Dunoon, ar lannau Afon Clyde yn yr Alban? Mae llawer o ryfeddodau i'w gweld yn Argyll, yn enwedig canolfan y llongau tanfor Americanaidd. Yr hyn a ddenodd fy mryd yn ardal Loch Goil, oedd Canolfan Defaid a Gwlân Ewrop.

Yn ôl y broliant, dyma ganolfan gyntaf o'i bath yn Ewrop. Anogid pawb i dreulio dydd cynhyrfus yno ar lannau Loch Goil, yn Argyll. Gwelsom sioe lwyfan unigryw, yn cynnwys tua ugain o wahanol fridiau o ddefaid; arddangosfa fyw o grefft cneifio defaid, ynghyd â sioe 'Un dyn a'i gi' — i ddangos sgîl corlannu.

Ar lwyfan, o flaen cynnulliad o ymwelwyr, rhyddheid un hwrdd o bob brid yn ei dro o gorlan i'w safle unigol wrth gawg ar bost, a'i sicrhau ac aerwy wrth goler am y gwddf. Roedd cerdyn yn dangos enw'r brid uwchben â bugeiles ifanc o Ddyfnaint yn sylwi ar ragoriaethau pob brid, pwysau ei gnu, natur y gwlân a'r defnydd a wneid ohono.

Diddorol oedd sylw mor eiddgar oedd pob hwrdd, yn ei loc pren, i gael dod ymlaen ar y llwyfan at ei wobr o rawn yn y cawg. Brefai rhai yn awchus ag ambell un yn hyrddio y giât bren, neu geisio dringo drosti, er mwyn cyrraedd y llwyfan.

Dyma drefn yr hyrddod ar y llwyfan ar ddiwedd y sioe: Jacob, Rouce de L'Ouest, Romney, Texel, Suffolk, Clun Forest, Hampshire Down, Bleue de Maine, Blue Faced Leicester, Wensleydale, South Down, Gotland, Cotswold Herwick, Swaledale, Scottish Blackface, Cheviot, Black Welsh Mountain, Shetland.

O'r Alban y daw y Cheviot, Scottish Blackface, y Shetland a'r Herdwick. O Loegr mae'r Romney Marsh, Suffolk, Hampshire Down, Blue Faced Leicester, Wensleydale a Swaledale (Efrog), South Down a Cotswold. O Gymru, roedd y Clun Forest a'r Black Welsh Mountain. O Ffrainc y daw y Bleue de Maine, Texel a Rouge de L'Ouest. O Sweden y Gotland yw'r unig hwrdd. Y Jacob yn bur gyffredin, ond ei wreiddiau yn y Dwyrain Canol.

Rôl cyflwyno bob un brid a ôlrheinio ei rinweddau, aed ati i roi arddangosiad o geneifio Scottish Blackface gyda pheiriant trydan. Gŵr ifanc o'r Alban, ond a brentisiwyd yn Seland Newydd, oedd y cneifiwr. Cymerodd yr hwrdd

Scottish Blackface gerfydd ei gym a'i ddymchwel â'r pen rhwng ei liniau. Aeth ai i gneifio o dan yr ên a'r gwddf, i lawr y bol at y gynffon. Roedd yn trafod ei beiriant yn ddeheuig â'r anifail o dan reolaeth perffaith, gan na theimlai ei draed ar ddaear. Wedi cwblhau'r dasg dangosodd y cnu cyfan, yn un darn. Tociodd y darnau budr, tua'r gynffon, a lapio'r cnu yn un bwndel twt.

Galwodd ein sylw at y ddau fath o gi defaid oedd i'w ganlyn. Yn gyntaf ci du a gwyn, y Border Collie. Ei steil ef oedd gweithio'n dawel, heb gyfarth yn y byd, dim ond ufuddhau i orchmynion y bugail. Ei arfer yw gweithio o'r chwith i'r dde, yn null y cloc.

Yn wahanol, ci byr-flewyn, du a ginau — yr Huntaway — oedd ci defaid Seland Newydd; trymach ei gorff a swnllyd ei gyfarth parod. Rhed hyd gefn y defaid yn y gorlan. Arfer hwn yw gweithio o'r dde i'r chwith, yn groes i'r cloc. Er mwyn diddori'r plant dygwyd oen llywaeth i'r llwyfan a chafodd dau neu dri y frant o'i fwydo â teth botel.

Gan fod tair sioe i'w chynnal bob dydd, gwnaed bwrn o wllân, mewn sachliain, gyda'r cynnyrch cneifio. Croesawyd pawb i gymryd tusw o wllân mewn cwd papur at wisgo yn yr esgid. Mae olew 'lanolin' yn iro'r croen ac yn dda at gymr a chroen caled.

Wedi'r sioe lwyfan, cafwyd arddangosfa o'r Collie wrth ei waith, yn corlannu'r tair dafa ar lawnt y plas, y Dymysnie Leisure Complex, Lochgoilhead, Argyll.

Amcangyfrifir y daw dros ddeng mil ar hugain o ymwelwyr yno bob blwyddyn am dâl o ddwybunt, a phunt i blant. Yn ychwanegol ceir

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Elwyn Hughes, Bryn Ogwen (Bryn Banon gynt), ar enedigaeth mab, Sion Elwyn.

Cydymdeimlo: Dydd Mercher, Hydref 9, bu farw Mrs Katie Morris, 2 Tan y Buarth (Penrhos gynt). Roedd Mrs Morris, oedd yn 83 oed, wedi byw ym Methel drwy gydol ei bywyd. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Urdd: Mae dros 70 o blant wedi ymuno â'r gangen eleni ac fe gychwynodd tymor y gaeaf gyda noson hynod o lwyddiannus yng nghwmni Huw Pritchard (Bobs ar y Bocs) sydd erbyn hyn wedi ymgartrefu ym Methel. Mae rhaglen ddiddorol ac amrywiol wedi ei threfnu tan y 'Dolig.

Noson Tân Gwyllt: Eleni eto bydd yr Urdd lleol yn trefnu Noson Guto Ffowc ar dir ger y Neuadd ar nos Fawrth, Tachwedd 5. Yn ogystal ag arddangosfa o dân gwyllt bydd cwn poeth a diod ar werth. Bydd swyddogion ar gael i dderbyn unrhyw sbwriel tuag at y tân o 5.30 ymlaen. Er diogelwch y plant annogir pawb i gefnogi y noson.

Ysgol Feithrin: Cafwyd noson parti dillad a theganau llwyddiannus iawn yn ddiweddar a gwnaethpwyd elw o oddeutu £70. Diolch i bawb a'n cefnogodd. Ni fydd yn bosibl cynnal Bore Coffi eleni, fel yr arferiad, felly mae'r pwyllgor wedi trefnu dau Brynhawn Agored yn y Caban. Gwahoddir pawb i ymweld â'r Ysgol Feithrin am baned a sgwrs ar bnawn Mawrth, Tachwedd 12, neu bnawn Iau, Tachwedd 14. Bydd cacennau a nwyddau'r Mudiad ar werth, ac hefyd ceir eitemau gan y plant.

Hel Straeon: Nos Sul, Tachwedd 3, bydd stori am Mr John Owen, Penrhyn Bach, ac Owi'r ci yn cael ei ddangos ar y rhaglen Hel Straeon ar S4C. Fe ffilmwyd yr eitem tua thair wythnos yn ôl.

mwyniannau eraill fel pwll nofio cynnes, jacws i sawna. Mae yno gwrs golff naw twll a chaffi yn agored am fyr-bryd drwy'r dydd. Yn siop wllân a chrefftau y ganolfan ceir dewis o nwyddau gwlân yr Alban.

Rhaid cyfaddef fod yr Albanwyr i'w hedmygu am eu menter a gallem ninnau, yn y fro yma, eu hefelychu trwy wneud defnydd o'n hadnoddau naturiol er lles darbodaeth.

Pencampwr Cymru: Llongyfarchiadau i Aled Jones, Fachell, a Robin Warrington, Wern Bach, ar ddod yn bencampwyr Cymru mewn Gala Nofio Ffermwyr Ieuainc, a gynhaliwyd yn Aberhonddu ddechrau'r mis. Enillodd Aled a Robin yn y rasmus nofio broga a chefn. Aled dan 26 oed a Robin dan 21 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Gail Warrington, sydd yn aelod o dîm Ffermwyr Ieuainc Eryri, a enillodd gwpan am fod y tîm gyda'r pwyntiau uchaf yn y cystadlaethau.

Capel Pêl-droed: Llongyfarchiadau i Irfon Hughes, Cae Rhos, ar gael ei ddewis yn gapten tîm pêl-droed dan 11 oed Gwynedd.

Clwb 200 Y Neuadd: Enillwyr mis Medi — £20: Mr Griffith Jones, Trigfa, Erw Bian (205); £10: Mr Michael Elis, 9 Eryri (178); £5: Mr Owen M. Jones, Isfryn, Saron (202); Miss Manon Gwynedd, Cadnant (214); Mrs June Owen (110); Rachel Eleri Hughes, Coed Bolyn (122); Dafydd Jones, Llan Isaf, Llanddeiniolen (127); Mrs Myrna Owen, Camlan (117); Mrs Medwen Green, Medfyn (188); Mrs Glenys Griffith, Llwyn Eithin (142).

Clwb y Rhos: Nos Lun, Hydref 14, agorwyd tymor y gaeaf gyda noson o sgwrs gan y Parchg John Gillibrand. Cafwyd sgwrs ddifyr yn olrhain ei hanes o'i blentynod yn Manceinion i'w swydd fel Curad yng Nghaernarfon, a'r dylanwadau fu arno.

Diolchwyd i Mr Gillibrand gan Dewi Rowlands a dymunwyd yn dda iddo yn ei ofalaeth newydd ym Mlaenau Ffestiniog.

Bydd y Clwb yn cyfarfod nesaf yn yr Archifdy yng Nghaernarfon, nos Lun, Tachwedd 11, am 7.30. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**CYFARFOD
CYFFREDINOL
DYFODOL YR ECO
NOS WENER,
TACHWEDD 8
NEUADD YSGOL
BRYNREFAIL
am 7.00**

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

★ Bysiau o 12 i 53 sedd
★ Teithiau Lleol a Thramor
★ Gwaith Contract
★ Telerau arbennig i
bensïynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

CHWILOTA

Capel Cymraeg Tillymorgan



Yn ystod mis Hydref deuthum i gysylltiad â gŵr o'r enw Dr Ian Macilwian, a oedd yng Nghymru yn gwneud ymholiadau ynglŷn â hen gapel a ddaeth i'w feddiant. Prynwyd hen reithordy ger Inverurie, Swydd Aberdeen ganddo, ac fel rhan o'r pryniant, roedd hen gapel na fu defnydd iddo ers tua hanner can mlynedd. Bu Dr Macilwian yn gwneud ymholiadau yn lleol ynglŷn â'r capel, a darganfu fod pobl yr ardal yn ei alw ar lafar yn *'Welsh Chapel'*. Yn ôl trigolion hynaf yr ardal, roedd rhai o'u cyndeidiau wedi dod o Gymru — a chwarelwyr llechi oeddynt; ond nid oedd neb yn sicr iawn o ba ran o Gymru y daethant.

Prin iawn yw'r wybodaeth sydd ar gael am **Capel Tillymorgan**. Mae'n ymddangos i'r Achos Cymraeg ddarfod yno tua 1850, oherwydd yn y flwyddyn honno fe'i trosglwyddwyd i ofal Eglwys Episcopaid yr Alban, a chysegro'r adeilad i Sant Thomas. Ond ar lafar, roedd yr eglwys yn parhau i gael ei hadnabod fel y *'Welsh Chapel'*. Credir felly, fod yr Achos Cymraeg wedi ei sefydlu yno rhwng dechrau a chanol y ganrif ddiwethaf.

Enw arall ar ardal Tillymorgan yw Culsalmond, ac heb fod ymhell i ffwrdd roedd Chwareli Llechi Foundland, ger Huntley. Yn ôl Dr Macilwian mae'r adeilad yn debyg iawn o ran pensaerniaeth i ddegau o gapeli ymneilltuol Cymru.

Os oes gan unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth am chwarelwyr o'r fro hon â chysylltiadau gyda chwareli llechi yn Swydd Aberdeen, Yr Alban, rhwch wybod i Dafydd Whiteside Thomas, 'Bron y Nant', Llanrug (ffôn: Caernarfon 3515).

Mwy eto am yr Efail Newydd!
Ymddiheuriad i gychwyn — a hynny am gam-sillafu enw yn y rhifyn diwethaf — a allai fod wedi cymhlethu rhai. **WAENRYALLT** (sef y *Waen Rhyddallt* presennol — Tŷ Rodger, neu Rajar ar lafar) oedd cartref Ellis Hughes yn 1841. Oddi yno symudodd i'w dŷ ei hun — *Cefn y Waen* (sef *Cefn y Waen Rhyddallt*), a hwnnw, o bosib, oedd yr *Efail Newydd wreiddiol*. Gadawaf i Angharad Rhys Williams o Gaernarfon orffen yr hanes.

Medraf ddweud pwy oedd Ellis Hughes gan ei fod yn ewythr i fy hen

nain, Margaret Roberts, 1841—11914; yn frawd i'w mham ac yn dod o Gym Goch, Clynnog. Bu farw yn 1877 yn 68 oed, a'i gladdu ym mynwent Llanddeiniolen. Nodir hyn yng Nghofrestr yr Eglwys — Ellis Hughes, Pontrhyallt. Mae'r llyfr *Bro Deiniol* yn cyfeirio at ŵr o'r enw, Ellis Hughes, Y Felin, un o ddau gariwr lleol oedd yn huawdl am eu gair a'u gwasanaeth yn y cylch. Fel 'miller carter' y nodir ei alwedigaeth yn y cyfrifiad. Credaf mai yn 1810 y ganwyd ef, yr oedd ei dad, Evan Hughes, yn grydd, a'i fam yn chwarel i daid y Parch John Jones, Brynrodyn. Priododd ddwywaith; yn gyntaf yn 1831 â Grace Jones, Llanddeiniolen a ganwyd merch iddynt o'r enw Jane yn 1837. Yn ôl Cyfrifiad 1871 roedd plentyn honno, Jane Jones, yn byw gydag ef a'i ail wraig Ellen Hughes, a hanai o Abererch, fel y bobl drws nesaf!

Yn ei erthygl sonia John E. Williams am darddiad yr enw. Byddai'n ddiddorol gwybod pwy oedd y bonheddwyr y cyfeiriai ato. Roedd tad, taid, a hen daid John Roberts (fy hen daid yn Efail Newydd) yn ofaint a hanent yn wreiddiol o'r 'Refel, Llanbedrog. Nid fy mod i'n credu mai dyma'r esboniad ar yr enw. Hefyd, defnyddia Mr Williams yr enw ffug Allt Riwith ar yr allt — 'enw gwneud' ganddo ef, mi dybiaf, yw hwn oherwydd wedi i mi holi cyn breswylwyr Isgaer a Llys Iolen a Thŷ Ryjar — gan fynd yn ôl i'r amser y daeth fy mam yno i fyw ar ddechrau'r ganrif — ni chlywsant yr enw. Tybiaf y dylai'r rhai sy'n ymddiddori yn hanes yr ardal ac wedi darllen *Bro Deiniol*, gan Thomas Phillips, ei gwneud hi'n

Ryw fymryn bach o'r Anghyffredin?

Ai'r un ran ystyr tybed yw'r 'prin' ac 'anghyffredin'? Gall llyfr fod yn brin, ond nid yn anghyffredin, neu fel arall, sy'n peri i ryw anarbennigwr fel fi dybio fod 'na wahaniaeth rhwng 'anghyffredin' a'r 'prin'. Ac yn ddios mae'n debyg mai'r cyffredin a aeth yn brin yw'r anghyffredin mewn hyn o fyd, ond nid af i daeru'n ormodol ychwaith oherwydd rhywle o fewn profiad dyn y mae'r annisgwyl yn bodoli, a sylwer, 'annisgwyl' ddwedes i, gan fod y profiad, yr hyn a welwyd yn rhywbeth sydd yno, yn wastad, ond bod rhywun heb gael profiad ohono cyn hynny. Gadewch i mi brofi'r hyn a ddywedaf ac ychwanegu at y dystiolaeth fel petae. Dau hanesyn gwir bob gair.

Yn y flwyddyn 1908 cyhoeddodd gŵr o'r enw H. E. Forrest llyfr yn dwyn y teitl *'Vertebrae Fauna of North Wales'* ac ynoddi dywedir am Bele'r Graig ei fod yn anifail 'a oedd yn trio yn y rhannau mwyaf gwyllt yn Arfon ac Meirion', a'i fod 'wedi diflannu o bob man arall'. Yn y *Zoologist*, Mai 1895, ceir hanes gweld Bele'r Goed yng nghyffiniau Llanberis. Y gŵr â'i gwelodd oedd ymwelydd â'r pentref, sef Mr P. L. Sclater o Oldham, Lloegr, ac y mae o'n cyfeirio at ddigwyddiad ym 1845 pryd y gwelodd hela Bele'r Graig â bytheaid a gedwid yn y cylch er mwyn mynd â hwynt ar helfeydd lladd llwynogod, cathod coed ac unrhyw anifail arall a ystyrir yn bla. Arferid tyrchu o gwmpas yn y creigiau â phicelli hirion miniog er mwyn cyffroi unrhyw anifail a ddigwyddai lechu yno. A'r rheswm dros yr hela ciaidd hwn? Rheswm neu glwyf hunanol — rhyngu bodd y chwant os mynnwch — oedd bod coel yn bodoli mai Bele'r Graig oedd yn gyfrifol am ymosod a lladd ŵyn bach yn eu tymor. Yn nhymor yr haf y gwelodd Sclater yr helfa a ddisgrifiwyd uchod.

Yn *Y Faner*, Awst 21, 1987, tystir gan Mrs Evan Jones, Fachwen, Llanberis, iddi glywed 'sŵn fel nifer o gathod yn cwffio'. A meddai Mrs Jones, 'Edrychais dros ymyl yr ardd, ac yno, yn y ffos yng nghefn y tŷ gwelais ddau anifail yng ngyddfau ei gilydd. Roeddynt yn debyg i ddwy gath fawr, ond bod yr wyneb yn fain, y corff yn hir ac o liw brown cyfoethog, tra yr oedd y gwddw ac o dan y frest yn oren a hufen. Roedd y gynffon yn fawr ac yn hir.

bolisi i gadw'r enwau gwreiddiol gan osgoi cymhlethu pethau i haneswyr y dyfodol gan na fyddai olion o'r enwau yn y cyfrifiadau cynnar. Mae hi'n ddigon dyrys arnom ni fel ag y mae.



BELEU'R COED

Ysgymygodd un ohonynt arnaf yn yr amser byr y'i gwelais, cyn i'r ddau lithro'n sydyn i ffwrdd — i ble, nis gwn!

Prinder. Diflaniad y Bele Graig. Pam tybed? Ai chwant dyn, a'i ysfa i hela er mwyn y sbort o ladd er mwyn lladd a fu'n gyfrifol dros leihad yr anifail, hyd yn oed yn Arfon y gwyddom ni amdani, ynteu a oes ffactorau eraill ynghlwm wrth ddigwyddiad a ffaith? Yn hanes y wiwer goch, beiwyd y lwyden am ei lladd. Ffaith neu ddychymyg dynol oedd yn bennaf gyfrifol am ladd y gochen — fel paraseitau yn byw arni. A'r Bele a lecha yn y creigiau? Ryw fymryn bach o'r anghyffredin erbyn hyn? Ie, ysywaeth.

DAFYDD GUTO

AR WERTH

VODAFONE ATaT
Model 1460

gyda 'speaker' BART
Ffôn (0286) 70646
(ar ôl 5.30 p.m.)
i drafod pris.

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn:
Waunfawr 552

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

Beth am eich parti 'Dolig eleni
partïon o 10 i 50
Cinio Twrci 3 cwrs o £8.50 (nos)
neu £7.50 yn y dydd

Croeso cynnes i bawb oddi wrth Danny a Nerys

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Urdd, Adran Bentref: Bydd gweithgareddau'r Adran yn ail ddechrau ar nos Fawrth, Hydref 29, yn Ysgol Tan-y-coed, am 5.30 p.m. Tâl aelodaeth yw £2.20 ac mae'n rhaid i'r plant fod yn 6 oed ar Medi 1 er mwyn cael ymaelodi. Dyma raglen y tymor:

29.10.91: Ymaelodi a Fideo

6.11.91: Mr R. E. Humphreys

12.11.91: Mr Hefin G. Jones

19.11.91: Mr Leslie Larsen

26.11.91: Mr Leslie Jones

3.12.91: Mrs Pat Jones

10.12.91: Gemau

18.12.91 (Mercher): Parti Nadolig
Gwellhâd: Anfonwn ein cofion at bawb sy'n sâl yn y pentref. Balch ydym o glywed fod Sioned Roberts ac Eurwyn Jones yn gwella wedi'u triniaeth yn yr ysbyty. Dymunir gwellhad buan i Mrs Eileen Thomas a Mr Hugh Williams sydd yn derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Cofion annwyl at y ddau ohonoch.

Deallwn fod Mrs Margaret Jones, Hendre Newydd, wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty.

Cyrraedd 80 oed: Llongyfarchiadau mawr i Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt, ar gyrraedd ei 80 oed. Ymlaen rŵan i'r ddegawd nesaf. Pob bendith i chi Mrs Williams.

Diolch: Dymuna Mrs Gwyneth Jones, 25 Bryntirion, ddiolch o galon am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phenblwydd ym mis Hydref.

Cymdeiths Feiblaidd: Cynhaliwyd gwasanaethau'r Gymdeithas Feiblaidd ddydd Sul, Hydref 6. Roedd Eglwys Santes Helen dan ei sang am 2 p.m. a chyda Mrs Nant Roberts yn annerch ac arwain y cyfarfod cafwyd gwasanaeth hyfryd dros ben.

Mwynhawyd Cymanfa Ganu hwylion o dan arweiniad Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas, yng Nghapel Bosra am 6 p.m. Cafwyd eitemau gan Gôr Lleisiau'r Gweunydd i ychwanegu at lwyddiant y Gymanfa. Cymerwyd y rhan ddechreuol gan y Parch. John Morris, Llanrug, a diolchodd ef i Mrs Mary Davids a Mrs Nansi Jones am wneud trefniadau'r dydd. Gwnaed casgliad tuag at y Gymdeithas yn y ddau wasanaeth.
Pwyllgor Neuadd: Tynnwyd Clwb Cant Medi, yn Sycharth. 1: Danny Webb, 22 Bryntirion; 2: Elinor Jones, Heather Bank; 3: Wyn Griffith, Tai Arthur. Tynnir Clwb Cant Hydref nos Iau, Hydref 31, mewn Noson

Calangaeaf yn Neuadd yr Eglwys am 6 p.m. Bydd paned, diod oren, raffl a chŵn poeth ar werth am bris rhesymol. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist Elusennol: Cynhelir Gyrfa Chwist Elusennol, yng ngofal Mr Selwyn Griffith, Llanrug, yng Ngwesty'r Fictoria, nos Fawrth, Tachwedd 5, am 7.30 p.m. Bydd yr elw at Gronfa'r Clefyd Siwgr (Diabetes) Gwynedd. Derbynir rhoddion at y Gronfa drwy law Mr Selwyn Griffith neu Mrs Mary Davies. Diolchir am eich cefnogaeth.
Ysgol Feithrin: Bydd yr Ysgol Feithrin yn gwerthu teisennau ar y Maes yng Nghaernarfon, fore Sadwrn, 9 Tachwedd. Byddwn yn ddiolchgar am eich cefnogaeth. Cynhaliwyd Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys yn ystod mis Medi ac 'rydym yn ddiolchgar iawn i bawb a gyfrannodd at elw'r Ysgol Feithrin.

Profedigaeth: Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrfa â Mrs Percy Williams, Llys y Gwynt ar golli ei chwaer.

Ein cydymdeimlad dyfnaf hefyd â Mr Arnold Jones a'r teulu, Waun, ar golli ei frawd yn Neiniolen.

Llongyfarchiadau i Sandra Jones, Tŷ'n Gerddi, Waun, ar gwblhau ei chwrs yn y Gyfraith. Bydd yn dechrau ar ei gyrfa ym Manceinion. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Diolch: Dymuna Mrs Katie Williams,

DIOLCHGARWCH YM MHENISARWAUN



8 Llys y Gwynt, ddiolch i'r plant a'u teuluoedd ac i'w chyfeillion a phawb a fu mor garedig wrthi ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed.

Ysgol Sul Bosra: Yng ngwasanaeth y Gymdeithas Feiblaidd, ar y cyd ac aelodau Ysgol Sul Santes Helen, cyflwynodd y plant eitem ar lafar a chân am William Williams, Pantycelyn. Diolchir i'r plant am ddysgu eu gwaith mor drwyadl.

Pnawn Sul, Hydref 20, cynhaliodd yr Ysgol Sul wasanaeth Diolchgarwch. 'Dameg yr Heuwr' oedd crynswth y cyflwyniad, a hyfryd oedd gweld y plant lleiaf, yr iau a'r athrawon yn cyd-weithio a chyflwyno gwasanaeth o wir ddiolch. Roedd y plant wedi dod â llysiau, ffrwythau, blodau a bara i addurno'r capel. Diolchir i'r rhieni am y gefnogaeth frwd. Braf oedd gweld Mrs Jane Richards a Russell yn yr oedfa. Yr oedd Russell a Jonathan ei frawd yn gyn-aelodau ffyddlon cyn iddynt symud i'r De.

Eglwys Santes Helen

Diolchgarwch: Daeth cynulleidfada ynghyd ar gyfer yr ŵyl flynyddol o Ddiolchgarwch am y cynhaeaf ar fore Sul, 13 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd gan y Parch Tegid Roberts, a'r pregethwr gwadd odd y Parch David Jerman, Llandrygan, Môn. Dymuna'r Wardeiniaid ddiolch i bawb am eu rhoddion ac i'r rhai a fu'n addurno'r Eglwys mor hardd ar gyfer yr ŵyl. Braf hefyd oedd cael cyfraniad gan blant yr Ysgol Sul. Diolch i'r athrawon am eu hyfforddi.
Ffair Gynhaeaf: Nos Lun, 14 Hydref, cynhaliwyd Ffair Gynhaeaf yn Neuadd yr Eglwys. Diolch i bawb a sicraodd bod y noson yn un llwyddiannus. Enillwyd y raffl gan y canlynol — 1, Hamper: Jean, 12 Bryntirion; 2, Tegan Meddal: Mrs Rees, Siop Gron; 3, Bag o datws: Mrs Elizabeth Jones, 18 Bryntirion. Enillydd y gêm gyfrifadur oedd Iwan Glyn.

CYNGOR
GWEITHREDU
GWIRFODDOL
CYMRU



CYMORTH I FUDIADAU GWIRFODDOL

Mae dyfodol ansicr yn wynebu trigolion cefn gwlad oherwydd y gostyngiad mewn incwm o'u prif ddiwydiant, sef ffermio, y mewnffudo a'r allfudo a'r newidiadau diwylliannol.

Wrth agor swyddfa Cefn Gwlad ac Ewrop yn y Trallwng ddydd Gwener, Hydref 25, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn dangos sut y gellir helpu'r grwpiau gwirfoddol hynny sy'n rhoi cefnogaeth hanfodol i gymunedau gwledig.

Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn bywyd o fewn cymunedau gwledig. Maent yn darparu gwasanaethau hanfodol, e.e., gofal iechyd, helpu'r anabl a'r henoed a threfnu gweithgareddau cymdeithasol. Wrth i'r pwysau ar fewnfframwaith cefn gwlad gynyddu fe fydd angen rhoi mwy a mwy o gefnogaeth i wirfoddolwyr er

mwyn ymdopi â'r holl waith a ddaw i'r fei.

Yn ogystal â lansio'r swyddfa mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cynnal diwrnod gweithredu gwledig yn Aberystwyth ar Hydref 26. Ar y diwrnod hwnnw roedd gwirfoddolwyr o bob cwr o Gymru yn ceisio ymdrin â'r problemau.

Fel y dywed Swyddog Cefn Gwlad ac Ewrop newydd Cyngor Gweithredu Gwledig Cymru, Dewi Llwyd Evans: 'Wrth sefydlu'r swyddfa hon rydym yn dangos ein hymrwymiad i grwpiau cefn gwlad — fod ganddynt anghenion unigryw ac rydym ni am geisio diwallu'r anghenion hynny.'

Wrth drafod agwedd Ewropeaidd ar waith y swyddfa dywedodd: 'Mae llawer o bobl yn tybio fod Ewrop yn bell ac yn fygythiol ond mae dylanwad Ewrop ar ein bywydau yn cynyddu fwyfwy. Rydym am geisio sicrhau fod mwy o arian yn dod o Ewrop i'r sector wirfoddol yng Nghymru ac rydym am sicrhau fod pobl yn dod i gysylltiad â grwpiau tebyg yn Ewrop.'

Dywedodd Mr Evans fod dyfodol cymunedau gwledig yn dibynnu i raddau helaeth ar frwdfrydedd gweithredu gwirfoddol. Mae cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ceisio gwneud ei orau er mwyn darparu'r cymorth hwnnw.

**CRIB
COCH**

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O
WELAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI
MEWN STOC — ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

F'EWYTHR JOHN

gan John O. Harvey, Llangefni.

John Owen, brawd mam, oedd fy ewythr, a hen foi go iawn oedd o hefyd. Un o'r dynion mwya clên fu erioed — gyda'i ben bron yn foel a'i wên fawr siriol. Un gweithgar yn ei waith fel chwarelwr ac adref gyda'r nos er mwyn cadw'r teulu mewn bwyd a dillad. Ie, yn yr amser caled yna yr oedd y gwaith gyda'r garreg las yn gwneud dynion yn hen o flaen eu hamser.

Yn fachgen bach yr oedd ganddo lais fel mêl. Unwaith mewn eisteddfod yn y Pafiliwn yng Nghaernarfon yr oedd John yn cystadlu ar yr unawd i hogia ifanc. Ei gân oedd 'Tros y Garreg' a chlywais rai oedd wedi bod yno yn dweud ymhen blynyddoedd fod llaer yn crio wrth ei wrando yn canu y gân ddwys. Yr oedd rhywbeth arbennig yn ei lais bob amser, cynhesrwydd a theimlad swynol. Bu wrthi yn cystadlu a chanu yn ei gapel ar hyd ei oes ond ei brif bleser oedd canu penillion telyn. Nid oedd ennill yn brif beth ganddo, rhoi perfformiad oedd J.O. bob amser. Os anghofiai air neu linell cerddai at y biano neu delyn ac wedi cael gair yn nghlust y cyfeilydd, ail gychwyn a rhoi ryw wên fach slei — dyna oedd ei steil.

Fe aeth, fel llawer o hogiau'r Waun, i ryfel a bu yn lwcus o gael dychwelyd yn ddianaf ar ôl yr alanast erchyll. Aeth wedyn gyda fy nhad i chwilio am waith i drefi Widnes a Runcorn yn Lloegr. Ond yn ôl y daeth wedi cael llond bol ar y lle, gyda'i nwyon a mwg gwaith yr ICI. Gwell oedd ganddo slafio yng ngwynt y mynydd yn Eryri.

Bu yn gweithio yn chwarel y Glyn, ger Llanberis, gan fyw yng Nghwm-y-glo. Yno y cafodd o a Modryb Kate eu brifo fwyaf. Collwyd Glyn, y bachgen yr un oed a mi, trwy gael ei daro i lawr gan fws lleol y tu allan i'r Neuadd.

Bum gyda Mam yn yr angladd trist, a wnai byth anghofio galar pawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau wrth roi Glyn annwyl i'r pridd ym mynwent Llanrug.

Byddai Ewythr John yn dod ar ddydd Sadwrn 'tâl mawr' i edrych amdanom. Gwyddem ei fod yn agosau wrth ogle ei sigaret 'shag'. Gyda beic y deuai gyda'i ferch, Mair, yn eistedd ar glustog ar y bar uchaf.

Gwnâi John i bawb chwerthin wrth iddo daflu ei lais heb symud ei wefusau — yr oedd yn arbenigwr ar wneud hynny. Smalio y byddai fod ganddo gi bach yn ei boced. Rhaid wrth gwrs fyddai cael cân cyn ymadael, a'i hoff, 'Chwythu ei dân

dan chwibanu a wnai'r gôf du . . . yn cyd-fynd â record ar y gramaffon.

Gwnaeth llawer o waith coed yn ei amser hamdden. Un Nadolig cefais ganddo ferfa fechan bren, ac yn ddiweddarach gwter o bren i gyd — gyda thair olwyn arno ac yn hollol ddiogel i fachgen bach.

Pan soniwyd am gau y chwarel symud ardal fu raid, ac i Chwarel y Penrhyn, Bethesda, yr aeth i weithgio gan fyw yn Douglas Hill, Mynydd Llandegai. Byddai yn cadw ambell i ddafad ac ieir ger y tŷ.

Deuai yn aml i Ynys Môn i brynu gwadnau pren ar gyfer eu troi yn gloisiau. Yr oedd llawer o'i gydweithwyr a chymdogion yn ei adnabod fel 'John Owen Clocia'.

Ymunodd a Chôr y Penrhyn fel bariton ac yr oedd gyda hwy pan gawsant fuddugoliaeth fawr yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon dan arweiniad Ffrancion Thomas.

Codi Byngalo!

Mae'n siŵr gen i fod y postmon yn dod a dau gant neu fwy o geisiadau cynllunio acw yn ystod blwyddyn. Ceisiadau ydy rhain am gael adnewyddu neu rhoi estyniada i dai, neu am gael codi tŷ neu fyngalo newydd, o fewn i ffiniau plwyf Llanddeiniolen.

Yn naturiol mae rhai yn cael eu caniatáu gan Gyngor Arfon, ac eraill yn cael eu gwrthod.

Does gen i 'run amehuaeth ymhle y carwn i godi byngalo i fyw y gweddill o'm hoes ynddo, petae'r awdurdodau yn caniatáu hynny i mi.

Mi fyddai'n cerdded yn aml i fyny at Ben Caerau ac i lawr Lôn Cae Meta, at Pensarn, ac yna yn ôl heibio i'r Colditz (lle bu Tyddyn Felin) i Benisarwaun.

Ar y gornel ym Mhen Caerau, lle mae Lôn Cae Meta yn cychwyn ar ei thaith droelllog tua Phensarn y byddwn i yn adeiladu fy myngalo delfrydol. Mi fydda i yn treulio oriau difyr yma yn yfed yr olygfa. Yr Wyddfa a'i chriw yn fur cadarn y tu ôl i mi, a gwastadedd Ynys Môn yn ymledu i'r gorwel, a thre' Caernarfon yn fy arwain i synfyfyrto tua Chaer Arianrhod a rhamant doe.

Ie, yma o fewn tasliad carreg i'r hen gaer nodedig y codwn i'r byngalo. Roedd y fangre hon yn un o hoff lecynnau W. J. Gruffydd hefyd lle'r arferai — 'orwedd yn yr haul drwy'r dydd a breuddwydio breuddwydion melys llanc'.

Os am ddisgrifiad byw o'r fangre hon trowch i gyfrol wych y diweddar Alun Llywelyn Williams, *Crwydro Arfon*.

Ers talwm edrychwn innau ymlaen, fel pob plentyn, at gael mynd i lan y môr. Roedd y Rhyl yn baradwys bell yn nyddiau aur y gwyliau pwced a rhaw, pan gawn y cyfle blynyddol i guddio tu ôl i gwmwl pinc o gandï ffios. Ond, fyddwn i byth bythoedd yn mynd i'r Rhyl am ddiwrnod heddiw, heb sôn am wythnos! Fyddai pleserau cyffrous y Marine Lake a'r Heulfan yn apelio dim ataf.

Ar ambell ddiwrnod mi âf i dawelwch Cwm Dyli, neu i gerdded o amgylch Llyn Idwal. Mae apêl y mynydd yn gryfach nag apêl y môr bellach. Gwell gennyf dawelwch na'r bwrlwm swnllyd.

Mae bron pob catalog gwyliau yn cynnig 'sea view' i chi, ond i chi dalu'r pris ychwanegol. Mae'n debyg fod cael golygfa o'r môr yn fwy delfrydol na adeilad o frics sy'n ymestyn i'r entrychion. Ond, i mi, does 'na ddim mwy diflas nag edrych am hydoedd dros fôr llonydd tua'r gorwel. I ddweud y gwir mae'r môr yn fwy diddorol o lawer pan mae o'n sgrnygu'i ddannedd yng nghanol gerwinder gaeaf.

Mae'r Wyddfa a'i chriw yn fwy mawreddog yng nghanol gerwinder y gaeaf hefyd. Does yna 'run olygfa well na'u gweld yn eu gynau gwynion.

Dyna pam, am wn i, y carwn i godi byngalo ar Ben Caerau fel y gallwn i fwynhau yr olygfa orau drwy'r flwyddyn. Gallwn weld y môre yn y pellter — 'sea view' heb dâl ychwanegol ac fe fyddai cadernid yr hen fynyddoedd 'ma yn gwmni i mi haf a gaeaf.

A chan y byddwn i'n rhy hen i grwydro i bellafoedd yr hen fyd 'ma bellach, mi gawn i fyw yn hapus ar fy atgofion a gweld plwy' Llanddeiniolen i gyd.

Ond waeth i mi heb a breuddwydio am fyngalo ar y llecyn delfrydol hwn. Gwrthod fy nghai wnâi Cyngor Arfon.

SELWYN

(Dydi'r pysgodyn arbennig hwn ddim am godi i'r bluen 'chwaith! — Golygydd.)

CLWB FFERMWYR IEUANC CAERNARFON

Cychwyn Tymor Newydd

Ail gyfarfu'r Clwb ar Awst 27, pan gafwyd Helfa Drysor mewn car ei chynnal gan Helen Jane. Cychwynodd yr Helfa ym Methel a gorffen yn Y Fachell, Seion. Yr enillwyr oedd Myfanwy a'i chriw, a'r colledwyr a oedd wedi treulio'r noson yn teithio o amgylch Bethel yn unig oedd Elwyn a'i lond car o hwlighaniaid!

Oherwydd bod Neuadd Goffa Bethel yn cael ei hail adnewyddu mae'r Clwb yn cael ei gynnal yn Neuadd Goffa Llanrug, bob nos Fawrth, hyd nes bydd y Neuadd ar ei newydd wedd.

Ar y cyntaf o Hydref cafwyd noson gymdeithasol gyda Moi Parry o Llanybi. Yn ystod y noson cynhaliwyd nifer o gwisiau ac fe fwynhaodd pawb y noson. Cynhaliwyd cwis gyda'r Parch W. R. Williams ar Hydref 8.

Cafwyd noson o bwl a dartiau ar y 15 Hydref a daeth ambell un i'r brig o fod yn hen law ar y gêm.

Ar 22 Hydref daeth Mike Lamb i'r



Clwb i ddysgu angenrheidiâu pwysicaf Cymorth Cyntaf i'r aelodau, sef sut i adfywio person marw. Cafodd pawb y cyfle i adfywio dym i'r bechgyn oedd y rhai llwyddiannus!

Yn ystod cystadlaethau Chwaraeon Cymru yn Aberhonddu fe gynrychiolodd tîm nofio Eryri gan dri o'n Clwb ni, sef Aled, Robin a Gail. Daeth Aled yn gyntaf mewn dwy ras, ac fe enillodd Robin ddwy ras. Daeth y tîm nofio yn gyntaf drwy Gymru. yn y gemau badminton roedd Tegwen yn cynrychioli Eryri ac fe aeth i'r rownd gyn-derfynol yn y senglau a'r dyblau. Daeth aelodau Eryri yn drydydd drwy Gymru.

Ar nos Fercher, Hydref 16, cynhaliwyd cystadleuaeth pwl a dartiau yng Nghanolfan Tanybont a chynrychiolwyd ein Clwb gan Eurwyn, Aled, Bethan a Gweno.

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Clwb Ieuenctid Llanrug: Mae'r Clwb wedi agor am y tymor 1991-92 a byddwn yn cyfarfod bob nos Lun a nos Iau yn y 6ed dosbarth yn Ysgol Brynrefail. Mae croeso i bawb o'r 3ydd flyddyn ymlaen i ymuno â ni.

Byddwn yn cael defnydd o'r gampfa bob nos Lun ac mae gemau tenis bwrdd a pwl ar gael ynghyd â theledu a fideo, chwaraewr tapiau a radio a Nintendo.

Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr: Cynhelir cyfarfod cyntaf y tymor, yn y Ffestri, nos Fercher, Tachwedd 6, gyda Nolon Lawen gan Gwmni Drama Llanberis, i ddechrau am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Tâl mynediad yw £1. Bydd yr ail gyfarfod ar Tachwedd 13, pryd y cawn noson yng nghwmni Dr Gwyn Parry, Penygroes, a fydd yn dangos sleidiau o'i daith i Rwmania.

Noson o 'Hawl i Holi' fydd gennym ar Tachwedd 27.

Merched y Wawr: Bu cyfarfod o'r gangen yn yr Ysgol Gynradd ar Hydref 8, o dan lywyddiaeth Miss Phyllis Ellis.

Y gŵr gwadd oedd Alun Bevan o Bencadlys yr Heddlu, a rhoddodd sgwrs ddiddorol iawn a llawer o wybodaeth am atal troseddau. Cafwyd cwis ar faterion o'r gyfraith i orffen, a'r enillwyr oedd Margaret Parry a Annwen Evans. Diolchwyd iddo gan Nansi Lovatt.

Cydymdeimlwyd â Mary Roberts oedd wedi ei mham.

Darparwyd y baned gan Jean Roberts, Margaret Jones, Ann Ll. Griffith, ac Olwen Huws. Enillydd y raffl oedd Mair Huws.

Bydd arddangosfa o 'Coginio at y Nadolig' gan Antoinette Hughes yn yr Ysgol Gynradd ar Tachwedd 12.

Y Gymdeithas Undebol: Nos Fawrth y 15fed, o dan lywyddiaeth Mrs Megan Williams, cafwyd sgwrs ddifyr gan Mrs Margaret Cynfi Griffith, Deiniolen. Talwyd diolch iddi gan Mr Emrys Owen. Mewn cyfarfodydd blaenorol bu Mr R. Gwyn Davies, Waunfawr, a Dafydd Guto Ifan, Bethel, yn siarad am Newid Gwaith gan y naill, a stori Mari'r Fantell Wen gan y llall.

Penderfynwyd cychwyn y Gymdeithas eleni yn ystod mis Medi, er mwyn osgoi misoedd lonawr a Chwefror.

Anfonwyd cofion at y Parch Erfyl Blainey fy yn aelod ffyddlon o'r Gymdeithas, a Mrs J. C. Williams,

Bod Fair, y trysorydd.

Diolchgarwch: Cynhaliwyd Diolchgarwch Capel Mawr ar Sul, Hydref 6. Cymerwyd rhannau defosiynol yn oedfa'r bore gan ddsbarth Ysgol Sul Mrs Carys Wynne, wedi ei hyfforddi gan Mrs Wynne. Anerchwyd y plant gan y Gweinidog, y Parch. John Morris. Cyfeiliwyd gan Mrs Carys Jones, Pant Hywel.

Trefnwyd oedfa'r hwyr gan Mr Oswald Davies a chymerwyd rhannau gan Mrs Beryl Wyn Griffith, Mr Rolant Wynne, Mrs Joan Griffith, Mrs W. O. Roberts, Mrs Fflo Roberts, Mr J. Wyn Owen, Mrs Rhian Jones, Mrs Beryl Thomas a Mr Myrddin Williams.

Cyfeiliwyd gan Mrs Cari Owen. Talwyd y diolchiadau gan Mr Oswald Davies.

Clwb Blodau'r Grug: Cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Blodau'r Grug yn y Sefydliad Coffa, prynhawn dydd Iau, Hydref 10, o dan lywyddiaeth Mr Emrys Owen, 9 Stâd Hafan Elan. Anfonwyd ein cydymdeimlad â theulu y ddiweddar Mrs Jennie Eunice Roberts yn eu profedigaeth. Roedd y ddiweddar Mrs Roberts yn aelod ffyddlon o'r Clwb.

Y gŵr gwadd oedd Mr Derfel Griffith, Caernarfon, cyn-brifathro Ysgol Gynradd Llanrug, a threuliwyd prynhawn difyr yn ei gwmni a than ei arweiniad. Y gwestwagedd oedd Mrs C. Owen, Gwynant; Mrs C. Roberts, Ael y Bryn; Mrs M. Williams, Dwyfor. Talwyd y diolchiadau gan Miss Meirwen Roberts, Garnllwyd, Stâd Bryn Moelyn.

Diolchiadau: Dymuna Mr a Mrs Inigo Jones, Eilionwy, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu penblwydd priodas yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Gracie Thomas a theulu y diweddar W. Hugh Thomas, Gwenallt, ddiolch yn fawr iawn i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y rhoddion o £480 a fydd yn cael ei drosglwyddo i Gronfa Nyrsus Cymuned lleol.

Dymuna Eleri, Hywel a Llywela ddiolch i'r llu cymdogion a chyfeillion am eu datganiad o gydymdeimlad â ni yn ein profedigaeth o golli ein

DIOLCHGARWCH



Capel Pontrhythallt: Bore Sul, Hydref 20, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o Ddiolchgarwch. Roedd y gwasanaeth yng ngofal y tri dosbarth Ysgol Sul. Cymerwyd rhan gan Dion, Geraint a Meilir (dosbarth Mrs Gwenda Roberts); Awen, Nicola, Heledd a Gwion (dosbarth Mrs Mair Huws) a Cheryl, Delyth a Sarah (dosbarth Mrs Mair Humphreys). Ar ran yr Eglwys, diolchodd Mr Emrys Owen i'r plant a'u hathrawon am eu cyfraniad arbennig.

Bu Mrs Enid Whiteside Thomas a Mrs Megan Williams yn athrawon gweithgar a gwerthfawr iawn yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd lawer. Talwyd gair o werthfawrogiad diffuant iddynt am eu gwasanaeth amhrisiadwy.

mam, Mrs Grace Griffith, 17 Hafan Elan. Diolchwn hefyd am eu caredigrwydd a'u haelioni gyda rhoddion tuag at Hospis yn y Cartref, Llanrug. Yn arbennig diolchwn i Mrs Dilys Jones, Warden, Hafan Elan, am ei gofal a'i charedigrwydd tuag at mam tra roedd yn byw yn Hafan Elan.

Dymuna Mary a Richard ddiolch am bob cydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli eu mam annwyl, y ddiweddar Mrs Jennie E. Roberts, Gwyndy. Gwerthfawrogi y nifer sylweddol a fynychodd wasanaeth ei

Anfonwyd cofion cynhesaf at Mrs J. C. Williams, Bod Fair, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Maelor, Wrecsam. Bu Mrs Williams yn hynod o ffyddlon i holl wasanaethau'r Capel ond roedd hi bob amser yn mwynhau gwasanaethau'r plant. Braff iawn oedd meddwl ei bod wedi cofio amdanom ac wedi trefnu i roi blodau i harddu'r bwrdd ar gyfer y gwasanaeth arbennig hwn.

Yn dilyn cyfraniad y plant, cafwyd anerchiad gan y Parch. John Morris. Yr organyddes oedd Miss Amranwen Lynch.

Cyn mynd adref cafodd pawb gyfle i gael sgwrs bach tra'n mwynhau paned o de a sgons a baratowyd gan y plant a'u rhieni.

hangladd yn y Capel Mawr, Llanrug, a haelioni'r rhoddion er cof amdani. Casglwyd cyfanswm o £240 i'w rannu rhwng y Capel ac Uned Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont. Hefyd diolch am yr ymweliadau cyson a dderbyniodd Mrs Roberts yn ystod ei gwaelled maith, gartref ac yn yr ysbyty.

Ysgol Gynradd:


Dosbarth Derbyn: Bellach mae plant y dosbarth derbyn wedi hen setlo i lawr ac yn hapus iawn yn yr ysgol. Yn anffodus ni chafodd Mrs Nan Roberts ddychwelyd ar ddechrau'r tymor. Ond bellach mae hi wedi mendio'n ddigon da i allu dychwelyd

W. H. JONES

TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: Llanberis
871470

Cotractau Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwyr profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)
Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

ar ôl hanner tymor. Cydymdeimlwn â hi yn ei phrofedigaeth drist o golli ei thad yn ystod ei gwaeledd. Bu Mrs Sioned Jones o Fethel yma yn ei lle a diolchwn iddi am ei chyfraniad gwerthfawr tra bu hi gyda'r plant bach.

Croeso a Diolch: Croesawn Mrs Rhiannon Davies atom. Mae hi yng ngofal Safon 3 am gyfnod.

Rydym yn falch iawn fod Mrs Eirian Roberts wedi gwella yn ddigon da i ail ddechrau ar ôl y gwyliau. Diolch yn fawr i Mrs Caroline Jones am ei chymorth gyda Katie Lewis yn ystod ei habsenoldeb.

Mae Llinos Williams o Fethel a Simone Allsup o Gaernarfon wedi dechrau ar gynllun hyfforddi gyda'r Babanod. Gobeithio byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Ymweliadau: Cafwyd nifer o ymweliadau addysgol eisoes eleni. Bu Safon 1 ym Mharc Glynllifon a Safon 3 a 4 ym Mharc Gwledig Padarn fel man cychwyn ar eu gwaith ar y Chwarel.

Treuliodd Mr Emrys Owen, Hafan Elan, brynhawn yng nghwmni Safon 4. Cafwyd amser difyr iawn yn gwrando ar ei hanesion am ei waith yn y chwarel ac am ei oriau hamdden. Mae gennym gofnod gwerthfawr iawn o'i ymweliad — diolch i Mr Keith Roberts, Tan y Coed a wnaeth fideo campus ohono.

Bu Mrs Mai Davies, y gogyddes, ar gwrs datblygu sgiliau gweinyddol. Gobeithio ei bod wedi mwynhau'r gwaith a'r hyfforddiant.

Cafodd Safon 4 gyfle i fynd i Stiwdio Barcud i recordio rhaglen 'Sdwnsh' ar gyfer S4C. Cymerodd nifer o blant ran arni a gorfu i Mrs Mair Huws druan fynd i'r cawell i wynebu bwcedi o ddŵr oer. Darlledir y rhaglen o gwmpas y Nadolig.

'Y Plentyn Coll' oedd enw sioe arbennig a gyflwynwyd gan Gwmni Theatr y Sherman. Aeth plant Babanod Canol a Babanod Uchaf i weld y perfformiad yn Ysgol Maesincla. Yn ôl pob sôn roedd y sioe yn ardderchog a phob un o'r plant wedi eu swyno.

Chwaraeon: Ydy mae'r tymor pêl-droed a phêl-rwyd wedi ail ddechrau. Chwaraewyd dwy gêm eisoes. Croesawyd plant Ysgol y Gelli, Caernarfon atom a'r sgôr oedd: pêl-droed Gelli 5, Llanrug 3; pêl-rwyd Gelli 3, Llanrug 12. Yna bu'r timau draw yn Ysgol Dolbadarn, Llanberis, lle cawsant groeso cynnes ar ddiwmod oer dychrynlyd. Ond buont yn ffodus: pêl-droed Dolbadarn 4, Llanrug 5; pêl-rwyd Dolbadarn 4, Llanrug 17.

Yr Urdd: Cafwyd dau gyfarfod eisoes y tymor hwn. Trefnodd Mrs Gwenda Roberts a Mrs Pamela Roberts Helfa Drysor i'r plant o gwmpas adeilad yr ysgol. Diolch yn fawr i'r ddwy ohonynt ac i Mrs Gwenifer Roberts a Mrs Mair Huws am eu helpu. Yna cafodd y plant noson o chwaraeon yn y gampfa lle cawsant lawer o hwyl. Miss Amrannwen Lynch, Mrs Sioned Jones, Mrs Rhian Jones a Mrs Florence Roberts oedd yng ngofal y noson hon.

Diolch yn fawr i rai o blant Safon 4 a fu o gwmpas y pentref yn casglu tuag at yr Urdd. Diolch i bentrefwyr Llanrug am eu haelioni arferol.

Eisteddfod Pentref: Llongyfarchiadau i bawb o'r ysgol a fu'n cystadlu yn yr eisteddfod eleni a da iawn bawb a ddaeth adref gyda gwobr.

Diolchgarwch: Bore Gwener olaf yr hanner tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig o

Ddiolchgarwch yn yr ysgol. Cafwyd eitem gan bob dosbarth. Eleni aeth y casgliad ariannol i fudiad Dr Barnado yng Nghymru. Roedd Miss Nia Jones, trefnydd y mudiad, yn bresennol a rhoddodd air o ddiolch am gyfraniad y plant yn y gwasanaeth ynghyd â haelioni pentrefwyr Llanrug tuag at Dr Barnado.

Eisteddfod Bentref Llanrug: Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar nos Wener, Hydref 11 yn Ysgol Uwchradd Brynrefail. Y beirniad oedd — cerdd a cherdd dant: Einir Wyn Williams; adrodd, barddoniaeth a rhyddiaith: Alwyn a Jean Fleming; gosod blodau, coginio a thecstilau: Linda Hughes; arlunio a thri dimensiwn: Meinir Williams; ffotograffiaeth: Islwyn Jones; dawn: Ed ac Owenna Elias. Y cyfeilydd oedd Huw Alan Roberts.

Dyma'r canlyniadau — **Unawd dosbarth derbyn:** 1, Natalie. **Adrodd dosbarth derbyn:** 1, Natalie; 2, Aaron/Ceri; 3, Daniel. **Unawd cyn oedran ysgol:** 1, Debbie a Manon; 2, Sarah Roberts; 3, Emma Williams/Iwan. **Adrodd cyn oedran ysgol:** 1, Sarah Angharad; 2, Heather, Emma, Debbie, Manon, Robert, Iwan; 3, Jane, Emma Smith, Sarah, Meilyr, Rachel, Ifan, Laura. **Unawd babanod canol ac uchaf:** 1, Geraint; 2, Gemma. **Adrodd babanod canol ac uchaf:** 1, Iwan; 2, Gemma/Geraint. **Unawd Safon 1 a 2:** 1, Sian; 2, Elin; 3, Ellen/Karen; 4, Christopher. **Adrodd Safon 1 a 2:** 1, Elin; 2, Meleri; 3, Sian. **Unawd piano Safon 1 a 2:** 1, Sian/Elin. **Adrodd Safon 3 a 4:** 1, Emma; 2, Michelle/Gwion; 3, Awen/Dafydd. **Unawd ar unrhyw offeryn pres i oedran ysgol gynradd:** 1, Gwion; 2, Gareth. **Unawd Safon 3 a 4:** 1, Kelly; 2, Iona; 3, Karen/Emma/Dafydd. **Parti dawn: werin i oedran ysgol gynradd:** 1, Troedwyr Tal y Bont; 2, Dawnsuwr y Moelyn. **Unawd Cerdd Dant:** 1, Llyr; 2, Elen. **Unawd piano Safon 3 a 4:** 1, Iona; 2, Emma; 3, Kelly. **Cyflwyniad Llafar:** 1, Plantos Tal y Bont; 2, Iona a Kelly; 3, Eryl a Dafydd. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw pres a phiano:** Cynradd — 1, Sian; 2, Sarah; 3, Louise; Uwchradd — 1, Nia; 2, Llyr. **Parti Unsain:** 1, Parti Safon 3; 2, Parti Justine / Parti Eifion / Parti Bach. **Dawns Fodern:** 1, Sophie. **Unawd:** 1, Llyr; 2, Elen. **Grŵp Offerynnol:** 1, Grŵp Di-enw; 2, Terry's All Gold. **Siarad Cyhoeddus:** 1, Catrin. **Unawd ar unrhyw offeryn pres:** 1, Mark / Dilwyn. **Dawns Werin unigol:** Cynradd — 1, Elin; Uwchradd — 1, Catrin. **Cân Werin:** Uwchradd — 1, Sophie; Agored — 1, Rolant. **Unawd Piano:** 1, Siwan; 2, Beverley; 3, Iuan a Rhian. **Cyflwyniad Llafar Digrif:** 1, Y sgets/Catrin. **Unawd ar unrhyw offeryn heblaw pres a phiano:** 1, Frank. **Cyflwyniad Cerddorol Lleisiol:** 1, Y Genod; 2, Delyth ac Elen. **Dawns Werin i Barti:** 1, Parti rhoi cyfle i'r lleill ennill eleni; 2, Parti Arfon/Parti'r Dysgwyr; 3, 'Miscue'.

Tlws yr Ifanc: Nia Griffiths.

Cadair yr Eisteddfod: Mr Robert Williams.

Cwpan Lowri: Geraint Iwan

Cwpan Emma Bernard: Iwan Rhys Owen.

CELF A CHREFFT. Gwnio — **Babanod canol ac uchaf:** 1, Gemma Victoria Bourne; 2, Iwan Rhys Williams. **Safon 1 a 2:** 1, Meleri Mair Griffith; 2, Karen Ann Jones; 3, Christopher Nathan Day. **Safon 3 a 4:** 1, Gareth Lloyd Davies; 2, Michelle



Louise Roberts; 3, Emma Lloyd Davies. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Rhian Green; 2, Iuan Green; 3, Sioned Mair Jones. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Nicola Gibbins. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Donna Roberts. **Agored:** 1, Anne Gibbins; 2, Bethanne Williams; 3, Bethanne Williams. **Gwau, Crosio neu Gwehyddu / Tecstilau — Oed Ysgol Gynradd:** 1, Michelle Louise Roberts; 2, John Jones; 3, Emma Davies / Liza Ann Jones. **Oed Ysgol Uwchradd:** 1, Nicola Gibbins; 2, Jacky Gibbins. **Agored:** 1, Anne Gibbins; 2, Eirianwen Thomas; 3, Sally Lloyd Davies. **Tri Dimensiwn — Babanod canol ac uchaf:** 1, Sion Emyr; 2, Dion Sion Owen; 3, Iwan Rhys Williams. **Safon 1 a 2:** 1, Hefin Roberts; 2, Meleri Mair Griffith; 3, Christopher Nathan Day. **Safon 3 a 4:** 1, Ceri A. Jones; 2, Gareth Lloyd Davies; 3, Emma Lloyd Davies. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Jacky Gibbins / Gwennan Mair Humphreys. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Nicola Gibbins. **Coginio — Babanod canol ac uchaf:** 1, Dion Sion Owen; 2, Gareth Roberts; 3, Geraint Iwan. **Safon 1 a 2:** 1, Hefin Roberts; 2, Iwan Parry Jones; 3, Elin Dafydd. **Safon 3 a 4:** 1, Emma Lloyd Davies; 2, Michelle Louise Roberts; 3, Gareth Lloyd Davies. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Delyth Humphreys; 2, Dawn Pritchard; **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Donna Roberts. **Agored Merched:** 1, D. Evans; 2, Sally Lloyd Davies; 3, Nan Humphreys / Donna Roberts. **Agored Dynion:** 1, R. Evans. **Jam — Agored:** 1 a 2, Eirianwen Thomas; 3, Julie Jones. **Chutney — Agored:** 1, Eirianwen Thomas; 2, Donna Roberts; 3, Eirianwen Thomas / Donna Roberts. **Gwin:** 1, 2, a 3, Bethanne Williams. **Gosod blodau:** 1, Sarah Thomas; 2, Sally Lloyd Davies. **Arlunio — Ysgol Feithrin:** 1, Janis Roberts; 2, Sophie Gordon; 3, Gareth Eifion Jones. **Dosbarth derbyn:** 1, Natalie Elisha Blanchard; 2, Celfyn Edwards; 3, Ceri Meredydd Williams / Daniel Jones. **Babanod canol ac uchaf:** 1, Dion Sion Owen; 2, Gemma Victoria Bourne / Sion Emyr; 3, Gareth Roberts. **Safon 1 a 2:** 1, Guto Humphreys; 2, Iolo Roberts; 3, Meleri

Mair Griffith. **Safon 3 a 4:** 1, Gareth Lloyd Davies; 2, Iona Williams; 3, Meilyr Jones / Eifion Jones. **Blwyddyn 1 a 2:** 1, Dawn Pritchard; 2, Cheryl Edwards; 3, Gareth Roberts. **Blwyddyn 3 a 4:** 1, Iwan Rhys Owen; 2, Mathew Wyn Williams. **Blwyddyn 5 a 6:** 1, Donna Roberts. **Ffotograffiaeth — Oedran Ysgol Gynradd:** 1, Elin Dafydd; 2, Geraint Iwan; 3, Hefin Roberts / Michelle Roberts. **Oedran Ysgol Uwchradd:** 1 a 2, Donna Roberts; 3, Delyth Humphreys. **Agored:** 1, John Owen; 2, Sion Humphreys; 3, John Owen / Sion Humphreys.

Llenyddiaeth — Rhyddiaith Safon 1 a 2: 1, Sian Green; 2, Elin Dafydd; 3, Meleri Griffith / Hefin Roberts. **Barddoniaeth Safon 1 a 2:** 1, Elin Dafydd; 2, Christopher Day. **Rhyddiaith Safon 3 a 4:** 1, Kelly Roberts; 2, Meilyr Jones / Emma Davies; 3, Iona Williams. **Barddoniaeth Safon 3 a 4:** 1, Michelle Roberts; 2, Kelly Roberts; 3, Iona Williams. **Rhyddiaith Bl. 1 a 2:** 1, Delyth Humphreys; 2, Rhian Green; 3, Sioned Mair Jones. **Barddoniaeth Bl. 1 a 2:** 1, Delyth Humphreys. **Rhyddiaith Bl. 3 a 4:** 1, Dylan Lloyd Jones / Llyr Sion Roberts; 2, Cerys Parry; 3, Siwan Humphreys. **Rhyddiaith Bl. 5 a 6:** 1, Nia Griffiths; 2, Catrin Thomas; 3, Nia Gwawr / Donna Roberts. **Barddoniaeth Bl. 5 a 6:** 1, Catrin Thomas; 2, Nia Gwawr. **Englyn Ysgafn:** 1, Dafydd W. Thomas; 2, Robin Williams; **Gwaith creadigol:** 1, Dylan Ll. Jones / Donna Roberts. **Erthygl ffeithiol:** 1, Mr Robert Williams. **Limerig:** 1, Mair Huws; 2, Gwenda Roberts; 3, Dafydd W. Thomas. **Parodi:** 1, Mair Huws; 2, Frank Green. **Brawddeg:** 1 a 2, Gwenda Roberts; 3, Frank Green. **Dros 60:** 1, Mr Robert Williams; 2, Mrs Enid W. Thomas. **Llinell goll:** 1, Mair Humphreys.

Enillwyd y raffl gan Gladwen.

Dymuna pwyllgor yr Eisteddfod ddioch i bawb am eu cefnogaeth. Bydd cyfarfod blynyddol yr Eisteddfod ar nos Fercher, 6 Tachwedd 1991, am 7 p.m. yng Nghapel Pontrhythallt. Croeso cynnes i bawb.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn:

Caernarfon

5754

FIDEO
FIDEO
FIDEO

Gwasanaeth Fideo
Proffeslynol

JOHN BLIGHT

LLANBERIS

872209

Priodasau a phob
achlysur arbennig arall
Hefyd Ffilmiau Hyfforddi
a Gwasanaeth newid
CINE I FIDEO

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491



Mr Michael Vincent Owen, 10 Maes Derlwyn, Llanberis, a Miss Siân Mari Thomas, Awel-y-Grug, Rhosbodruall, Caernarfon, a briodwyd yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon, yn ddiweddar.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn. Enillwyr y clwb 1/10/91 yw — £35: Mrs Eirian Oen, 7 Bedd Gwenan, Llandwrog (134); £20: Mrs Gwyneth Pritchard, 56 Dôl Elidir, Llanberis (077); £15: Mr Gareth Jones, 27 Dôl Elidir, Llanberis (173); £10: Mrs Helen Morris, Ffordd Capel Coch, Llanberis (157); £5: Mr O. G. Griffiths, 2 Bro Glyder, Nant Peris (105).

Diolch: Dymuna Mrs Maria Pritchard, 4 Rhes y Faenol, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau i gyd am y llu anrhegion, cardiau a blodau a dderbyniodd ar ei phenblwydd yn

80 oed. Diolch yn fawr.

Clwb Eryri: Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor o Glwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd ar nos Wener, 4 Hydref. Llywydd y noson oedd y Parchg Gwynfor Williams a chafwyd anerchiad ddifyr iawn am bentref Llanberis yn y cyfnod cyn, ac ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, gan Mr Selyf N. Hughes. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr un fangre o dan lywyddiaeth Mr Cledwyn Williams gyda Mr Brython Jones yn annerch. Croeso cynnes i'r holl aelodau.

Cymdeithas Eglwys St. Padarn a St. Peris: Dechreuwyd gweithgareddau'r flwyddyn nos lau, Medi 5, yn Eglwys St. Padarn, pan anerchwyd y Gymdeithas gan Mr Ralph D. Jones, Lerpwl, ar ei waith ym Mheriwr. Cymerwyd y rhan ddefosiynol gan Mrs A. Parry-Jones, y cadeirydd. Y gwestwragedd oedd Mrs Hilda Williams a Mrs Olwen Roberts. Yng nghyfarfod mis Hydref croesawyd Dr Ken Hardy, Bangor, a siaradodd am ei waith fel meddyg, a dangosodd sleidiau diddorol o'r teulu ac America. Mrs Nancy Jones gymerodd y rhan ddefosiynol a Mrs Betty Williams a Miss Kathleen Pritchard oedd y gwestwragedd.

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Erw Wen.
Ffôn: C'fon. 3536

Dyfodol y Cae Chwarae: Bydd cyfarfod cyhoeddus yn y llofa, Tafarn Bryngwna am 7.30 os Fercher, 30 Hydref, er mwyn ceisio ail-sefydlu pwyllgor y cae chwarae. Am nifer o resymau does dim pwyllgor yn bodoli bellach. Felly, os na sefydlir pwyllgor newydd ar y noson uchod ni fydd rheolaeth dros y cae chwarae a gwelir nifer o ddigwyddiadau blynyddol yn dod i ben.

Cyngor Cymuned: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor nos Lun, 16 Medi. Mae gweithlu'r Cyngor Sir wedi cwblhau gwaith rhagorol ar lwybr Prysgol ar ôl y gwaith isafonol blaenorol. Mae sedd wag dros Ward Ceathro a hyd, a heb gynrychiolaeth lawn o 2 aelod mae'n amhosibl sicrhau chwarae teg i'r pentref yn ystod cyfarfodydd misol y Cyngor yn absenoldeb yr aelod arall, Mr Clive James, Hafan. Penderfynwyd talu £55 am dorri'r

gwair a thyfiant arall ar hyd y llwybr cyhoeddus rhwng Plas Treflan a Phenrhos. Gobeithir y bydd y llwybr yn cael ei glirio yn aml yn y flwyddyn nesaf a sicrhau camfeydd a giatau priodol ar hyd y llwybr. Ar gais y Cyngor bydd y Cyngor Sir yn trwsio'r bont rhwng y capel a'r garej. Mae Cyngor Bwrdeistref Arfon wedi cytuno ar yr enw 'Stâd Glandwr' i'r tai newydd ger Glangwna. Gofynnir i berchnogion cŵn beidio â thorri'r gyfraith a gadael i'w cŵn faethu'r palmentydd. Bydd Antur Waunfawr yn trwsio sedd y sgwâr a'i hail beintio yn ystod y gaeaf.

Llongyfarchiadau i Sharon Griffiths, Delfryn, ar ei phenblwydd yn 21ain yn ddiweddar i Margaret a Gomer Lovell, Drws-y-Coed, Erw Wen, ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach i Siân a Steven. **Gwasanaethau'r Capel:** Patrwm y gwasanaethau yn ystod mis Tachwedd (am 2 y prynhawn) fydd — 3: Dim oedfa; 10: Parch. Eric Jones; 17: Parch Llew Madog Jones; 24: Y Gweinidog, Parch W. R. Williams. Croeso i bawb ymuno mewn addoliad Cristionogol.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir i'r canlynol bregethu yng Nghapel y Pentref am 2 o'r gloch prynhawn Sul. Tach. 3ydd: Dim oedfa

Tach. 10fed: Parch Eric Jones
Tach. 17eg: Parch Llew Madog Jones
Tach. 24ain: Y Gweinidog, Parch W. R. Williams. Croeso i bawb.

Dyfodol y Cae Chwarae Cynhelir cyfarfod ym mar y llofa, Tafarn Bryngwna am 7.30 y.h. nos Fercher, Hydref 30ain er mwyn ceisio ail sefydlu Pwyllgor y Cae Chwarae. Heb gefnogaeth brwd i'r cyfarfod ni fydd cae chwarae, coeden Nadolig, canu carolau, parti Nadolig y plant, nwyddau Nadolig am ddim i'r pensiynwyr, a.y.y.b. Gan fod yr hen bwyllgor wedi peidio â bod am nifer o reymau, a fydd y digwyddiadau uchod yn diflannu, fel bu hanes y carnifal, gemau giamocs a chinio Nadolig y pentref?

GWOBRAU GARDADIO



Gwynfor Williams, Cadeirydd y Cyngor Cymuned yn cyflwyno Cwpan i'r buddugwyr yn y Gystadleuaeth Arddio i Oliver Edwards, Maes Padarn. Yn y llun hefyd y mae Karen Roberts a Sheila Foulkes sy'n cynrychioli rhai o'r enillwyr eraill. Yn ail oedd Mr P. B. Jones, Dol Elidir a'r trydydd oedd Mrs June Ward, Maes Padarn.

Dysgu yn Brwnei

Chwi gofiwch ychydig fisoedd yn ôl inni gyhoeddi hanesyn am Delyth Parry, yr athrawes ifanc o Lanberis, oedd yn paratoi ar gyfer mynd i ddysgu i Brwnei yn Ne Ddwyrain Asia.

Rydym yn falch o ddeall fod Delyth wedi cyrraedd yn ddiogel a'i bod yn dechrau ymgynffwrdd â'i hamgylchfyd newydd.

Rydym yn hynod ddiolchgar iddi am neilltuo amser i ysgrifennu ei hargraffiadau o Frwnei, a'i hynt a'i helynt hi ei hun — ac am fod mor barod i'w rhannu â ni, ddarllenwyr Eco'r Wyddfa. Felly, dyma gyhoeddi y gyntaf o nifer, gobeithio, o erthyglau dyddiadurol Delyth.

Wel, dau fis union i heddiw, sef Awst 24, y cychwynais ar fy nhaith i ben draw'r byd. Do, 'dwi wedi cyrraedd yn saff ac wedi gweld a gwneud llawer i beth yn ystod y 31 diwrnod diwethaf.

Cyrraedd Singapore pnawn Sul a chael deuddydd yno cyn ail gychwyn, a chyrraedd prif ddinas Brunei ar bnawn Mawrth.

Wrth gwrs, allan o'r saith ohonom, pwy oedd yn rhaid agor ei bagiau i'r dynion cystems? Ia, fi! Pwy oedd wedi gorlwytho ei chês o 15kg? Fi eto!!

Siwrna o awr a hanner mewn car cyn cyrraedd fy nghartref-dros-dro, sef y 'guest house' yma ym Mhanaga. A eth oedd yn ei hwynebu reit dros y ffordd? — Yr ysgoll!

Tywydd crasboeth, pryfaid filoedd, stormydd lliwgar a swllyd — dyna'r ti pheth â'm trawodd gyntaf am y lle 'ma.

Beth arall? Wel, y broblem be' i'w wisgo, gan fod y merched lleol yn llythrennol dim ond yn dangos eu dwylo a'u hwynebau. Erbyn hyn dwi'n meiddio dangos darn o'r penguin ond does dim gobaith i'r 'sgwyddau weld gola' dydd!

Erbyn hyn dwi wedi symud o'r 'guest house' ac yn codi am saith y bore. Rydym ni athrawon yn ffodus gan nad yw'r ysgol yn dechrau tan 7.45 a.m.!

Dwi wedi cael fy mhigo yn dylla byw gan y pryfaid bondigrybwyll sydd yma, ac mae'r cocotis yn werth

eu gweld. Roedd gen i ddau bry cop yn fy stafell wely echnos — un yn y gwely ac un ANFERTH ar y bwrdd. Dwi am ddod ag un ohonynt yn anrheg Nadolig i Rhiannon Stryd Newton!

Bûm mewn storm enbyd y dydd o'r blaen. Sôn am storm. Roedd y glaw yn dod i lawr fel tywallt dŵr o fwced. Agorodd yr awyr yn llythrennol felly nes oedd fy nghar a finnau wedi ein hamgylchynnu gan lyn mawr o ddŵr mewn ychydig funudau. Hefyd maluriwyd olwyn ôl y car gan feliten.

Cefais benwythnos ddiddorol iawn wythnos yn ôl yn Sarawak. Gwlad arall drws nesaf i Brunei yw Sarawak ac 'roedd rhaid croesi dwy afon i fynd yno. Gwelais amryw o grocs yno, a choeliwch fi maent yn fawr ac yn hyll, llawer mwy na'r cenna goed yng Nghymru!


Dwi wedi ymuno â Jazz Band (Dixie Band) felly mae'r Clarinet yn cael gweld golau dydd unwaith eto. Mae gweddill aelodau'r band mor wych fel bod yn rhaid i mi ymarfer llawer i gadw i fyny efo nhw. Ond dyna fo, mae'n rhoi sialens newydd i mi a chyfle hefyd fod hogan o Lanber, ym mro'r Eco, yn gallu sefyll ochr yn ochr ag unrhyw un yn y byd.

Mae gen i noson agored i rieni yn yr ysgol nos 'fory, felly, gwell i mi fynd ti i baratoi, ac i lyncu y Concise Collins Dictionary ymlaen llaw!

Tan tro nesa — hwyl.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

MEDWEN

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Ffoniwch **871213** i drefnu amser

Dyddiadur y Mis

TACHWEDD

1 Gwener. Llanberis a'r Ardal: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd. **Deiniolen:** Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

2 Sadwrn. Waunfawr a'r Cylch: Plaid Cymru — Twmpath Dawns yng Nglan Gwna, Caeathro.

4 Llun. Llanrug: Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail. **Deiniolen:** Sefydliad y Merched.

3 Mawrth. Deiniolen: Undeb y Mamau, 7.00. Yr Ysgol Feithrin yn trefnu Tân Gwylt, 6.30.

Penisarwaun: Gyrfa Chwist Elusenol yng Ngwesty Fictoria, 7.30. **Waunfawr:** Yr Urdd — Noson Tân Gwylt, 6.00. **Cymdeithas Wyddonol Gwynedd:** Darlith yn Narlithfa'r Adran Amaethyddiaeth, Coleg y Brifysgol, Bangor, 7.30.

6 Mercher. Llanrug: Capel Mawr — Cymdeithas Lenyddol, 7.00. Cyfarfod Blynnyddol yr Eisteddfod Bentref, ym Mhontrhythallt, 7.00

Penisarwaun: Adran Bentref yr Urdd. **Llanrug a'r Ardal:** Antur Padarn yn y Sefydliad Coffa, 7.00. **7 Iau. Llanrug:** Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail. **Ysgol Brynrefail:** Eisteddfod yr Ysgol.

8 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. Undeb y Mamau — Noson Goffi yn Neuadd Ysgol Gwaungynfi, 6.30.

9 Sadwrn. Penisarwaun: Yr Ysgol Feithrin — Stondin Cacennau ar y Maes, Caernarfon.

11 Llun. Llanrug: Clwb Ieuencid

yn Ysgol Brynrefail. **Waunfawr:** Y Gymdeithas Lenyddol.

12 Mawrth. Llanrug: Merched y Wawr — Arddangosfa Coginio, gan Mrs A. Hughes.

13 Mercher. Llanrug: Capel Mawr — Y Gymdeithas Lenyddol, 7.00. **Waunfawr:** Yr Urdd yn y Ganolfan, 6.00.

14 Iau. Llanrug: Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail.

15 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band.

16 Sadwrn. Llanrug: Y Band — Ffair Sborion.

18 Llun. Llanrug: Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail.

19 Mawrth. Llanrug: Cymdeithas Undebol yn Festri Pontrhythallt.

Penisarwaun: Adran Bentref yr Urdd.

21 Iau. Llanrug: Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail.

22 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

25 Llun. Llanrug: Tombola yn Ystafell y Band. Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail.

26 Mawrth. Penisarwaun: Adran Bentref yr Urdd.

27 Mercher. Llanrug: Capel Mawr — Y Gymdeithas Lenyddol, 'Hawl i Holi', 7.00.

28 Iau. Llanrug: Clwb Ieuencid yn Ysgol Brynrefail.

29 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00. Plaid Cymru — Ffair Nadolig, 7.00.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Be' da' chi'n feddwl? Oes gennych chi awgrym arall? Oes 'na rywun allan fan'na fuasai'n barod i helpu fel Golygydd am ddau rifyn y flwyddyn?

Yr hyn y mae criw'r *Eco* ei angen yw gwaed newydd — pobl sy'n barod i roi ychydig oriau bob mis fel rhan o dîm yr *Eco* — cyn lleied a dwy neu dair awr y mis mewn rhai swyddi. 'Does dim rhaid cael sgiliau arbennig — mae yna job i bawb ar yr *Eco*. Brwdfrydedd ydy'r cymhwyster pwysicaf.


Dewch, plis, i'r cyfarfod ar **Dachwedd 8fed, yn Ysgol Brynrefail.** Dewch â'ch cefnogaeth, dewch â'ch syniadau ac, os oes modd, dewch ag adduned i roi ychydig oriau bob mis er mwyn i *Eco*'r *Wyddfa* gyflawni ei botensial fel un o bapurau a mudiadau bro gorau Cymru.

R. John Roberts

Trefnydd Hysbysebion

ac un o sefydlwyr Eco'r Wyddfa

CROESAIR TACHWEDD



AR DRAWS

1. Bwyta hwn am wallt cyrllog (7)
5. Dau ben y rhaff yn uno (5)
7. Nodi digwyddiadau heddiw, ddoe ... (7)
8. Crempog y de (5)
10. Synnwyr hwn yn ddihafal (4)
11. Dau fis 'Em' (3,1,4)
13. O'r geni hyd heddiw (6)
14. Efa cyn yr afal (3,1,2)
17. Gwlad Ewropeaidd (8)
19. Blewiach dynol (4)
21. Yn rhoi boddhâd (5)
22. Aderyn 'wen' neu 'lwyd' (1,6)
23. Y Bysus neu Geirionydd (5)
24. 'Dim ond — ar y tro y cei chwarae ag ef' (2,5)

I LAWR

2. Prysor iawn (2,5)
3. Gwybodaeth ar gam (4)
4. Coleg cyffredin hwyrach (6)
6. Y bach yw'r wawr (1,4)
7. Ni welodd lawer hyd yn hyn (9)
8. Diangodd oddiyno (6)
9. Bocs dal baw y Cyngor — o Ddeiniolen (4,5)
12. Eira'n toddi (6)
15. Methu gwneud (7)
16. Dweud y drefn (6)
18. Taclau saethu neu frifo (5)
20. Gorffen o flaen y llall (4)

Atebion Mis Hydref



Enillydd

Naw ymgeisydd — ond pedwar yn unig yn hollol gywir. Cystadlu am wobriannol — ond "brenin yr aur" (7 i lawr) yn eich gadael i lawr! **MIDAS** oedd yn gywir. Dyna pam yr aeth "Elyrch Brwd" (21 ar draws) — yr ateb cywir, yn "Elyrch prin" — yr ateb anghywir. Mwy o bwyll y tro nesaf!

Enillydd y mis hwn yw: Iris Williams, Caerbleddyn, Penisarwaun.

Rhag Hysbysiad Plaid Cymru Llanrug FFAIR NADOLIG yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Rhagfyr 4ydd. Ymweliad gan Siôn Corn, Stondinau, Gemau a Raffl. Croeso i Bawb.

SIOP
Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN GARDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CHWARAEON

Y Belt Du cyntaf i'r ardal

Yn ystod y misoedd a aeth heibio cyhoeddwyd nifer o adroddiadau am lwyddiant Clwb Karate Llanrug. Y mis hwn, tro Gareth Edwards, hyfforddwr gyda'r Clwb yw hi, oherwydd ar ddechrau Hydref enillodd Felt Du y Dan Cyntaf. Ef yw'r person cyntaf o'r ardal hon i gyrraedd y safon hwn. Prif hyfforddwyr Cymdeithas Karate fwyaf gogledd Cymru oedd yn ei feirniadu yn y gamp, sef John Lynn (Pumed Dan) a Kevin Siddall (Pedwerydd Dan).

Bu'n rhaid gohirio'r profion am dros wythnos oherwydd i Gareth gracio esgryn yn ei droed ar gwr hyfforddwyr yn gynharach ym mis Medi, ac felly, roedd ei gamp gymaint a hynny'n anos yng Nghanolfan y Kokoro Shukokai — y Dojo — yn y Rhyl. Yn rhyfeddol, enillodd Gareth farciau uchel iawn yn yr adrannau padiau a kata — dwy gamp sy'n dibynnu'n helaeth iawn ar waith gyda'r traed.

Coeliwch neu beidio, ond roedd yr holl brawf yn cynnwys 46 o wahanol adrannau, gan ddiweddu â chyfres o chwech ymladdfa! Ac yn yr ymladdfa gyntaf bu Gareth yn ddigon anlwcus i dorri asgwrn ei drwyn! Ond roedd yn ddigon dewr i frwydro 'mlaen am y pump arall a llawn haeddu ei Felt Du.

Mae'r holl baratoi wedi golygu gwaith caled iawn iddo, yn cynnwys ymarfer bedair neu bum gwaith bob wythnos am y pedair blynedd ddiwethaf. Yn ychwanegol i hyn, sefydlodd Glwb Llanrug a'u harwain i ddod yn Brif Glwb Gogledd Cymru o fewn 12 mis i'w ffurfio. Bellach



Sensei Kevin Siddall, Pedwerydd Dan, a hyfforddwr Gareth yn ei longyfarch ar ei lwyddiant.

mae wedi helpu i sefydlu clwb yn y Felinheli ac yn y Bontnewydd. Mae'r aelodau eiddgar a brwdrfydig yn cael y siawns i ymarfer mewn tri lle gwahanol bob wythnos erbyn hyn. Bu Gareth yn trafod ei grefft a'i lwyddiant yn ddiweddar ar Raglen Hywel Gwynfryn.



Gareth Edwards yn cael ei longyfarch ar ei lwyddiant gan aelodau Clwb Llanrug. Cyflwynwyd tancard iddo gan ei hyfforddwr a

hefyd gan Glwb Llanrug. Yn y llun (o'r chwith i'r dde): Clifford Williams, Kevin Siddall, Gareth Edwards a Meriel Wood.

Herio Clwyd mewn Judo

Yn gynharach ym mis Hydref, cynhaliwyd cystadleuaeth Judo ym Mharc Eirias, Bae Colwyn, gan ddilynwyd y gamp yng Nglwyd. Estynnwyd gwahoddiad i rai o Wynedd i gymryd rhan, a daeth nifer o ieuenctid y fro oddi yno wedi cipio gwobrau. Yn eu plith roedd dwy chwaer o Fethel — Anwen Salisbury, a enillodd fedal aur; a Nia Salisbury, a gipiodd y fedal arian. Roedd dau fachgen o Lanrug ymhlith yr enillwyr hefyd, sef Cenwyn Jones, a enillodd y fedal bres; a Mathew Williams, yntau hefyd yn ennill medal bres. Llongyfarchiadau iddynt i gyd.

Anwen a Nia Salisbury o Fethel yn dangos y tystysgrifau a'r tlysau a enillwyd ganddynt yn ddiweddar.



PYSGOTA

Adroddiad H. P. HUGHES

Yn ystod deg niwrnod ola'r tymor fe ddaeth y glaw y bu pwb yn erfyn amdano, ond yn anffodus ni lwyddodd y dŵr ychwanegol i ddennu'r eogiaid i redeg afonydd, yn enwedig felly y Seiont. 'Does dim os nac onibai nad oes rhywbeth o'i le ar y tymhorau. Ym misoedd yr haf fe welir eogiaid gloyw hyd at 10 pwys yn rhedeg, ac o ganol mis Medi hyd at ddiwedd y tymor fe ddisgwyliid pysgod trymach gyda gwawr goch yn eu lliw — gorchudd naturiol yn cyd-fynd â lliwiau'r tymor — ni welwyd coch y dail eleni!

Y 'sgotwyr fu fwyaf llwyddiannus yn Llanrug, gan fachu pysg oddeutu 6 phwys yr un oedd Goronwy Morris, Gwyn Jones, Alan Roberts ac Islwyn Jones. Fe ddaliodd Stephen Carr 'sgodyn deuddeg pwys yn yr un lle.

Yng nghyffiniau Crawia fe ddaliwyd rhai 9 pwys gan Aled Evans a Cecil Hope o Gaernarfon, ac un 10 pwys gan Gwynfor Jones o Fethel. Yn ardal Cwm-y-Glo cafodd Howard Jones ddau tua 6 phwys a Maurice Jones un pedwar pwys.

Fe ddaliwyd nifer hefyd yn ardal Pontrug a Glan Gwna gan Vyrnwy Evans, Malcolm Owen a Tony Brown ymysg eraill (caf wybod 'rwy'n siŵr gan y rhai na enwyd!)

Mae'r rhai ohonoch sy'n arfer 'sgota yng Nghrawia yn gyfarwydd 'rwy'n siŵr â'r mul bach sy'n pori'r caeau yno. I'r rhai sydd ddim mor gyfarwydd, mae hwn yn greadur hoffus dros ben, a bydd llawer un yn dod â thamaid bach blasus iddo pan yn ymweld â'r afon. Mae rhai yn mynd cyn belled â dweud fod yr hen ful yn gwybod yn iawn os oes eog yn gorwedd yn yr afon, ac ei fod yn datgelu'r union fan i'r rhai diwylliedig!! Fe adroddir i 'sgotwr brwd o Pentre Verw gymeryd ei gyfarwyddo ganddo a rhoi ei bluen yn syth o dan drwyn 'sgodyn deg pwys braf.

Yr hyn sy'n rhoi pryder i ni ydi'r ffaith fod prifathro, eto o Fôn, yn dweud ei fod am wneud pethau erchyll i'r hen ful os na fydd yn datgelu ei gyfrinachau iddo yntau hefyd. Wel, rhen El, tria roi ychydig o betha' melys i'r hen fôl yn lle'i sgloffio nhw i gyd dy hun!

Rhyw ychydig o newyddion da cyn cloi. Mae'n ymddangos fod yr Awdurod Afonydd wedi gwrandao ar synnwyr cyffredin o'r diwedd ac o ganlyniad bydd pris trwydded 'sgota Eog yn gostwng y tymor nesaf o'r £37 presennol i £12.50.

Bydd noson wobrwyo'r Gymdeithas yn cael ei chynnal yng Ngwersyll Glan Gwna, nos Sadwrn, Rhagfyr 7fed, gyda Dafydd Iwan a'i Fand yn ein diddori. Pris tocyn yw £6 a hynny'n cynnwys pryd o fwyd.

Chwaraeon Ysgol Brynrefail

Gweithgareddau awyr agored

Bellach mae nifer o ddisgyblion y 4ydd flwyddyn yn ymgymryd â gweithgareddau awyr agored bob nos Lun rhwng 4 a 7 o'r gloch, dan ofal Mr Huw Walton, Brynrefail. Pob pnaun dydd Mawrth, rhwng 1 a 4 o'r gloch mae rhai o ddisgyblion yr ail flwyddyn yn mynd ato am hyfforddiant.

Timau'r Ysgol

Bu timau pêl-droed, pêl-rwyd a hoci'r ysgol yn brysur iawn yn ddiweddar gan brofi peth llwyddiant yn erbyn Dyffryn Nantlle, Dyffryn Ogwen ac Ysgol Ffariars.

Bu tîm pêl-droed y 5ed flwyddyn yn hynod o anlwcus gan golli o 8 gôl i 7 yng Nghwpan Bryn Davies yn erbyn Ffariars, ar ôl gêm gyfartal, ac yna ciciau cosb ar ôl amser ychwanegol.

Sêr y mis, yn ddiau oedd y bechgyn hŷn. Fe lwyddodd eu tîm hwy i drechu Coleg Technegol Bangor o dair gôl i ddwy yng Nghwpan Ifor Tuck. Y Tec yn ddeiliaid y cwpan, ac fe ymgiprys amdani drwy Gymru gyfan.

Pêl-droed

Dewiswyd Gavin Allen o Ddeiniolen i chwarae dros dîm dan 18 oed Ysgolion Gogledd Cymru yn erbyn tîm Ysgolion y Canolbarth yn Wrecsam, ar Hydref 16ain, ac yna yn erbyn Ysgolion y De yn Aberystwyth ar y 27ain. Gan nad yw Gavin ond un ar bymtheg oed, fe sylweddolwch ei fod yn gwneud yn eithriadol o dda i gael ei ddewis mewn tîm o'r oedran hwn, ac mae'n argoeli'n dda y caiff ei ddewis eleni i gynrychioli ei wlad yn y tîm o dan 16 oed.

Colin ymysg gorau y byd

Yn ddiweddar bu Colin Jones o Bontrug, disgybl yn ei ail flwyddyn y 6ed, yn cystadlu ym Mhencampwriaeth y Byd, Rhedeg Mynydd, yn y Swisdir.

Er nad yw Colin ond 17, 'roedd yn rhedeg yn y ras i ddynion dan ugain oed, ac yn naturiol iawn, 'roedd yn eithriadol o falch o'i berfformiad gan ddod yn wythfed.

Cawn edrych ymlaen, 'rwy'n siŵr, am lawer mwy o lwyddiant iddo yn ystod y tymor rhedeg traws gwlad sydd newydd ddechrau.